Tywysog Cymru a Duges Cernyw
Adolygiad Blynyddol 2010

ADOLYGIAD BLYNYDDOL 2010

Diben yr Adolygiad Blynyddol hwn yw cynnig golwg cyffredinol o weithgareddau swyddogol ac elusennol Tywysog Cymru a Duges Cernyw. Mae hefyd yn cynnig gwybodaeth am eu hincwm a'u gwariant swyddogol ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010. Mae'r Adolygiad hwn yn disgrifio rôl a gweithgareddau Tywysog Cymru sydd â thair prif elfen: cyflawni dyletswyddau brenhinol er mwyn cefnogi'r Frenhines, gweithio fel entrepreneur elusennol, a hybu ac amddiffyn traddodiadau, rhinweddau a rhagoriaeth y genedl.

www.princeofwales.gov.uk
Y wefan swyddogol ar gyfer Tywysog Cymru, Duges Cernyw, Tywysog William a Thywysog Harry. Mae'r newyddion diweddaraf ar gael ynddi, ynghyd â datganiadau i'r wasg, fideos unigryw, areithiau, erthyglau, dyddiaduron a llawer o fanylion bywgraffyddol.

CLAWR BLAEN
Tywysog Cymru a Duges Cernyw mewn digwyddiadau Dydd y Coffa yn Ottawa, Canada, ym mis Tachwedd 2009.

CYNNWYS

TUDALEN 16 CEFNOGI'R FRENHINES

TUDALEN 22 ENTREPRENEUR ELUSENNOL

TUDALEN 34 HYBU AC AMDDIFFYN

02 | 09	**CYFLWYNIAD**
02 | 03	Crynodeb
04 | 05	Ymrwymiadau a gweithgareddau
06 | 07	Cyfrifoldebau amgylcheddol
08 | 09	Dugaeth Cernyw
10 | 15	ERTHYGLAU ARBENNIG
10 | 11	Tywysog Cymru yn Affganistan
12 | 13	Project Fforestydd Glaw'r Tywysog
14 | 15	Duges Cernyw'n cefnogi pobl sydd wedi dioddef ymosodiadau rhywiol
16 | 21	**CEFNOGI'R FRENHINES**
18 | 19	Y Deyrnas Unedig a thramor
20 | 21	Y Gwasanaethau Arfog
22 | 33	**ENTREPRENEUR ELUSENNOL**
24 | 25	£110 miliwn at elusennau
26 | 27	Cyfle a menter
28 | 29	Busnes cyfrifol
30 | 31	Yr amgylchedd adeiledig
32	Addysg
33	Iechyd
34 | 37	**HYBU AC AMDDIFFYN**
36 | 37	Tynnu sylw at rai materion
38 | 57	**INCWM, GWARIANT, STAFF A CHYNALIADWYEDD**
40	Cyfrif incwm a gwariant
40 | 41	Incwm ac ariannu
42 | 43	Gwariant
44 | 48	Staff
49	Ymweliadau blynyddol
49	Dadansoddiad o'r costau swyddogol yn ôl categori gwariant
50 | 53	Cyfrif cynaliadwyedd
54 | 56	**ATODIAD**
54 | 55	Portffolios yr Uwch Reolwyr
56	Elusennau'r Tywysog

CRYNODEB

Mae'r Adolygiad Blynyddol hwn yn cynnwys y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010. Gyda'r cyflwyniad hwn a dewis o ddigwyddiadau'r flwyddyn, mae pum prif adran iddo: un yn arbennig ar gyfer erthyglau sy'n tynnu sylw at waith Tywysog Cymru a Duges Cernyw; tair yn esbonio pob un o brif elfennau rôl Ei Uchelder Brenhinol, a phumed adran sy'n manylu ar y dull o ariannu gweithgareddau a swyddfa Tywysog Cymru ac yn esbonio'u heffaith amgylcheddol.

Er nad oes gan Etifedd Yr Orsedd rôl gyfansoddiadol sefydlog, mae'r Tywysog, gyda chymorth ei wraig Duges Cernyw, yn ceisio gwneud cymaint ag y gallai i wneud gwahaniaeth ac i wella pethau yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Mae'n bosib rhannu ffordd Ei Uchelder Brenhinol o gyflawni hyn yn dair rhan gyffredinol.

Cyflawni dyletswyddau brenhinol i gefnogi'r Frenhines

Mae hyn yn golygu bod y Tywysog yn cefnogi'r Frenhines yn ei rôl fel canolbwynt balchder, undod a theyrngarwch y genedl er mwyn dod â phobl o bob rhan o gymdeithas at ei gilydd, gan weithredu fel arwydd o sefydlogrwydd a dilyniant, tynnu sylw at gyflawniadau, a phwysleisio pwysigrwydd gwasanaeth a'r sector gwirfoddol drwy annog a gosod esiampl.

Gweithio fel entrepreneur elusennol

Ers blynyddoedd lawer bu'r Tywysog yn gweithio i adnabod angen elusennol ac i sefydlu a hybu elusennau i ddiwallu'r angen hwn. Erbyn heddiw, yr enw ar y grŵp craidd o 20 o fudiadau yw Elusennau'r Tywysog, a'r grŵp hwn yw'r fenter elusennol fwyaf yn y Deyrnas Unedig sy'n cwmpasu amryw o achosion. Bob blwyddyn, mae Ei Uchelder Brenhinol yn helpu i godi, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, dros £100 miliwn i gynorthwyo gweithgareddau'r elusennau. Ar ben hyn, mae'r Tywysog wedi creu chwe menter gymdeithasol, ac mae elw'r rheini hefyd yn mynd at elusennau.

Hybu ac amddiffyn traddodiadau, rhinweddau a rhagoriaeth y genedl

Mae'r gwaith yn cynnwys cefnogi cymunedau cefn gwlad Prydain, hybu goddefgarwch a dealltwriaeth rhwng gwahanol gymunedau a phobl o wahanol ffydd, a thynnu sylw at gyflawniadau neu faterion a allai, heb ei gefnogaeth, gael ychydig iawn o sylw. Yn y cyswllt hwn, mae Ei Uchelder Brenhinol yn aml yn symbylu trafodaethau a newidiadau yn sgil ei gysylltiadau â Gweinidogion y Llywodraeth a phobl ddylanwadol eraill, a thrwy areithio ac ysgrifennu erthyglau. Wrth wneud hyn, mae'r Tywysog bob amser yn gofalu nad yw'n mentro i ddadleuon rhwng y pleidiau gwleidyddol. Mae'n cyfathrebu â Gweinidogion fel aelod o'r Cyfrin Gyngor ac i dynnu sylw at faterion y mae pobl yn eu crybwyll yn ystod ei ymweliadau ar hyd a lled y wlad.

Wrth gyflawni ei waith fel Etifedd yr Orsedd, mae Tywysog Cymru'n cael cefnogaeth gyson ei wraig, Duges Cernyw. Yn hytrach na chwilio am ei phroffil cyhoeddus amlwg ei hun, bod yn gefn i'w gŵr y mae Ei Huchelder Brenhinol yn ei wneud yn bennaf, trwy fynd gydag ef i lawer o'i ymrwymiadau cyhoeddus ar hyd a lled y wlad a thramor. Mae'r Dduges hefyd yn mynd i ddigwyddiadau ar ei phen ei hun, ac mae'n gwneud gwaith elusennol a gwaith arall.

UWCHBEN
David Chipperfield, y pensaer o Brydain, yn arwain taith ar gyfer Tywysog Cymru a Duges Cernyw yn ystod eu hymweliad ym mis Ebrill 2009 ag Amgueddfa Neues ym Merlin yn yr Almaen.

Tywysog Cymru'n cwrdd â milwyr o'r Deyrnas Unedig, Unol Daleithiau America ac Affganistan yng ngwersyll Shorabak, yn ystod ymweliad dirybudd ag Affganistan ym mis Mawrth 2010.

Incwm ac ariannu
(Cyfanswm £18.825m)

- Incwm o £17.161m o Ddugaeth Cernyw
- Ariannu o £1.664m o Grantiau Cymorth ac Adrannau'r Llywodraeth

Gwariant a threthi
(Cyfanswm £18.596m)

- £10.723m ar wariant swyddogol
- £3.484m ar drethi
- £1.694m ar wariant answyddogol
- £2.695m ar wariant cyfalaf (llai dibrisio), ad-daliadau benthyciad a throsglwyddo i gronfeydd wrth gefn

INCWM A GWARIANT

Am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth	2010 £000oedd	2009 £000oedd
Incwm o Ddugaeth Cernyw	17,161	16,458
Ariannu drwy Grantiau Cymorth ac Adrannau'r Llywodraeth	1,664	3,033
Cyfanswm yr incwm a'r ariannu	**18,825**	**19,491**
Gwariant swyddogol	10,723	12,513
Gweddill ar ôl y costau swyddogol	**8,102**	**6,978**
Trethi	3,484	3,093
Gwariant answyddogol	1,694	1,710
Gwariant cyfalaf (llai dibrisio), ad-daliadau benthyciad a throsglwyddo i gronfeydd wrth gefn	2,695	2,018
Gwarged arian net	**229**	**157**

CYFRIF CYNALIADWYEDD

Am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth	2010 tunelli metrig	2009 tunelli metrig
Allyriadau CO_2 cyfwerth		
Yr Aelwyd	2,718	2,601
Home Farm	2,044	2,377

Mae data ariannol hanesyddol ar:
www.princeofwales.gov.uk/mediacentre/annualreview

Mae Tywysog William a Thywysog Harry, y mae eu Haelwyd Brenhinol hefyd ym Mhalas St James's, hefyd yn cyflawni ymrwymiadau cyhoeddus ac yn cefnogi elusennau a mudiadau eraill, er mai fel swyddogion milwrol llawn amser y maen nhw'n gwasanaethu'r genedl yn bennaf. Mae'r ddau wrthi ar hyn o bryd yn hyfforddi i fod yn beilotiaid hofrenyddion; Tywysog William gyda Llu Chwilio ac Achub yr Awyrlu Brenhinol a Thywysog Harry gyda Chorfflu Awyr y Fyddin.

Crynodeb

Mae ffordd Tywysog Cymru o fynd ati i gyflawni ei ddyletswyddau cyhoeddus yn weddol gyson o'r naill flwyddyn i'r llall, ac unwaith eto'r prif themâu yn ystod 2009-2010 oedd amddiffyn yr amgylchedd, cefnogaeth Eu Huchelderau Brenhinol i'r Lluoedd Arfog a'u gwaith ar ran Llywodraeth Prydain ar eu hymweliadau tramor.

Bu'r Tywysog yn tynnu sylw ers blynyddoedd lawer at broblemau'r newid yn yr hinsawdd, ac arweiniodd gwaith ei Broject Fforestydd Glaw yn ystod 2009-2010 at gytuno ar gamau gweithredu i atal datgoedwigo fforestydd yn y trofannau, sy'n gam mawr ymlaen. Yn dilyn Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig yng Nghopenhagen ar y Newid yn yr Hinsawdd ym mis Rhagfyr 2009, rhoddodd y gwledydd datblygedig addewid o gyfanswm o $4.5 biliwn i dalu am gamau i arafu'r broses o ddistrywio fforestydd glaw.

Gan fod y Lluoedd Prydeinig yn gwasanaethu ym mhob rhan o'r byd, mae gan y Teulu Brenhinol rôl bwysig yn tynnu sylw at eu gwaith a'u haberth ac yn cynnal ysbryd y dynion a'r merched sy'n gwasanaethu a'u teuluoedd. Yn ôl eu harfer, cyflawnodd y Tywysog a'r Dduges lawer iawn o ymrwymiadau ar ran y Lluoedd Arfog yn ystod y flwyddyn, ac un o'r uchafbwyntiau oedd ymweliad Ei Uchelder Brenhinol ag Affganistan ym mis Mawrth 2010.

Yn ystod y flwyddyn, aeth Eu Huchelderau Brenhinol ar deithiau tramor swyddogol i'r Eidal ac i'r Almaen, i Ganada ac i dair o wledydd Canol Ewrop, yn ogystal â llawer o deithiau tramor byrrach fel rhan o'u gwaith.

YMRWYMIADAU A GWEITHGAREDDAU

Yn 2009-10, cyflawnodd Tywysog Cymru gyfanswm o 646 o ymrwymiadau swyddogol, ac roedd 123 o'r rheini dramor. Cyflawnodd Duges Cernyw 252 o ymrwymiadau, ac roedd 69 o'r rheini dramor. Mae'r digwyddiadau a'r gweithgareddau sy'n dilyn yn rhoi darlun o hyd a lled gwaith Eu Huchelderau Brenhinol yn ystod y flwyddyn.

Tywysog Cymru'n annerch yn nigwyddiad "Zeitgeist" Google

Ym mis Mai 2009, derbyniodd Ei Uchelder Brenhinol wahoddiad i draddodi'r brif araith i gynrychiolwyr diwydiannau'r cyfryngau newydd yn ystod "Zeitgeist", sef digwyddiad Ewropeaidd blynyddol Google yn Swydd Hertford. Yn ystod ei araith, dywedodd y gallai grym y rhyngrwyd, sef yr "erfyn fwyaf effeithiol yn hanes", helpu'r byd i ddatrys problem y newid yn yr hinsawdd.

Duges Cernyw'n agor cyfleuster newydd yn un o ganolfannau gofal canser Maggie yn yr Alban

Ym mis Mehefin 2009, yn rhinwedd ei gwaith fel Llywydd Canolfannau Gofal Canser Maggie, agorodd Ei Huchelder Brenhinol ardd therapiwtig yng Nghanolfan Maggie yn Dundee. Mae'r elusen yn ceisio cynnig llefydd ag amgylchedd croesawgar i bobl sy'n dioddef o ganser a'u teuluoedd. Canolfan Dundee yw'r gyntaf i gael gardd sydd wedi'i dylunio'n benodol i gynnwys nodweddion sy'n gwella ac yn adfer iechyd pobl. Ymhlith y nodweddion y mae cerflun gan yr artist Antony Gormley a lle i bobl wneud Tai Chi a dosbarthiadau eraill.

Ymweld â chymunedau yng Nghanolbarth Cymru yn ystod wythnos flynyddol yr haf yng Nghymru

Ym mis Mehefin 2009, treuliodd Eu Huchelderau Brenhinol sawl diwrnod yn ymweld â rhai o bentrefi a threfi'r Canolbarth. Un o'r rhain oedd Llanymddyfri lle y cafodd y ddau gyfle i gwrdd â rhai o staff a gwirfoddolwyr PRIME-Cymru, y gangen yng Nghymru o'r elusen a sefydlodd y Tywysog i helpu pobl dros 50 oed i ddechrau eu busnesau eu hunain, i fynd yn ôl yn llawn amser i fyd gwaith, ac i ddod o hyd i waith gwirfoddol.

Achlysur agor cofeb i gofféu dioddefwyr y bomiau yn Llundain

Ym mis Gorffennaf 2009, aeth Tywysog Cymru a Duges Cernyw i achlysur dadorchuddio cofeb yn Hyde Park i gofféu'r 52 o bobl a gafodd eu lladd gan fomiau terfysgwyr yng nghanol Llundain ar 7 Gorffennaf 2005. Wrth siarad yn ystod yr achlysur, disgrifiodd Ei Uchelder Brenhinol deuluoedd y dioddefwyr, y bobl a oroesodd a'r gwasanaethau brys yn Llundain a fu'n gweithio'r diwrnod hwnnw fel "esiampl wefreiddiol o bobl yn gweithio'n ddewr gyda'i gilydd yn wyneb ymosodiad creulon a chywilyddus."

Traddodi 33ain darlith Richard Dimbleby ar gyfer y BBC

Ym mis Gorffennaf 2009, derbyniodd Tywysog Cymru wahoddiad i draddodi'r ddarlith flynyddol er cof am Richard Dimbleby, y darlledwr enwog. Cafodd y ddarlith ei darlledu ar sianel BBC1, a rhybuddiodd Ei Uchelder Brenhinol am y peryglon wrth fethu â mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, gan ddweud: "Os byddwn ni'n siomi'r Ddaear, byddwn ni'n siomi dynoliaeth."

Tywysog Harry'n mynd i achlysur cyflwyno dyfarniadau *WellChild* yn Llundain

Ym mis Medi 2009, cyflwynodd Tywysog Harry ddyfarniadau i rai o'r plant hynod o ddewr y mae WellChild, elusen Brydeinig sy'n cynnig gofal meddygol arbenigol a chymorth yn y cartref i blant sy'n gleifion cronig a'u teuluoedd. Bu'r Tywysog yn noddi WellChild er 2007.

UWCHBEN

Tywysog Cymru'n traddodi ei araith yn ystod "Zeitgeist", digwyddiad Ewropeaidd blynyddol Google yn Swydd Hertford ym mis Mai 2009.

Tywysog Harry'n cwrdd ag Alex Burke, sy'n chwech oed ac yn dod o Fanceinion, enillydd dyfarniad y Plentyn Dewraf yn ystod achlysur cyflwyno dyfarniadau WellChild yn Llundain ym mis Medi 2009.

Talu teyrnged i'r milwyr a gollodd eu bywydau yn Irac yn ystod Ymgyrch Telic

Ym mis Hydref 2009, ymunodd Eu Huchelderau Brenhinol a Thywysog William â'r Frenhines ac aelodau eraill o'r Teulu Brenhinol yng ngwasanaeth goffa Irac yn Eglwys Gadeiriol St Paul's yn Llundain. Pwrpas y gwasanaeth oedd talu teyrnged i'r 179 o filwyr Prydain a gollodd eu bywydau yn ystod yr ymgyrch, a elwir yn Ymgyrch Telic, rhwng 2003 a 2009.

Tywysog Cymru'n annerch Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig yng Nghopenhagen ar y Newid yn yr Hinsawdd

Ym mis Rhagfyr 2009, dywedodd Ei Uchelder Brenhinol wrth y cynadleddwyr yng Nghopenhagen: "yn union fel y mae gan Ddynolryw'r grym i wthio'r byd at y dibyn, mae gennym ninnau'r grym i'w dynnu'n ôl ac i adfer ei gydbwysedd." Cafodd y Tywysog ei wahodd i annerch yn y gynhadledd ar sail ei waith dros ddegawdau lawer yn hybu materion amgylcheddol a brwydro yn erbyn y newid yn yr hinsawdd.

Duges Cernyw'n cyflwyno medalau ymgyrchu i 4ydd Bataliwn Y Reifflau

Ym mis Rhagfyr 2009, soniodd Ei Huchelder Brenhinol am "ddyled enfawr" y wlad i'r milwyr a fu'n ymladd yn Affganistan, wrth iddi gyflwyno medalau ymgyrchu i rai o filwyr 4ydd Bataliwn Y Reifflau yng ngwersyll Bulford yn Wiltshire yng nghwmni cannoedd o'u cyfeillion a'u teuluoedd. Bu'r Dduges yn gweithredu fel Cyrnol Brenhinol y bataliwn ers iddo gael ei sefydlu yn 2007.

Tywysog William yn agor adeilad newydd y Goruchaf Lys yn Wellington, Seland Newydd

Ym mis Ionawr 2010, teithiodd Tywysog William i Awstralia a Seland Newydd ar ei daith swyddogol gyntaf ar ran y Frenhines. Yn Seland Newydd, agorodd y Tywysog adeilad newydd Goruchaf Lys y wlad yn Wellington, ei phrifddinas. Dywedodd fod yr achlysur yn "garreg filltir ar daith gyfansoddiadol unigryw Seland Newydd."

Diolch i drigolion Wootton Bassett yn Wiltshire

Ym mis Ionawr 2010, aeth Eu Huchelderau Brenhinol i bentref Wootton Bassett yn Wiltshire i ddiolch i'r trigolion am eu cefnogaeth "ddiflino" i'r Lluoedd Arfog. Bob tro y mae cyrff y dynion a'r merched sy'n cael eu lladd wrth ymladd dros eu gwlad yn cael eu cludo'n ôl i'r wlad trwy faes awyr RAF Lyneham sydd gerllaw, mae niferoedd mawr o drigolion y pentref yn gadael eu cartrefi i sefyll ar ochrau'r strydoedd i dalu teyrnged dawel i'r meirw.

Duges Cernyw'n helpu Age Concern Wiltshire i ddathlu ei ben-blwydd yn 60 oed

Ym mis Ionawr 2010, Duges Cernyw oedd y wraig wadd mewn derbyniad i nodi'r 60 blynedd ers i Age Concern Wiltshire gael ei sefydlu ac i ddiolch i holl staff a gwirfoddolwyr yr elusen am eu gwaith hynod yn helpu pobl hŷn.

Ymweld â milwyr Prydain a'r Gymanwlad yn Affganistan

Ym mis Mawrth 2010, treuliodd Tywysog Cymru ddau ddiwrnod yn Affganistan. Wrth ymweld â Kabul, prifddinas y wlad, cafodd y Tywysog gyfle i gwrdd ag arweinwyr milwrol, gwleidyddol a ffydd, ac yn nhalaith Helmand, diolchodd i filwyr a staff sifil Prydain a'r Gymanwlad sy'n gweithio i wneud y wlad yn lle sefydlog a heddychlon unwaith eto.

UWCHBEN
Duges Cernyw'n cyflwyno medalau ymgyrch Affganistan i filwyr 4ydd Bataliwn y Reifflau yng ngwersyll Bulford yn Wiltshire ym mis Rhagfyr 2009.

Tywysog William yn derbyn *hongi* – dull traddodiadol y Maori o gyfarch pobl – yn ystod ymweliad ag Ynys Kapiti ar 18 Ionawr 2010, sef ail ddiwrnod ei arhosiad yn Wellington, Seland Newydd.

646
O YMRWYMIADAU SWYDDOGOL

123
O YMRWYMIADAU TRAMOR

CYFRIFOLDEBAU AMGYLCHEDDOL

Mae Tywysog Cymru wedi bod yn arweinydd amgylcheddol am bron i 40 o flynyddoedd, gan weithio gyda busnesau, llywodraethau a chyrff cenedlaethol a rhyngwladol eraill i helpu i amddiffyn yr amgylchedd ac i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

Mae Aelwyd Eu Huchelderau Brenhinol yn ceisio cwtogi ar ei hallyriadau o garbon, sy'n digwydd yn bennaf yn sgil teithio, gwresogi a goleuo, a'r allyriadau o Home Farm yn Highgrove. Mae'r Aelwyd yn llwyddo i wneud hyn yn bennaf trwy ddefnyddio llai o ynni a thrwy ddefnyddio mwy o ynni adnewyddadwy.

Aeth yr Aelwyd yn ei blaen yn ystod y flwyddyn yn cynyddu ei defnydd o fathau adnewyddadwy o ynni; mae tua 22 y cant o holl ofynion yr Aelwyd am ynni (i wresogi, i oleuo ac i deithio) bellach yn dod o ffynonellau adnewyddadwy.

Gwelwyd lleihad o 4 y cant y llynedd yng nghyfanswm yr allyriadau o garbon. Cwtogi'n sylweddol ar allyriadau Home Farm a'r Aelwyd oedd yn bennaf gyfrifol am hyn, yn hytrach na gwrthbwyso unrhyw gynnydd sy'n dod yn sgil teithiau tramor swyddogol.

Mae'r allyriadau o Home Farm wedi gostwng, yn bennaf am fod nifer y gwartheg godro yno'n amrywio. Yn yr Aelwyd, mae nifer o gamau wedi helpu i gwtogi ar y defnydd o danwydd ffosil a'r allyriadau o nwyon tŷ gwydr. Yn eu plith y mae defnyddio boeleri sy'n llosgi naddion pren yn Highgrove, Birkhall a Llwynywermod, a phympiau gwres yn Highgrove sy'n tynnu gwres o'r ddaear a'r awyr.

Llwyddwyd i gwtogi ar y defnydd o drydan yn y swyddfeydd trwy brynu cyfrifiaduron ac offer newydd sy'n defnyddio ynni'n effeithlon yn lle'r hen rai, a thrwy ddefnyddio dyfeisiau sy'n monitro'r defnydd o drydan i chwilio am ffyrdd o'i arbed. Mae cynlluniau ar y gweill i ddefnyddio mwy o bympiau gwres a mathau eraill o ynni adnewyddadwy. Ar ben hynny, mae'r Trên Brenhinol a cheir y Tywysog yn rhedeg ar fiodiesel sy'n cael ei wneud o hen olew coginio.

Er bod yr Aelwyd yn dal i chwilio am ffyrdd o gwtogi ar yr allyriadau yn y meysydd y mae ganddi reolaeth uniongyrchol drostyn nhw, y ffynhonnell fwyaf o allyriadau o nwyon tŷ gwydr yw'r teithiau tramor swyddogol sy'n cael eu gwneud mewn ymateb i geisiadau gan y Llywodraeth. Roedd y teithiau rhyngwladol hyn – aeth Eu Huchelderau Brenhinol gyda'i gilydd neu ar wahân i'r Eidal, yr Almaen, Canada, Ffrainc, Denmarc, Gwlad Pwyl, Hwngari, y Weriniaeth Tsiec, Affganistan, Qatar a Saudi Arabia yn ystod 2009-2010 – yn cyfrif am 54 y cant o holl allyriadau'r Aelwyd o nwyon tŷ gwydr y llynedd.

Mae'r allyriadau o Home Farm yn dal i gael eu monitro a'u dadansoddi gyda'r nod o'u cwtogi yn y tymor hir. Gan ei bod wedi cael ei rhedeg fel fferm organig er 1985, nod Home Farm yw hybu arferion ffermio cynaliadwy. Llwyddwyd yn ystod 2009-2010 i leihau'r allyriadau o nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â'r fferm o 2,377 tunnell fetrig i 2,044 tunnell fetrig. Mae hyn yn golygu tua 1.6 tunnell fetrig yr acer ac efallai fod yr amcangyfrif hwn yn rhy uchel gan nad yw'n rhoi sylw i'r carbon mae'r pridd yn ei amsugno.

UWCHBEN
Clarence House a Highgrove. Mae'r allyriadau yn Home Farm a Highgrove yn dal i gael eu monitro a'u dadansoddi gyda'r nod o'u cwtogi yn y tymor hir.

Cyfanswm yr allyriadau CO_2e (tunelli metrig)
Am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth



- Yr Aelwyd: Ffynonellau dan reolaeth yr Aelwyd
- Yr Aelwyd: Teithiau tramor swyddogol
- Home Farm

Mae'r Aelwyd yn cyfrannu at brojectau coedwigaeth ac ynni cynaliadwy i helpu i wneud iawn am effeithiau ei hallyriadau o nwyon tŷ gwydr.

Mae'r Cyfrif Cynaliadwyedd ar dudalennau 50 i 53 yn cynnig mwy o fanylion am berfformiad yr Aelwyd o safbwynt cynaliadwyedd

Yn ogystal â rheoli ôl troed carbon ei Aelwyd ac un Home Farm, mae Tywysog Cymru'n dal i helpu i roi sylw i her y newid yn yr hinsawdd trwy waith ei wahanol fentrau a phrojectau amgylcheddol, yn aml trwy gydweithio gyda llywodraethau, y sector preifat a chyrff anllywodraethol. Ymhlith y mentrau y mae Project Fforestydd Glaw'r Tywysog (*The Prince's Rainforests Project*), mentrau yn y sector fel y grŵp "ClimateWise" o'r prif gwmnïau yswiriant, y grŵp "P8" o'r prif gronfeydd pensiwn a Chynghrair y Sector Cyfreithiol (*Legal Sector Alliance*), Rhwydwaith Gŵyl Fai'r Tywysog (*The Prince's May Day Network*) sy'n cynnwys dros 2,300 o fusnesau'r Deyrnas Unedig, a Phroject Cyfrifyddu er Cynaliadwyedd y Tywysog (*The Prince's Accounting for Sustainability Project*).

Un o brif ganlyniadau Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd yng Nghopenhagen ym mis Rhagfyr 2009, pan gafwyd anerchiad gan Ei Uchelder Brenhinol, oedd gweld y gwledydd datblygedig yn cyhoeddi addewid o $3.5 biliwn (swm a gafodd ei godi wedi hynny i $4.5 biliwn) i helpu gwledydd y fforestydd glaw i fynd i'r afael â datgoedwigo. Daeth yr addewid hwn yn sgil cynigion a gafodd eu datblygu a thrafodaethau rhyngwladol a gafodd eu hysgogi gan Broject Fforestydd Glaw'r Tywysog yn bennaf. Yn gynharach yn y flwyddyn, arweiniodd y Tywysog gynhadledd tri diwrnod o hyd ym Mhalas St James's yng nghwmni 60 o wyddonwyr, a oedd yn cynnwys 20 o enillwyr anrhydeddau Nobel. Arweiniodd y gynhadledd at gyhoeddi memorandwm yn galw am weithredu ar y newid yn yr hinsawdd. Mae Ei Uchelder Brenhinol yn cwrdd yn rheolaidd â gwyddonwyr ym maes yr hinsawdd i ddysgu mwy am eu gwaith ymchwil, ac aeth y Tywysog y llynedd i bencadlys y Swyddfa Dywydd yng Nghaerwysg ac i Ysgol y Gwyddorau Amgylcheddol ym Mhrifysgol East Anglia yn Norwich.

Cafodd Uwchgynhadledd Rhwydwaith Gŵyl Fai'r Tywysog, sef cynulliad mwyaf y Deyrnas Unedig o fusnesau sydd wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, ei chynnal ym mis Mai 2009 mewn 10 o wahanol leoliadau ar hyd a lled y Deyrnas Unedig. Siaradodd Ei Uchelder Brenhinol yn ystod y digwyddiad yn Llundain, gan ddweud wrth y cynadleddwyr y byddai cenedlaethau'r dyfodol yn malio llawer am gyflwr y blaned y gwnaethon nhw ei hetifeddu, ac y byddan nhw'n holi a allai gynnig sefydlogrwydd iddyn nhw. Dywedodd "Yn fy marn i, rhaid i ni ofalu nid yn unig ein bod ni'n cynnig yr etifeddiaeth honno iddyn nhw, ond hefyd mai gwneud hynny yw ein cyfle pennaf."

Mae Project Cyfrifyddu er Cynaliadwyedd y Tywysog yn dal i weithio ar hyd a lled y Deyrnas Unedig a'r byd yn creu canllawiau ymarferol a thechnegau i roi cynaliadwyedd wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau ac o ysgrifennu adroddiadau amdanyn nhw. Mae'r Trysorlys wrthi'n mabwysiadu'r Fframwaith Adrodd yn Gysylltiedig (*The Connected Reporting Framework*), y mae'r Aelwyd a chyrff eraill eisoes yn ei ddefnyddio, i'r sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig ei ddefnyddio.

Yn olaf, yn sgil gwaith ei Broject Fforestydd Glaw, mae'r Tywysog wedi sefydlu menter amgylcheddol newydd dan enw'r Uned Gynaliadwyedd Rhyngwladol (*International Sustainability Unit* neu ISU). Bydd yr Uned yn symud y gwaith ar fforestydd glaw yn ei flaen a bydd hefyd yn rhoi sylw i faterion brys eraill ym maes cynaliadwyedd ar hyd a lled y byd, yn arbennig amgylchedd y môr (a gor-bysgota'n benodol), amaethyddiaeth gynaliadwy a gwarchod gwasanaethau ecosystemau. Nod yr Uned yw rhoi sylw i'r cwtogi yng nghyfalaf naturiol y byd trwy helpu i greu consensws barn ynglŷn â'r ffyrdd gorau o wella diogelwch cyflenwadau bwyd, dŵr ac ynni yn y tymor hir.

Yn gyffredinol, mae Ei Uchelder Brenhinol yn mynd ati mewn ffordd integredig i roi sylw i broblemau amgylcheddol, sy'n cynnwys nid yn unig ymdrechion i gwtogi ar ôl troed carbon ei Aelwyd a'i defnydd o ynni, a'i brojectau a'i fentrau amgylcheddol penodol, ond hefyd ei waith mewn nifer o feysydd eraill. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys llawer o feysydd sy'n gorgyffwrdd, o hybu amaethyddiaeth gynaliadwy, cefnogi ffermwyr bach a thynnu sylw at bwysigrwydd prynu bwyd yn lleol a gwella addysg bwyd, i hybu dulliau mwy cynaliadwy o gynllunio a dylunio cartrefi a chymunedau mewn ffordd sy'n gwella ac yn ychwanegu gwerth at yr amgylchedd cymdeithasol, naturiol ac adeiledig.

DUGAETH CERNYW

Stad breifat yw Dugaeth Cernyw sy'n ariannu gweithgarwch cyhoeddus, elusennol a phreifat Tywysog Cymru a'i deulu. Mae'r Ddugaeth yn cynnwys 54,424 hectar o dir mewn 23 sir, yn Ne-orllewin Lloegr yn bennaf. Fel Dug presennol Cernyw, mae'r Tywysog yn derbyn rhan weithredol yn y gwaith o redeg y Ddugaeth, a'i athroniaeth yw gwella'r stad a'i throsglwyddo i Ddugiaid y dyfodol yn gadarnach ac mewn gwell cyflwr.

54,424

MAE'R DDUGAETH YN CYNNWYS 54,424 HECTAR O DIR MEWN 23 SIR

Mae Poundbury'n dal i wneud yn dda mewn marchnad dai anodd, ac mae'r gwaith adeiladu'n mynd yn ei flaen yn ôl y cynllun.

Fel Dug Cernyw, mae gan y Tywysog hawl i gael yr incwm blynyddol net o'r Ddugaeth. Nid oes hawl ganddo i gael yr elw a ddaw o werthu asedau cyfalaf y Ddugaeth; mae'r rhain yn aros yn rhan o'r Ddugaeth fel incwm ar gyfer y rhai a fydd yn elwa arno yn y dyfodol. Nid oes rhaid i'r Ddugaeth dalu treth gorfforaeth gan nad yw'n gwmni (hynny yw, yn endid cyfreithiol ar wahân i bwrpasau treth – yn yr un ffordd nad yw partneriaeth, er enghraifft, yn endid cyfreithiol ar wahân i bwrpasau treth). Ond mae Ei Uchelder Brenhinol yn dewis talu treth incwm ar incwm blynyddol net y stad.

Tir ffermio ac eiddo masnachol a phreswyl yw'r stad yn bennaf. Mae gan y Ddugaeth bortffolio o fuddsoddiadau ariannol hefyd. O ran buddsoddi mewn eiddo, ei strategaeth yn y tymor hir yw bod yn berchen ar bortffolio cytbwys o eiddo o safon, rheoli'r eiddo hwnnw a, lle bynnag y bo hynny'n bosib, ei wella. Bydd y strategaeth hon yn dal i olygu cael gwared ag eiddo dros ben, buddsoddi yn y gwaith o gynnal a gwella'r stad y mae'r Ddugaeth yn dal yn berchen arni, a phrynu eiddo newydd sy'n bodloni ei hamcanion buddsoddi.

Y Trysorlys sy'n goruchwylio trafodion ariannol y Ddugaeth, ac mae pwyslais arbennig ar gadw cyfalaf y Ddugaeth ar gyfer y rhai a fydd yn elwa arni yn y dyfodol. Er enghraifft, rhaid cael cymeradwyaeth y Trysorlys i unrhyw drafodion tir sy'n werth dros £500,000.

Bu cynnydd o 4.3 y cant yng ngwarged blynyddol Dugaeth Cernyw, sydd bellach yn £17.2 miliwn. Y teimlad yw bod y canlyniadau ariannol yn foddhaol mewn marchnad sydd wedi bod yn anodd. Mae'r cyfrif cyfalaf wedi perfformio'n dda hefyd ym mhob categori o eiddo, ac mae'r buddsoddiadau ariannol yn arbennig wedi tyfu yn ystod y 12 mis diwethaf.

Un o brojectau mwyaf y Ddugaeth yw Poundbury, y datblygiad ar dir y Ddugaeth ar ffurf estyniad i dref Dorchester, yn Dorset. Mae Poundbury'n dal i wneud yn dda mewn marchnad dai anodd, ac mae'r gwaith adeiladu'n mynd yn ei flaen yn ôl y cynllun. Er bod gwerthiant wedi arafu, cafodd cyfanswm o tua 60 o dai preifat a fforddiadwy (sy'n is na'r gwerthiant o 100 yn ystod y blynyddoedd gorau) eu cwblhau yn ystod y flwyddyn, ac fe symudodd pobl i mewn iddyn nhw. Y project mawr nesaf yn Poundbury yw creu Sgwâr y Fam Frenhines a fydd yn cynnwys archfarchnad fach, marchnad ar gyfer cynhyrchwyr lleol, 30,000tr.^{2} o swyddfeydd a 28 o fflatiau fforddiadwy. Ar ôl i'r project gael ei gwblhau, bydd y Ddugaeth yn cadw rhan ohono fel buddsoddiad yn y tymor hir. Mewn rhan arall o'r datblygiad, mae'r gwaith wedi dechrau ar sylfeini Cwadrant y De-orllewin lle bydd 196 o gartrefi preifat a fforddiadwy'n cael eu codi yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

Mae Tywysog Cymru'n mynd yn rheolaidd i Poundbury, ac ym mis Rhagfyr 2009 agorodd Canolfan Adeiladu a Hyfforddiant Coleg Weymouth, sy'n arbenigo ar addysgu sgiliau adeiladu cynaliadwy fel gosod toi gwellt, codi waliau cerrig sych a gwaith seiri maen.

Mewn rhan arall o stad y Ddugaeth, cwblhaodd Cymdeithas Tai Westcountry y gwaith o ddatblygu 12 o gartrefi fforddiadwy ar gyrion pentref Upton Cross, ger Liskeard yng Nghernyw. Cafodd y cartrefi eu dylunio yn arddull draddodiadol yr ardal, ac fe gawsant eu llenwi ar unwaith gan aelodau o gymuned yr ardal a oedd wedi bod yn cael trafferth dod o hyd i gartrefi fforddiadwy addas yno.

Cynyddodd Dugaeth Cernyw ei stad o goetiroedd yn ystod y 12 mis diwethaf, gan brynu coetir mawr yn Swydd Henffordd nesaf at dir ffermio mae'r Ddugaeth eisoes yn berchen arno, ac wrth ymyl Aconbury Wood. Y nod yw dod ag amrywiaeth i'r coetir newydd trwy dyfu dewis helaeth o rywogaethau llydanddail fel coed derw, ynn a chastanwydd pêr. Mae coetiroedd y Ddugaeth yn cael eu defnyddio'n rheolaidd erbyn hyn ar gyfer gweithgareddau addysgu a hyfforddi. Er enghraifft, defnyddiodd project arloesol o'r enw '*Work in the Woods Week*' rai o goedwigoedd y Ddugaeth yn ystod gwanwyn 2009 i addysgu sgiliau rheoli coetiroedd i bron i 30 o bobl ifanc. Cafodd sawl un o'r bobl ifanc hyn eu dewis wedyn i wneud prentisiaethau dwy flynedd o hyd mewn coedwigaeth, y mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn eu hariannu'n rhannol.

Mae cynaliadwyedd yn sail i bob datblygiad ar dir y Ddugaeth. Ymunodd y stad yn ddiweddar â menter ar y cyd sydd â'r nod o adeiladu a gweithredu safle cynhyrchu ynni adnewyddadwy sy'n defnyddio bio-nwy o beiriant treulio anaerobig a fydd yn ardal Dorchester. Bydd y gwaith cynhyrchu hwn yn cael ei osod mewn man sy'n gallu cyflenwi gwres a thrydan i Poundbury ac i ysgolion a diwydiannau'r ardal. Bydd yn gweithredu fel cadwyn gyflenwi integredig a chydweithredol sy'n creu swyddi yn yr ardal ym myd ffermio a thrin a phrosesu gwastraff.

Mae cynnal effeithiolrwydd mawnogydd fel llefydd sy'n storio carbon yn naturiol yn agwedd arall ar waith cynaliadwyedd y Ddugaeth. Ar Dartmoor, mae partneriaeth gydag Awdurdod y Parc Cenedlaethol, y Weinyddiaeth Amddiffyn, *Natural England*, *South West Water*, Asiantaeth yr Amgylchedd a grwpiau lleol wedi bod yn gweithio i gadw gorgorsydd mawnog yr ardal yn storio carbon.

Mae hanes o dorri mawn yn y corsydd ar rai rhannau o Dartmoor ac mae hyn, ynghyd ag effeithiau erydu naturiol, yn gallu gwneud i'r mawn sychu a rhyddhau carbon i'r atmosffer. Nod yw project yw mynd ati mewn nifer o wahanol ffyrdd i atal yr erydu hwn. Cafodd argloddiau o bren a mawn neu o fawn yn unig, eu gosod i gynnal y lleithder yn y mawn presennol ac i arafu'r broses o ryddhau carbon. Mantais arall yw bod y gwaith yn helpu i leihau perygl llifogydd ac yn gwella ansawdd y dŵr.

UWCHBEN
Holmead Walk ar ddatblygiad Dugaeth Cernyw yn Poundbury, Dorset.
Cafwyd y llun gan Ian Skelly

Mae coetiroedd y Ddugaeth yn cael eu defnyddio'n rheolaidd erbyn hyn ar gyfer gweithgareddau addysgu a hyfforddi.

TYWYSOG CYMRU YN AFFGANISTAN

ISOD
Y Tywysog yn sgwrsio ag un o gaplaniaid y Fyddin ym mis Mawrth 2010 wrth y gofeb yng ngwersyll Bastion i'r rhai a gollodd eu bywydau.

"Rwy'n edmygu'r Lluoedd Arfog yn fawr ac yn eu cefnogi yn eu gwaith lle bynnag y gallaf"

Tywysog Cymru

Ym mis Mawrth 2010, aeth Tywysog Cymru i Affganistan ar ymweliad dirybudd. Treuliodd ddau ddiwrnod yno gan fynd i Kabul, y brifddinas, a thalaith Helmand yn y de, lle y mae'r rhan fwyaf o Luoedd Prydain wedi'u lleoli.

Tra'r oedd yn Kabul, cafodd y Tywysog gyfle i gwrdd â Chadfridog Stanley McChrystal, cadlywydd y Llu Cynorthwyol Diogelwch Rhyngwladol, a nifer o brif wleidyddion, diplomyddion ac arweinwyr ffydd Affganistan, a staff a gweithwyr sifil llysgenhadaeth Prydain sy'n gweithio i wneud y wlad yn lle sefydlog a heddychlon unwaith eto.

Cafodd gyfle hefyd i fynd i ganol y ddinas i weld dau safle y mae ei elusen Sefydliad y Mynydd Gwyrddlas (*Turquoise Mountain Foundation*) yn eu rhedeg ac i weld drosto'i hun ei gwaith yn addysgu ac yn adfywio pensaernïaeth a sgiliau crefft traddodiadol y wlad, yn adfer rhannau trefol hanesyddol y ddinas, yn gwella addysg menywod a phlant ac yn creu swyddi yn yr ardal.

Teithiodd Ei Uchelder Brenhinol wedyn o Kabul i'r de i aros noson yng ngwersyll Bastion yn nhalaith Helmand. Aeth ar awyren y bore wedyn i bencadlys Tasglu Helmand yn Lashkar Gah i fynd i sesiwn briffio gan y cadlywyddion ac i "shura", neu gyfarfod, â Llywodraethwr Helmand ac uwch-arweinwyr llwythau'r ardal. Aeth ymlaen wedyn mewn hofrennydd Chinook i weld cwmni o Warchodfilwyr yr Alban a oedd yn gwarchod safle gwylio yn y caeau pabi ar dir cras Nad-e-Ali.

Aeth y Tywysog yn ei flaen i ymweld â Byddin Genedlaethol Affganistan yng ngwersyll Shorabak ac i gwrdd â rhai o'r milwyr y mae lluoedd Prydain yn eu hyfforddi, cyn teithio'n ôl wedyn i wersyll Bastion i dreulio amser gyda pheilotiaid a chriwiau Cyd-lu'r Hofrenyddion, i ymweld ag ysbyty'r gwersyll ac i wylio aelodau o'r timau Gwaredu Ffrwydron ac Arfau'n arddangos eu gwaith hynod. Daeth diwrnod y Tywysog i ben mewn gwasanaeth wrth i'r haul fachlud wrth ymyl y gofeb yng ngwersyll Bastion. Gosododd dorch o flodau pabi a charnasiwns papur gwyn er cof am filwyr Prydain a gollodd eu bywydau yn ystod yr ymgyrch.

Ychydig cyn gadael y wlad, esboniodd Ei Uchelder Brenhinol wrth y BBC pam y daeth i Affganistan. Dywedodd: "Y prif reswm dros ddod yw fy mod i'n edmygu'r Lluoedd Arfog yn fawr ac yn eu cefnogi yn eu gwaith lle bynnag y gallaf. Y peth arall yw fy mod i'n gweithredu fel Prif Gyrnol nifer fawr o gatrodau - ac mae llawer o unedau arfog eraill yr wyf i'n ceisio bod â diddordeb ynddyn nhw. Felly, tra bo fy mhobl i yma, roeddwn i'n awyddus i ddod i'w gweld nhw... i weld y math o amodau maen nhw'n byw ynddyn nhw, a hefyd i ddangos diddordeb a brwdfrydedd yn eu gwaith.

"Y tro hwn hefyd, roeddwn i'n falch o gael cyfle i gwrdd â'r holl bobl hynny sy'n gwneud gwaith ardderchog yn ein llysgenhadaeth yn Kabul, a'r tîm sy'n gwneud gwaith adfywio gwych yn y rhanbarthau – heb i neb eu gweld a'u clywed... Pobl tu hwnt o arbennig yw'r rhain. Felly, roeddwn i'n awyddus i ddod i ddweud 'Diolch, a da iawn chi.'"

UWCHBEN
Tywysog Cymru'n teithio ar un o hofrenyddion Chinook byddin Prydain i Lashkar Gah, Affganistan ym mis Mawrth 2010.

Tywysog Cymru mewn shura â'r Llywodraethwr Mangal aC uwch-arweinwyr llwythau'r ardal yn ystod ymweliad dirybudd â milwyr Prydain yn Affganistan ym mis Mawrth 2010.

Tywysog Cymru'n sgwrsio â rhai o warchodfilwyr Tasglu Helmand yn Lashkar Gah, Affganistan ym mis Mawrth 2010.

PROJECT FFORESTYDD
GLAW'R TYWYSOG

ISOD
Y Tywysog yn siarad ar ddechrau un o sesiynau uwch Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn Hinsawdd y Byd yng Nghopenhagen, Denmarc ym mis Rhagfyr 2009.

Cafodd Project Fforestydd Glaw'r Tywysog (PRP) ei sefydlu yn 2007 i helpu i ddod o hyd i atebion i broblem datgoedwigo yn fforestydd y trofannau. Gan fod datgoedwigo'n arwain at allyrru llawer iawn o garbon, mae gwyddonwyr yn credu nad yw'n bosib cael atebion ymarferol i heriau'r newid yn yr hinsawdd heb achub y fforestydd glaw rhag cael eu dinistrio ymhellach.

Cyn gallu cytuno ar unrhyw atebion posib, roedd rhaid mynd ati yn ystod 2008 a 2009 i weithio gyda'r sectorau cyhoeddus a phreifat a chyrff anllywodraethol gan ganolbwyntio ar un nod yn unig, sef gofalu bod pawb yn cydnabod yr angen i roi llawer o arian i atal datgoedwigo cyn mis Rhagfyr 2009 pan fyddai arweinwyr y byd ac amgylcheddwyr yn dod at ei gilydd yng Nghopenhagen ar gyfer Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd.

Un o'r prif gamau a arweiniodd at wireddu'r nod hwn oedd y cyfarfod o arweinwyr y byd a gafodd ei gynnal dan arweiniad Tywysog Cymru ym Mhalas St James's ym mis Ebrill 2009. Prif ganlyniad y cyfarfod hwnnw oedd sefydlu gweithgor rhyngwladol o 35 o wledydd i fynd ati yn y cyfamser i asesu ffyrdd o godi a defnyddio arian i helpu gwledydd y fforestydd glaw i gadw eu fforestydd. Fel sail i'w waith, defnyddiodd y grŵp gynigion PRP ei hun am becyn argyfwng (*Emergency Package Proposals*), a gyhoeddwyd yn gynharach yn y flwyddyn, ar y cyd ag awgrymiadau eraill gan lywodraethau a chyrff rhyngwladol.

Cyhoeddodd y gweithgor rhyngwladol ei adroddiad ei hun ym mis Hydref yn manylu ar y swm o arian argyfwng a oedd yn ofynnol i leihau datgoedwigo yn fforestydd y trofannau ac yn sôn sut y gallai gwledydd y fforestydd glaw gael eu digolledu ar sail eu perfformiad, gyda'r nod o hybu ffyrdd mwy cynaliadwy ac isel eu carbon o ddatblygu eu heconomïau.

Cafodd yr adroddiad a'i set o atebion eu cymeradwyo'n gyffredinol ym mis Tachwedd 2009 pan arweiniodd y Tywysog ail gyfarfod ym Mhalas St James's ynglŷn â fforestydd glaw. Yn ystod y cyfarfod hwnnw, dangosodd gweinidogion y llywodraeth, arweinwyr busnesau rhyngwladol a chynrychiolwyr y prif gyrff amgylcheddol anllywodraethol eu bod yn benderfynol o gael cytundeb cadarnhaol yng Nghopenhagen – ewyllys ar y cyd sydd wedi helpu, yn sgil uwchgynhadledd y Cenhedloedd Unedig, i sicrhau $4.5 biliwn ar gyfer camau i gwtogi ar ddatgoedwigo dros y tair blynedd nesaf.

Yn ogystal â cheisio dod o hyd i arian i wledydd y fforestydd glaw, dechreuodd PRP y llynedd ar ymgyrch i roi gwybod i'r cyhoedd am yr angen i fynd i'r afael â datgoedwigo. Cafodd yr ymgyrch ei lansio ym mis Mai 2009 ar ffurf fideo gyda Thywysog Cymru a'i feibion, Tywysog William a Thywysog Harry, a nifer o bobl enwog o bob rhan o'r byd yn cymryd rhan gyda llyffant wedi'i animeiddio ar gyfrifiadur a oedd yn gweithredu fel symbol o'r fforestydd glaw.

Cafodd y fideo ei wylio dros chwe miliwn o weithiau. Yn ystod y flwyddyn, anfonodd dros chwarter miliwn o bobl negeseuon yn cefnogi'r wefan, ac roedd cyfanswm o 1.6 biliwn o gyfleoedd i bobl weld neges yr ymgyrch ar y cyfryngau ar hyd a lled y byd.

UWCHBEN
Tywysog Cymru'n cwrdd â phlant ysgol a addurnodd lyffant ac a greodd luniau ac arddangosiadau am fforestydd glaw mewn cyfarfod o Broject Fforestydd Glaw'r Tywysog ym Mhalas St James's yn Llundain ym mis Tachwedd 2009.

$4.5 biliwn

ADDEWID GAN LYWODRAETHAU AR ÔL COPENHAGEN I'W WARIO AR GAMAU I GWTOGI AR DDATGOEDWIGO DROS Y TAIR BLYNEDD NESAF

700,000

CYMERODD DROS 700,000 O DDISGYBLION RAN YN RHAGLEN PRP I YSGOLION

DUGES CERNYW'N CEFNOGI POBL SYDD WEDI DIODDEF YMOSODIADAU RHYWIOL

ISOD
Duges Cernyw'n sgwrsio â dioddefwr yn ystod ymweliad â chanolfan RASASC (canolfan sy'n cynorthwyo pobl a gafodd eu treisio neu eu cam-drin yn rhywiol) yn Llundain ym mis Tachwedd 2009.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cyflawnodd Ei Huchelder Brenhinol nifer o ymrwymiadau i gynnig cefnogaeth i bobl a gafodd eu treisio neu eu cam-drin yn rhywiol ac i ddiolch i'r mudiadau a'r bobl sy'n helpu menywod i ddod dros eu profiadau trawmatig.

Gwnaeth yr hyn a glywodd y Dduges yn ystod yr ymrwymiadau argraff ddofn arni, ac mae'r agwedd hon ar ei gwaith cyhoeddus yn un sy'n debygol o gael mwy o sylw yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Soniodd y menywod yn gadarnhaol iawn am y therapi a'r gefnogaeth roedd y ganolfan yn ei chynnig, a oedd wedi'u helpu i fynd ymlaen â'u bywydau.

Ym mis Tachwedd 2009, derbyniodd Ei Huchelder Brenhinol wahoddiad i fynd i ganolfan yn Croydon, de Llundain, sy'n cynorthwyo pobl a gafodd eu treisio neu eu cam-drin yn rhywiol. Yno clywodd menywod sydd wedi goroesi ymosodiadau'n sôn am y ffordd yr oedd eu profiadau wedi effeithio ar eu bywydau o ddydd i ddydd. Soniodd y menywod yn gadarnhaol iawn am y therapi a'r gefnogaeth roedd y ganolfan yn ei chynnig, a oedd wedi'u helpu i fynd ymlaen â'u bywydau. Ar ôl eu cyfarfod, dywedodd y Dduges wrthyn nhw (yn Saesneg): "Rydw i'n hynod o ddiolchgar i chi am ddod yma i siarad am hyn; rwy'n siŵr nad oedd hynny'n beth hawdd i chi. Rwy'n meddwl eich bod chi i gyd yn anhygoel. Da o beth yw cael rhywle fel hyn i fynd ac i siarad gyda'ch gilydd. Mae'n rhaid ei fod yn gwneud gwahaniaeth go iawn i'ch bywydau."

Ar ôl ei hymweliad, roedd Ei Huchelder Brenhinol yn awyddus i ddysgu mwy am y math hwn o waith ac am y ffyrdd y mae'r heddlu a'r gwasanaethau meddygol yn ymateb i ymosodiadau. Oherwydd hyn, aeth ym mis Chwefror 2010 i ganolfan gyfeirio ar gyfer dioddefwyr yng nghanol Llundain ac i orsaf yr heddlu yn yr ardal sy'n arbenigo ar ymchwilio i achosion o drais.

Aeth yn y lle cyntaf i ganolfan The Haven yn Ysbyty'r Santes Fair yn Paddington lle mae gweithwyr proffesiynol wedi cael eu hyfforddi'n arbennig i gynnig help a chyngor meddygol ac i gasglu tystiolaeth fforensig. Yn ystod ei hymweliad dilynodd y Dduges yr un camau ag y byddai'r ddioddefwraig yn eu dilyn; o'r ymgynghoriad cychwynnol â meddyg i'r archwiliad a'r broses o gasglu tystiolaeth a chynghori'r fenyw. Aeth Ei Huchelder Brenhinol wedyn i orsaf gyfagos Heddlu Kilburn i fynd o gwmpas swyddfeydd ac ystafelloedd cyfweld un o'r 19 o unedau "Sapphire" sydd yn Llundain. Cyflwynodd Scotland Yard yr unedau hyn yn 2009 ar ôl diwygio'r ffordd y mae'n ymateb i achosion o drais a throseddau rhywiol difrifol eraill. Fel rhan o'r diwygiadau, daeth pob un o unedau troseddau rhyw bwrdeistref Llundain dan reolaeth un uned reoli ganolog. Yn yr orsaf, cafodd y Dduges gyfle i gwrdd â'r swyddogion a'r staff arbenigol sy'n delio ag achosion o drais a chlywodd am yr heriau arbennig sy'n codi wrth ddelio ag ymosodiadau rhywiol.

Ar ôl clywed yn ystod ei hymweliad â Croydon fod cynlluniau ar y gweill i agor mwy o ganolfannau argyfwng trais yn Llundain, gwahoddodd y Dduges Boris Johnson, Maer Llundain, i Clarence House ym mis Mawrth 2010 i glywed mwy am y cynlluniau. Cawsant gyfle i drafod yr help sydd ar gael i bobl sy'n dioddef ymosodiadau rhywiol ac am y cynlluniau i ymestyn y cyfleusterau sydd ar gael i fenywod ar draws y brifddinas.

CEFNOGI'R FRENHINES

Mae Tywysog Cymru a Duges Cernyw'n cefnogi Ei Mawrhydi'r Frenhines yn ei rôl fel canolbwynt balchder, undod a theyrngarwch y genedl, gan ddod â phobl o bob rhan o gymdeithas at ei gilydd, a chynrychioli sefydlogrwydd a dilyniant, tynnu sylw at gyflawni, a phwysleisio pwysigrwydd gwasanaeth a'r sector gwirfoddol drwy annog a gosod esiampl.

CHWITH
Tywysog Cymru a Duges Cernyw'n codi llaw ar y dorf yn ystod eu hymweliad â Chanada ym mis Tachwedd 2009.

Y DEYRNAS UNEDIG A THRAMOR

Yn ystod y flwyddyn, cyflawnodd Tywysog Cymru a Duges Cernyw amryw o wahanol ymrwymiadau ac aethant ar ymweliadau gartref a thramor fel ei gilydd. Roedd y rhain yn amrywio o achlysuron seremoniol a chefnogi a chynrychioli'r Lluoedd Arfog, i ymgymryd â theithiau tramor swyddogol er mwyn hybu buddiannau Prydain mewn gwledydd tramor.

Y Deyrnas Unedig

Mae Eu Huchelderau Brenhinol yn teithio'n rheolaidd bob blwyddyn i ymrwymiadau ar hyd a lled y Deyrnas Unedig.

Rhan bwysig o rôl y Teulu Brenhinol yw cefnogi a chydymdeimlo ar adegau pan mae'r wlad neu'r gwahanol ardaloedd yn wynebu sialensiau mawr. Yn ystod y blynyddoedd diweddar, aeth y Tywysog i sawl ardal yn Lloegr a'r Alban y mae llifogydd difrifol wedi effeithio arnyn nhw.

Yr ardal a ddioddefodd fwyaf yn ystod 2009 oedd gogledd-orllewin Cumbria, ac aeth y Tywysog ar ddau ymweliad â'r ardal yn ystod y flwyddyn gyda'r ymweliad cyntaf ym mis Tachwedd 2009 pan gafodd gyfle i gwrdd â phobl a ddioddefodd yn y llifogydd a'r rheini a oedd yn gweithio ar ran y gwasanaethau brys. Roedd yr ail ymweliad ym mis Mawrth 2010 i weld sut oedd y gwaith ailadeiladu mewn mannau fel Ambleside a Cockermouth yn dod yn ei flaen. Ar y ddau achlysur, aeth Ei Uchelder Brenhinol â phrif arweinwyr busnesau gydag ef i'w hannog i helpu gyda'r gwaith ailadeiladu.

Mae Eu Huchelderau Brenhinol yn mynd yn rheolaidd i'r gwahanol ddinasoedd a'r rhanbarthau ar hyd a lled y wlad am "ddiwrnodau i ffwrdd" ar ffurf dewis helaeth o ymrwymiadau ac ymweliadau. Yn Lloegr y llynedd, roedd diwrnodau i ffwrdd ym Manceinion, Ynys Wyth, Dyfnaint, Stoke-on-Trent, Cernyw a de-ddwyrain Llundain, yn ogystal â channoedd o ymrwymiadau cyhoeddus unigol ar hyd a lled y wlad.

Er mwyn cydnabod ei berthynas arbennig â Chymru, mae'r Tywysog yn mynd yn rheolaidd i'r Dywysogaeth, ac yn treulio wythnos gyfan yno bob haf. Yn ystod Wythnos 2009 yng Nghymru, a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar y canolbarth, aeth Eu Huchelderau Brenhinol i ymweld ag ysgolion, ysbytai a chymunedau yn Aberhonddu, Llanymddyfri, Treorci a Thon-du. Mae'r Tywysog a'r Dduges yn aros yn eu cartref yn Llwynywermod yn Sir Gaerfyrddin yn ystod yr Wythnos yng Nghymru, ac yno eleni fe arweiniodd y ddau dderbyniad i'w cymdogion a rhai o drigolion Myddfai a Llanymddyfri.

Aeth y Tywysog i Orllewin Cymru ym mis Hydref 2009 i gyflawni diwrnod o ymrwymiadau yn Nyfed. Yn ystod ei ymweliad, agorodd Ei Uchelder Brenhinol Orsaf yr Heddlu yn Llanymddyfri, aeth i weld cartrefi gwyliau Ymddiriedolaeth Genedlaethol Tafarn Cwmdu y mae cymuned Cwmdu'n eu rhedeg, ac aeth o gwmpas project Tref Drawsnewid Llandeilo.

Ar ôl prynu Llwynywermod yn 2008, mae Ei Uchelder Brenhinol wedi cadarnhau ei bresenoldeb yng Nghymru trwy agor swyddfa barhaol yng Nghaerdydd lle mae Manon Williams, ei Ysgrifennydd Preifat dros Gymru, yn gweithio dau ddiwrnod yr wythnos yn hwyluso mentrau a diddordebau Eu Huchelderau Brenhinol yn y wlad.

Mae'r Tywysog a'r Dduges ill dau'n hoff iawn o'r Alban ac maen nhw'n treulio llawer o amser yno bob blwyddyn pan fyddan nhw'n cyflawni ymrwymiadau cyhoeddus ar hyd a lled y wlad ac yn cynnal cyfarfodydd a gweithio yn eu cartref yn Birkhall yn Sir Aberdeen.

UWCHBEN
Tywysog Cymru a Duges Cernyw'n cwrdd â staff Llu'r Cadetiaid Cyfunol (CCF) yn ystod ymweliad ag Ysgol Gyfun Treorci ym mis Mehefin 2009.

Mae Eu Huchelderau Brenhinol yn cyflawni wythnos o ymrwymiadau yn yr Alban bob haf, ac ym mis Mehefin 2009 roedd y digwyddiadau'n cael eu cynnal o Gaeredin i Glasgow ac ymlaen i Inverness ac Ynysoedd Erch. Yno, aethant i ymweld â Sefydliad Brenhinol Cenedlaethol y Badau Achub (RNLI) yn Stromness ac i wrando ar rai o blant Kirkwall yn perfformio darnau traddodiadol ar acordiynau a ffidlau.

Ym mis Gorffennaf 2009, yn rhinwedd ei waith fel Noddwr y mudiad "*The Gathering 2009*", agorodd Ei Uchelder Brenhinol y digwyddiad rhyngwladol mwyaf yn y byd ar gyfer claniau ym Mharc Holyrood yng Nghaeredin. Yng nghwmni'r Dduges, disgrifiodd y Tywysog y digwyddiad anferth yn yr awyr agored sy'n cynnwys eitemau cerdd, barddoniaeth a chwaraeon fel "cyfarfod cyffrous o hanes yr Alban a'i threftadaeth fywiog."

Achlysur mwy difrifol oedd y gwasanaeth yr aeth y Tywysog a'r Dduges iddo yn Aberdeen ym mis Ebrill 2009 i goffáu'r 16 o ddynion a gollodd eu bywydau pan gwympodd hofrennydd o'r awyr i Fôr y Gogledd ar ei ffordd yn ôl o Iwyfan olew.

Tramor

Bob blwyddyn, mae dyletswyddau Eu Huchelderau Brenhinol yn mynd â nhw dramor, ac yn ystod 2009-10 cyflawnodd y ddau amrywiaeth helaethach na'r arfer o ymweliadau swyddogol mewn ymateb i gais gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad i hybu buddiannau Prydain mewn gwledydd tramor.

Ym mis Ebrill 2009, aeth Tywysog Cymru a Duges Cernyw hefyd i'r Eidal, y Fatican a'r Almaen. Yn yr Eidal, teithiodd Eu Huchelderau Brenhinol i Fenis i dynnu sylw at agweddau ar adfywio ac i Rufain lle y traddododd y Tywysog araith am yr amgylchedd i Siambr y Dirprwyon. Yn ystod eu cyfnod ym mhrifddinas yr Eidal, aeth Eu Huchelderau Brenhinol i'r Babaeth i gwrdd â Phab Benedict XVI a'i Ysgrifennydd Gwladol i drafod nifer o bethau fel y newid yn yr hinsawdd a'r broses o annog pobl o wahanol ffydd i ddeall ei gilydd. Roedd pwyslais yr ymweliad â'r Almaen ar y themâu: cynaliadwyedd ar hyd a lled y byd, cynhwysiant cymdeithasol a'r bartneriaeth hir ei hoes rhwng Lloegr a'r Almaen.

Ym mis Tachwedd 2009, aeth y Tywysog a'r Dduges i Ganada ar eu hymweliad cyntaf gyda'i gilydd â'r wlad. Ar daith lawn iawn, teithiodd y ddau i 12 o ddinasoedd mewn 11 diwrnod, gan dreulio nosweithiau yn St John's ar arfordir Môr yr Atlantig, Toronto, Montreal, a Victoria a Vancouver ym mhen mwyaf gorllewinol y wlad.

Ym mis Mawrth 2010 teithiodd y ddau o gwmpas tair o wledydd canolbarth Ewrop. Cyfle oedd y daith hon i'w Huchelderau Brenhinol danlinellu perthynas gadarn y Deyrnas Unedig â Gwlad Pwyl, Hwngari a'r Weriniaeth Tsiec. Yn y gwledydd hyn, a oedd ychydig dros ugain mlynedd ynghynt yn perthyn i'r Bloc Sofietaidd dan drefn gomiwnyddol, cawsant gyfle hefyd i gymryd rhan mewn digwyddiadau'n dathlu'r ffaith fod y tair gwlad wedi trawsnewid eu hunain yn ddemocratiaethau llwyddiannus.

Yn ystod y flwyddyn, aeth Ei Uchelder Brenhinol ar ei ben ei hun i Ddenmarc ym mis Rhagfyr 2009 i fod yn brif siaradwr yng Nghynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd, ac i Affganistan ym mis Mawrth 2010 i ddiolch i Luoedd Arfog Prydain sy'n gwasanaethu yno. Yn ystod yr un mis aeth hefyd i Qatar a Saudi Arabia i gynnal cyfarfodydd gyda'r teuluoedd Brenhinol sy'n llywodraethu'r ddwy wlad.

Mae rhan o waith Tywysog Cymru'n golygu hybu cysylltiadau tramor y wlad, ac mae'r gwaith hwnnw'n cynnwys cynnal cyfarfodydd yn Llundain gyda Phenaethiaid Gwladwriaethau a Llywodraethau sy'n ymweld â'r wlad, i drafod materion sydd o bwys i bawb. Ymhlith arweinwyr eraill, cafodd Ei Uchelder Brenhinol gyfle yn ystod y flwyddyn i gwrdd â Hu Jintao, Arlywydd Tsieina; Nouri Al Maliki, Prif Weinidog Irac; Jacob Zuma, Arlywydd De Affrica a Mahmoud Abbas, Arlywydd Palesteina. Arweiniodd y Tywysog dderbyniad hefyd ym Mhalas St James's ym mis Ionawr 2010 i bobl a oedd wedi dod i'r gynhadledd ryngwladol i drafod dyfodol Affganistan.

UWCHBEN
Duges Cernyw'n ymweld â Chastell Dundurn yn Hamilton, ger Toronto yng Nghanada ym mis Tachwedd 2009.

Tywysog Cymru a Duges Cernyw gyda Phab Benedict XVI yn llyfrgell y Fatican ym mis Ebrill 2009.

Y GWASANAETHAU ARFOG

Mae perthynas Tywysog Cymru â'r Gwasanaethau Arfog wedi'i seilio ar bedair thema: tynnu sylw at ddewrder, ymrwymiad ac aberth milwyr a chyn-filwyr; cydnabod eu proffesiynoldeb a safon eu hyfforddiant; hybu rôl y Lluoedd ym mywyd y genedl trwy fynd ar ymweliadau gweithredol a chyflawni dyletswyddau seremoniol; a chynnal teuluoedd y rheini sy'n gwasanaethu mewn ymgyrchoedd.

PENODIADAU MILWROL TYWYSOG CYMRU
Mae Tywysog Cymru ar hyn o bryd yn dal penodiadau fel Llyngesydd yn y Llynges Frenhinol, Cadfridog yn y Fyddin a Phrif Farsial Awyr yn yr Awyrlu Brenhinol, ac mae ganddo berthynas arbennig â:

Gwarchodlu Marchfilwyr y Frenhines
Gwarchodlu'r Marchfilwyr Brenhinol
Y Gwarchodlu Cymreig
Y Gwarchodlu Du, 3ydd Bataliwn
Catrawd Frenhinol yr Alban
Catrawd y Mersiaid
Catrawd y Parasiwtwyr
Reifflau Brenhinol y Gyrcas
Corfflu Awyr y Fyddin
Iwmyn y Frenhines Ei Hun
51fed yr Ucheldiroedd, 7fed Bataliwn
Catrawd Frenhinol yr Alban

Mae'r Tywysog hefyd yn Gomodor Awyr Anrhydeddus yr Awyrlu Brenhinol yn y Fali, ac yn Brif Gomodor FAA (cangen gweithredu awyrennau) Rheolaeth y Llynges Frenhinol, Plymouth. Mae ganddo berthynas arbennig fel Prif Gyrnol hefyd â 10 o unedau'r Gymanwlad: Awyrlu Wrth Gefn Canada, Marchfilwyr yr Arglwydd Strathcona (y Canadiaid Brenhinol), Corfflu Arfog Brenhinol Awstralia, Awyrlu Brenhinol Seland Newydd (Comodor Awyr), Catrawd Frenhinol Canada, Reifflau Brenhinol Winnipeg, Catrawd Frenhinol Ynysoedd y Môr Tawel, Marchfilwyr Brenhinol Canada, Gwarchodlu Du Canada, a Chatrawd Albanaidd Toronto.

CYSYLLTIADAU MILWROL
DUGES CERNYW
Mae Duges Cernyw'n Gyrnol Brenhinol 4ydd Bataliwn Y Reifflau, yn Noddwr HMS Astute, yn Brif Gomodor Gwasanaethau Meddygol y Llynges Frenhinol a Gwasanaethau Caplaniaeth y Llynges Frenhinol, ac yn Gomodor Awyr Anrhydeddus Brenhinol yr Awyrlu Brenhinol, Halton a'r Awyrlu Brenhinol, Leeming.

Mae gwraig a meibion y Tywysog yn rhannu'r un teyrngarwch ag ef i'r Gwasanaethau Arfog. Duges Cernyw yw Cyrnol Brenhinol 4ydd Bataliwn Y Reifflau, Prif Gomodor Gwasanaethau Meddygol y Llynges Frenhinol a Gwasanaethau Caplaniaeth y Llynges Frenhinol, Noddwr HMS Astute a Chomodor Awyr Anrhydeddus Brenhinol yr Awyrlu Brenhinol yn Leeming ac yn Halton. Mae Tywysog William a Thywysog Harry ill dau'n gwasanaethu fel swyddogion milwrol ac yn cael eu hyfforddi ar hyn o bryd i fod yn beilotiaid hofrenyddion.

Bu Eu Huchelderau Brenhinol yn brysurach nag erioed o'r blaen yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cefnogi'r dynion a'r merched sy'n gwasanaethu a'u teuluoedd, yn cyflawni 77 o ymrwymiadau naill ai gyda'i gilydd neu ar wahân, yn cynnwys saith achlysur cyflwyno medalau ymgyrchoedd i gatrodau fel Bataliwn 1af y Gwarchodlu Cymreig ac 2il Fataliwn Catrawd y Mersiaid, tri o sgwadronau'r Llynges Frenhinol, criwiau hofrenyddion a staff cymorth.

Un o'r uchafbwyntiau oedd ymweliad y Tywysog ag Affganistan ym mis Mawrth 2010. Cafodd gyfle yno i weld milwyr yn rhoi ar waith yr hyfforddiant a welodd yn ystod llawer o ymweliadau'n gwylio milwyr yn ymarfer yn y Deyrnas Unedig. Mis yn unig ynghynt, cafodd Ei Uchelder Brenhinol gyfle i wylio 2,000 o filwyr yn cymryd rhan mewn ymarferion ar Wastadedd Salisbury yn Wiltshire ac i ymweld â chanolfan weithredol (*Forward Operating Base* neu FOB), sef gwersyll sydd wedi'i chreu i efelychu'r amodau yn Affganistan, pan gafodd gyfle i gwrdd â rhai o filwyr a swyddogion Catrawd y Mersiaid.

Rôl FOB yw amddiffyn a chynnig cefnogaeth i'r grwpiau sy'n brwydro ar y tir ac yn ystod ei ymweliad aeth Ei Uchelder Brenhinol i mewn i *sangar*, sef safle gwylio arfog sydd â'r nod o amddiffyn yr orsaf. Chwe wythnos wedi hynny aeth i ymweld â'r Gwarchodlu Albanaidd yn amddiffyn sangar yng nghanolfan patrolio Pimon yn Nad e-Ali yn nhalaith Helmand.

Yn ystod ei ymweliad â Gwastadedd Salisbury, cafodd Ei Uchelder Brenhinol gyfle i gwrdd â'r Siarsiant Andy Hawkins ar ôl ei gwrdd am y tro cyntaf yn 2000 pan oedd y Siarsiant yn gwella o'r anafiadau a gafodd wrth wasanaethu yng Nghyprus. Ar y pryd, roedd y Tywysog wedi anfon potelaid o whisgi ato i'w helpu i wella. "Roedd e'n fy nghofio ac fe soniais i am y whisgi," dywedodd Siarsiant Hawkins. "Roeddwn i'n falch o'i weld e. Mae'n braf gwybod ein bod ni'n mynd i Affganistan a bod y Tywysog a'r genedl yno i'n cefnogi ni."

Yn hwyrach yn yr un mis, gwyliodd y Tywysog 200 o filwyr Bataliwn 1af Reifflau Brenhinol y Gyrcas yn hyfforddi ar Wastadedd Salisbury cyn iddyn nhw fynd i wasanaethu yn Affganistan. Cafodd y Tywysog, Prif Gyrnol y gatrawd honno, gyfle yn ystod yr ymweliad hwnnw i gwrdd â nifer o filwyr a oedd wedi gwasanaethu ochr yn ochr â'i fab yn ystod y cyfnod y bu Tywysog Harry'n gwasanaethu yn Affganistan yn gynnar yn 2008.

Bob blwyddyn, mae Tywysog Cymru, ei wraig a'i feibion yn manteisio ar gyfleoedd i ddangos eu cefnogaeth i'r milwyr sydd wedi cael eu clwyfo mewn brwydrau, ac yn ystod 2009-10 aeth y pedwar i gwrdd â dynion a merched a glwyfwyd wrth wasanaethu ac sydd bellach yn gwella mewn ysbytai milwrol yn y Deyrnas Unedig. Ym mis Hydref 2009, aeth y Dduges i'r Ganolfan Adsefydlu a Meddygaeth Amddiffyn yn Headley Court yn Surrey, lle y cafodd gyfle i weld milwyr ag anafiadau'n ymarfer yn yr adran ffisiotherapi ar wahanol offer sy'n eu helpu i wella. Un o'r rhain oedd peiriant gwrth-ddisgyrchiant newydd sydd fel arfer yn cael ei ddefnyddio yr athletwyr gorau.

Aeth y Tywysog ar ddau ymweliad yn ystod y flwyddyn â'r Ganolfan Frenhinol Meddygaeth Amddiffyn (RCDM) yn Ysbyty Selly Oak yn Birmingham. Roedd yr ymweliad cyntaf ym mis Mehefin 2009 a'r ail ym mis Rhagfyr pan dreuliodd gyfnod yn sgwrsio'n breifat â 30 o gleifion sy'n cael gofal ar ward trawma ac uned gofal critigol. Dywedodd Brigadydd Chris Parker, Penswyddog RCDM, fod yr ymweliad yn golygu llawer iawn i'r milwyr a'u teuluoedd: "Mae diddordeb mawr gan y Tywysog yn y milwyr eu hunain, ac yn staff yr ysbyty a'r staff milwrol sy'n gweithio gyda nhw." Aeth Tywysog William a Thywysog Harry hefyd i Selly Oak yn ystod y flwyddyn i gwrdd â chleifion a staff, gydag ymweliad preifat ym mis Medi 2009.

Mae gwasanaethu mewn rhyfeloedd yn gallu rhoi pwysau mawr ar feddyliau a chyrff staff y Lluoedd ac aeth y Tywysog a'r Dduges i amryw o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn i gynorthwyo elusennau sy'n delio â'r rhai y mae eu profiadau mewn rhyfeloedd wedi'u trawmateiddio. Ym mis Mai 2009, ymunodd Eu Huchelderau Brenhinol â chyn-filwyr yn Abaty Westminster i ddathlu 90 mlwyddiant yr elusen *Combat Stress* a gafodd ei chreu ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf i helpu'r milwyr â siel-syfrdan. Ym mis Mawrth 2010, helpodd y Tywysog, sy'n gweithredu fel Noddwr *Combat Stress*, i lansio ymgyrch newydd o'r enw '*The Enemy Within*' ar ran yr elusen. Nod yr ymgyrch yw nid yn unig codi £30 miliwn, ond hefyd addysgu pobl ynglŷn â phroblemau cyn-filwyr sy'n dioddef o anafiadau seicolegol.

Rhan arall o rôl y Teulu Brenhinol yw dangos eu cefnogaeth i'r cyn-filwyr a fu'n gwasanaethu mewn rhyfeloedd cynt, ac ym mis Mehefin 2009 ymunodd y Tywysog â rhai o arweinwyr y byd, yn cynnwys Arlywydd Barack Obama ac Arlywydd Nicolas Sarkozy mewn digwyddiadau yn Normandi, Ffrainc, i ddathlu 65 mlwyddiant D-Day. Ymhlith y digwyddiadau oedd gwasanaeth coffa yn Eglwys Gadeiriol Bayeux, gyda seremoni'n ei ddilyn ym Mynwent Beddau Rhyfel y Gymanwlad gerllaw a derbyniad yn un o westai'r dref i gyn-filwyr, staff y Lleng Brydeinig Frenhinol a chefnogwyr.

Mae'r lluoedd yn gwneud llawer i gynorthwyo gwaith y dynion a'r merched sy'n gwasanaethu, ac ym mis Chwefror 2010 aeth Duges Cernyw i wersyll Bulford yn Wiltshire, pencadlys 4ydd Bataliwn Y Reifflau. Yn ystod ei chyfnod yno, aeth Ei Huchelder Brenhinol, Cyrnol Brenhinol y gatrawd, i'r ysgol leol i gwrdd â phlant y milwyr sy'n gwasanaethu yn Affganistan. Yn ôl Susan Raeburn, pennaeth yr ysgol, roedd ymweliad y Dduges yn hwb go iawn i ysbryd ei disgyblion: "Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig iawn iddyn nhw weld bod rhywun mor bwysig â'l Huchelder Brenhinol yn deall yr hyn mae'r teuluoedd yn mynd drwyddo. Mae teimladau'r Dduges yn gadarn gyda'r plant."

UWCHBEN
Tywysog Cymru'n teithio mewn cerbyd Springer yn ystod ei ymweliad â Gwastadedd Salisbury, Wiltshire, lle y cafodd gyfle, fel Prif Gyrnol Bataliwn 1af Catrawd y Mersiaid, i gwrdd â rhai o filwyr y bataliwn a milwyr Gwarchodlu'r Marchfilwyr Brenhinol ym mis Chwefror 2010.

Duges Cernyw'n cyflwyno Medalau Ymgyrch Affganistan i rai o aelodau'r Llynges Frenhinol yng nghanolfan y Llynges ar Whale Island yn Portsmouth ym mis Gorffennaf 2009.
Llun gan Chris Jackson/Getty Images

Duges Cernyw'n gwneud siapiau o blastisin gyda'r disgyblion tair oed Jake Barr ac Amanda Phiri o Ysgol Kiwi yn ystod ei hymweliad â gwersyll Bulford yn Wiltshire, lle y cafodd gyfle yn ystod mis Chwefror 2010 i gwrdd â milwyr a theuluoedd 4ydd Bataliwn Y Reifflau.

ENTREPRENEUR ELUSENNOL

Ers dros 30 o flynyddoedd, mae Tywysog Cymru wedi bod yn flaenllaw wrth adnabod angen elusennol a sefydlu a hybu elusennau i ddiwallu'r angen hwnnw. Ers dyddiau cynnar ei ymddiriedolaeth, *The Prince's Trust*, yng nghanol yr 1970au, datblygodd ei ddiddordebau elusennol i'r fath raddau fod ei 20 elusen graidd yn cynrychioli, fel grŵp, y fenter elusennol fwyaf yn y Deyrnas Unedig sy'n cwmpasu amryw o achosion. Gymaint yw mesur eu gwaith fel y bu gofyn yn ystod 2009-10 i'w Uchelder Brenhinol helpu, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i godi £110 miliwn i gynorthwyo gweithgareddau Elusennau'r Tywysog. Mae'r Tywysog hefyd wedi sefydlu chwe menter gymdeithasol y mae eu helw'n mynd at elusennau.

CHWITH
Tywysog Cymru'n annerch cynadleddwyr yn ystod cynhadledd flynyddol Sefydliad y Tywysog er yr Amgylchedd Adeiledig ym Mhalas St James's yn Llundain ym mis Chwefror 2010.

£110 MILIWN AT ELUSENNAU

Fel entrepreneur elusennol, efallai fod Tywysog Cymru'n fwyaf enwog am sefydlu *The Prince's Trust*, elusen sy'n helpu pobl ifanc gythryblus sydd dan anfantais i oresgyn eu rhwystrau ac i lwyddo. Mewn nifer o ffyrdd, mae'r Ymddiriedolaeth, a gafodd ei sefydlu 34 o flynyddoedd yn ôl, yn cynnig patrwm ar gyfer dull gweithredu Ei Uchelder Brenhinol ym maes entrepreneuriaeth elusennol. Ar ôl adnabod angen, mae'n mynd ati i sefydlu elusen i lenwi'r bwlch, cyn mynd ymlaen i oruchwylio'i strategaeth a'i dull rheoli ac i godi arian i ariannu ei gweithgareddau.

Yn 2009-10, helpodd y Tywysog, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i godi ychydig dros £110 miliwn i gynorthwyo gwaith ei 20 elusen graidd. Tra bod pob un o'r elusennau'n endid annibynnol dan ofal Bwrdd o Ymddiriedolwyr ar wahân, maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd hefyd o fewn grŵp Elusennau'r Tywysog dan arweiniad Syr Tom Shebbeare. Maen nhw'n cydweithio'n agos ar faterion fel llywodraethu corfforaethol, codi arian, cynllunio, cyllid, cyfathrebu, adnoddau dynol ac ymchwil er mwyn sianelu eu hegni a bod mor effeithlon a chost effeithiol â phosib.

Syniadau yw enaid unrhyw fudiad llwyddiannus ac mae Tywysog Cymru wedi symbylu llif gyson o gynigion ym maes ymchwil a datblygu dros y blynyddoedd diwethaf, ac wedi sefydlu mentrau a phrojectau newydd. Un o'r projectau newydd a gafodd eu lansio yn ystod 2009-10 oedd "*Start*", menter i helpu pobl o bob rhan o'r Deyrnas Unedig i fyw mewn ffyrdd mwy cynaliadwy. Mae'r project yn cynnig syniadau ynglŷn â defnyddio ynni'n fwy effeithiol, golwg ar ddyfodol a allai fod yn lanach ac yn iachach a ffyrdd i bobl ddechrau arni yn eu bywydau eu hunain. Mae llu o fusnesau blaenllaw'n cynnig cefnogaeth i'r project, ac mae ganddo wefan (www.startuk.org) sy'n llawn o syniadau syml ac ymarferol, bydd yn rhedeg rhaglen o ddigwyddiadau yn ystod hydref 2010 i roi gwybod i bobl am gynaliadwyedd, bydd yn cynnal cynhadledd i archwilio sut y gall cwmnïau wneud mwy i weithredu'n gynaliadwy, a bydd Tywysog Cymru'n mynd ar daith ar hyd a lled y wlad i dynnu sylw at brojectau lleol sydd eisoes wedi rhoi cynaliadwyedd ar waith.

Wrth lansio *Start* ym mis Chwefror 2010, dywedodd y Tywysog ei fod yn benderfynol o roi sylw i ofnau pobl fod byw mewn ffyrdd mwy cynaliadwy'n golygu cymryd camau costus ac anodd. Fel yr esboniodd: "Bydd golwg frysiog ar y rhan fwyaf o wefannau sy'n sôn am y newid yn yr hinsawdd yn dangos eu bod nhw'n llawn o iaith negyddol: 'stopio', 'torri', 'cwtogi', 'peidiwch â ...'. Prin iawn iawn yw'r rhai sy'n sôn am y posibilrwydd o weld dyfodol cynaliadwy sy'n well ac yn cynnig mwy o fanteision – i ni ac i fyd Natur fel ei gilydd – na'r bywydau rydyn ni'n eu byw ar hyn o bryd."

Datblygiad pwysig arall y llynedd oedd agor yn Beijing ym mis Hydref 2009 swyddfa Sefydliad Elusennau'r Tywysog yn Tsieina (*The Prince's Charities Foundation* [*China*]). Bydd y swyddfa'n hwyluso cyfres o gamau cydweithio rhwng Sefydliad Elusennau'r Tywysog, awdurdodau Tsieina a mudiadau elusennol lleol, yn bennaf ym meysydd pensaernïaeth, treftadaeth, iechyd a'r celfyddydau.

UWCHBEN
Tywysog Cymru'n sgwrsio â gwirfoddolwyr ar locomotif y 'Planet' yn ystod ymweliad â'r Amgueddfa Gwyddoniaeth a Diwydiant ym Manceinion i lansio'i broject "Start" ym mis Chwefror 2010.

Toeau yng Ngardd Qian Long, sef testun rhaglen ddogfen mae Sefydliad Elusennau'r Tywysog yn Tsieina wedi bod yn gyd-gynhyrchydd arni. *Cafwyd y llun gan A. Fereday*.

CYFLE A MENTER	YR AMGYLCHEDD ADEILEDIG	BUSNES CYFRIFOL
THE PRINCE'S TRUST THE PRINCE'S SCOTTISH YOUTH BUSINESS TRUST THE PRINCE'S YOUTH BUSINESS INTERNATIONAL PRIME PRIME-CYMRU THE BRITISH ASIAN TRUST	THE PRINCE'S FOUNDATION FOR THE BUILT ENVIRONMENT THE PRINCE'S REGENERATION TRUST TURQUOISE MOUNTAIN THE GREAT STEWARD OF SCOTLAND'S DUMFRIES HOUSE TRUST	BUSINESS IN THE COMMUNITY THE UNIVERSITY OF CAMBRIDGE PROGRAMME FOR SUSTAINABILITY LEADERSHIP SCOTTISH BUSINESS IN THE COMMUNITY IN KIND DIRECT ARTS & BUSINESS
	THE PRINCE'S CHARITIES & THE PRINCE'S CHARITIES FOUNDATION	
ADDYSG	IECHYD	MENTER GYMDEITHASOL
THE PRINCE'S DRAWING SCHOOL THE PRINCE'S SCHOOL OF TRADITIONAL ARTS THE PRINCE'S TEACHING INSTITUTE THE PRINCE'S FOUNDATION FOR CHILDREN & THE ARTS	THE PRINCE'S FOUNDATION FOR INTEGRATED HEALTH (I'W GAU YM MIS GORFFENNAF 2010)	DUCHY ORIGINALS NORTH HIGHLAND INITIATIVE HIGHGROVE ENTERPRISES TURQUOISE MOUNTAIN ARTS TRADITIONAL ARTS LTD THE PRINCE'S CHARITIES EVENTS LTD

Mae manylion am yr 20 elusen, ynghyd â manylion cyswllt i'w cael ar dudalen 56 o'r Adolygiad hwn ac ar www.princescharities.org.

Mae'r gwaith cydweithredol hwn yn cynnwys gwaith Sefydliad y Tywysog er yr Amgylchedd Adeiledig yn adfer rhai o ardaloedd hanesyddol Hutong o amgylch y Ddinas Waharddedig yn Beijing, sefydlu cyfres o weithdai dan arweiniad Ysgol y Tywysog er y Celfyddydau Traddodiadol ac Academi Celfyddydau Tsieina gyda'r nod o rannu gwybodaeth am gynllunio Tsieineaidd traddodiadol, a rhaglen ddogfen ar gyfer y teledu ynglŷn â'r gwaith o adfer rhan o Ardd Qian Long o'r ddeunawfed ganrif yn Ninas Waharddedig Beijing.

Mae Elusennau'r Tywysog yn chwilio'n gyson am ffyrdd o gydweithio'n agosach i fynd i'r afael â gwahanol faterion, ac ym mis Medi 2009 daeth grŵp o'r elusennau at ei gilydd ar gyfer wythnos o seminarau yn Llwynywermod, cartref y Tywysog yng Nghymru. Gyda rhai o'u partneriaid eraill o'r sectorau cyhoeddus a phreifat, daeth yr elusennau at ei gilydd i drafod nifer o wahanol broblemau y gallan nhw fynd i'r afael â nhw gyda'i gilydd. Yn eu plith yr oedd diweithdra ymhlith pobl ifanc, cyfraniad economaidd pobl hŷn, camau gweithredu byd busnes ym maes y newid yn yr hinsawdd, ac adfywio cefn gwlad. Mae cynlluniau eisoes ar waith i gynnal cyfarfod tebyg yn 2010 i ganolbwyntio ar ddefnyddio Project *Start* fel catalydd i ysgogi cymunedau yng Nghymru i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd.

Mae Tywysog Cymru wedi credu ers tro byd y gall busnesau fod yn llwyddiannus ac y gallan nhw, ar yr un pryd, roi sylw i fuddion cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach, ac i roi'r syniad hwn ar waith yn ymarferol fe sefydlodd chwe menter gymdeithasol sy'n rhoi eu helw i elusennau (mae rhestr o'r elusennau uchod). Y fenter fwyaf ac enwocaf yw Duchy Originals, y cwmni sy'n gwerthu bwyd maes ac organig ac sydd hefyd yn rhoi ei elw i elusennau. Ar ôl wynebu amodau masnachu anodd dros y ddwy flynedd ddiwethaf, dechreuodd y busnes ar gyfnod newydd o dwf yn ystod 2009 pan lwyddodd i greu partneriaeth drwyddedu a dosbarthu unigryw gyda grŵp archfarchnadoedd Waitrose. Yn sgil creu'r cytundeb hwn, bydd cynnydd sylweddol yn rhoddion Duchy Originals i elusennau wrth i Waitrose fuddsoddi yn y brand a'i ddatblygu yn y blynyddoedd sydd i ddod.

CYFLE A MENTER

Ers sawl blwyddyn bellach, mae Tywysog Cymru wedi ymdrechu trwy ei elusennau i helpu pobl i wireddu eu talent a'u potensial. Mae'n gwneud hyn trwy gynorthwyo dynion a merched ifanc sydd dan anfantais trwy waith *The Prince's Trust*, neu trwy gynnig cymorth i bobl hŷn trwy ei elusen PRIME (Menter y Tywysog ar gyfer Arloesi Aeddfed - *The Prince's Initiative for Mature Enterprise*), yr unig gorff cenedlaethol sy'n bodoli'n unswydd i helpu pobl dros 50 oed i sefydlu busnesau.

Ymddiriedolaeth y Tywysog (*The Prince's Trust*) yw elusen hynaf ac enwocaf Ei Uchelder Brenhinol. Aeth ati i sefydlu'r mudiad yn 1976 gyda'r tâl diswyddo o £7,400 a gafodd wrth adael y Llynges Frenhinol. Ei nod yw helpu pobl ifanc 14-30 oed i wireddu eu potensial ac i weddnewid eu bywydau trwy gynnig cefnogaeth ymarferol fel hyfforddiant a mentora, yn ogystal â chymorth ariannol i entrepreneuriaid ifanc.

Bob blwyddyn, mae Tywysog Cymru'n mynd i lawer o wahanol ddigwyddiadau, derbyniadau a chyfarfodydd ar ran yr Ymddiriedolaeth. Un o'r rhain yw *Celebrate Success Awards*, sef digwyddiad blynyddol sy'n tynnu sylw at gyflawniadau pobl ifanc sydd wedi gweddnewid eu bywydau gyda help yr elusen. Cafodd y digwyddiad diweddaraf ei gynnal ym mis Mawrth 2010 yn sinema'r Odeon yn Leicester Square, Llundain. Ymhlith y llu o sêr enwog a ddaeth i'r digwyddiad oedd Syr Michael Caine, Gemma Arterton (seren ddiweddaraf ffilmiau Bond), a'r comedïwr Michael McIntyre.

Ymhlith enillwyr y dyfarniadau oedd Karen McLaughlin, 26 oed, sydd wedi bod yn gaeth i gyffuriau. Safodd y gynulleidfa o 1,500 o bobl ar eu traed i gymeradwyo Karen pan ddaeth i'r brig fel cyflawnydd ifanc y flwyddyn. Aeth bywyd Karen o ddrwg i waeth pan ddechreuodd gymryd cyffuriau'n 11 oed, gan ddechrau gyda chanabis, a symud i amffetaminau a heroin yn y pen draw. Ar ôl gwneud cwrs datblygu 12 wythnos o hyd gyda'r Ymddiriedolaeth, llwyddodd Karen i ailgydio yn ei bywyd a'i weddnewid ac, erbyn hyn, mae hi wedi ysgrifennu papur i Gyngor Sir Sunderland ynglŷn â chamddefnyddio sylweddau ac mae hi'n gweithredu fel Cennad Ifanc ar ran Ymddiriedolaeth y Tywysog.

Derbyniodd Karen, sy'n gobeithio mynd yn fentor i bobl sy'n camddefnyddio sylweddau, ei dyfarniad gan Syr Michael Caine. Dywedodd yr actor profiadol ar ôl y seremoni: "Mae profiadau Karen wedi fy synnu ac wedi bod yn agoriad llygad. Mae ei bywyd wedi bod yn anodd, ond mae hi nid yn unig wedi goresgyn ei phroblemau ei hun – mae hi hefyd yn mynd ati i helpu pobl ifanc eraill i osgoi ffawd debyg."

Un arall o'r enillwyr oedd Mark Livsey, 30 oed, a sefydlodd ei fusnes ei hun yn dosbarthu parseli er ei fod wedi dioddef o ddystroffi'r cyhyrau ers ei fod yn 18 oed. Roedd yn ofni y byddai ei drafferthion symudedd yn ei rwystro rhag cael gwaith, ac aeth yn isel ei ysbryd ac roedd problemau emosiynol arno. Ond cynorthwyodd Rhaglen Fusnes yr Ymddiriedolaeth Mark i fynd yn hunangyflogedig. Dywedodd Andrew Cole, y cyn-beldroediwr o Loegr, a gyflwynodd Ddyfarniad Menter RBS iddo: "Dylai llwyddiant Mark heddiw fod yn wers i bob un ohonom."

Gydag anogaeth y Tywysog, mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod wrthi er 2007 yn treialu menter arbennig i ennyn diddordeb ac ymrwymiad troseddwyr ifanc cyn iddyn nhw adael y carchar. Mae'r rhaglen yn defnyddio cyn-droseddwyr i fentora troseddwyr ifanc eraill yn ystod y cyfnod o drosglwyddo o garchar yn ôl i fywyd annibynnol. Nod arall y rhaglen yw helpu i chwalu'r stigma sy'n perthyn i rywun sydd wedi troseddu. Ym mis Medi 2009, aeth y Tywysog i Garchar Belmarsh yn Llundain i weld rhai o'r gweithgareddau mae'r carchar yn eu cynnig i hybu'r broses o adsefydlu troseddwyr yn y gymuned. Yno, cafodd Ei Uchelder Brenhinol gyfle i gymryd rhan mewn trafodaeth rhwng aelodau o raglen fentora'r Ymddiriedolaeth.

UWCHBEN
Tywysog Cymru'n sgwrsio â myfyrwyr mewn dosbarth cigyddiaeth sy'n rhan o'u cwrs arlwyo, yn ystod ymweliad ag Ysgol Lletygarwch Coleg Westminster Kingsway yn Llundain ym mis Mawrth 2010.

Tywysog Cymru'n cyflwyno dyfarniad i Karen McLaughlin fel cyflawnydd ifanc y flwyddyn, yn ystod digwyddiad 'Celebrate Success' Ymddiriedolaeth y Tywysog ym mis Mawrth 2010.

Mae Adrian Wheeldon yn un o'r miloedd o bobl ifanc sydd wedi elwa ar gefnogaeth Ymddiriedolaeth y Tywysog i'w helpu i oresgyn ei broblemau. Dyma'r cyfieithiad o'i stori – stori sydd hefyd i'w gweld yn "*Undiscovered*", sef ymgyrch farchnata newydd yr Ymddiriedolaeth:

"Ges i fy magu ar un o stadau'r cyngor yn Bognor Regis. Roedd pawb arall i'w gweld yn gwybod i ble'r oedd eu bywydau'n arwain, ond doeddwn i ddim. Ges i fy rhoi yn 11 oed ac yn ystod gwyliau'r ysgol, mewn cartref i blant. Roedden nhw'n meddwl bod fy rhieni'n anghyfrifol ac roeddwn i'n blentyn anystywallt.

"Roedd pobl oedd yn camddefnyddio alcohol a chyffuriau'n dod i'n tŷ ni o hyd ac o hyd. Fe wnes i ddechrau defnyddio toddyddion ac yfed yno. Wedi hynny, fe ddechreuais i gymryd ecstasi a chocên. Roedd rhaid i fy rhieni symud allan o'r tŷ gan fy mod i'n eu dychryn nhw.

"Aeth pethau o ddrwg i waeth wedyn. Cyn i mi sylweddoli beth oedd yn digwydd, roeddwn i'n chwistrellu heroin. Roeddwn i'n ddigartref. Fues i'n cysgu ar strydoedd Brighton – mewn meysydd parcio, yn nhyllau staerau neu mewn sgwatiau.

"O dipyn i beth, ar ôl 12 gwahanol ymgais i ddadwenwyno mewn pum gwahanol ganolfan driniaeth, fe lwyddais i roi'r gorau i gyffuriau. Tua'r adeg honno, fe soniodd rhywun am Ymddiriedolaeth y Tywysog. Fe wnes i ddechrau credu ynof i fy hun.

"Rhoddodd yr Ymddiriedolaeth grant o £1,000 a benthyciad o £800 i mi, i ddechrau busnes plastro. Mae fy nghwmni – AD Plastering – wedi bod ar waith am dros ddwy flynedd. Ac mae'n bedair blynedd a mwy ers i mi gymryd unrhyw gyffuriau. Rydw i hefyd yn gweithio yn ystod y nosweithiau mewn canolfan adsefydlu i helpu pobl eraill sy'n camddefnyddio cyffuriau.

"Dyw geiriau ddim yn ddigon i ddisgrifio fy siwrne o'r gorffennol drwg i fy mywyd heddiw. Ychydig amser yn ôl, fe ddywedodd fy mam ei bod hi'n falch ohonof. Fe ddechreuais i lefain. Doedd gen i ddim syniad sut oedd atgyweirio'r gorffennol. Ond roedd clywed ei geiriau'n ddigon i wneud i mi deimlo fel y mab roedden nhw'n awyddus i'w gael."

Cafwyd y llun gan George Brooks.

Un o'r agweddau pwysicaf ar waith yr Ymddiriedolaeth yw helpu pobl ifanc i ddysgu crefft, ac ym mis Mawrth 2010 aeth y Tywysog o gwmpas y ceginau yn Ysgol Lletygarwch Coleg Westminster Kingsway yng nghanol Llundain i gwrdd â phobl ifanc sy'n dysgu sgiliau er mwyn dilyn gyrfa yn y diwydiant bwyd. Yn eu plith oedd pobl ifanc ddi-waith yn eu harddegau a oedd wedi cofrestru ar raglen "*Get into Cooking*" yr elusen sy'n helpu pobl ifanc i ddilyn gyrfa yn y diwydiant arlwyo.

Ar y fwydlen yn ystod yr ymweliad oedd mecryll wedi'u dal â gwialen a'u sychu mewn mwg yn yr ysgol, lwyn o gig oen Cymreig, pastai'r bugail gyda chig dafad, a theisen sinsir yn bwdin. Yn ystod ei ymweliad, ymunodd Ei Uchelder Brenhinol â dosbarth o'r myfyrwyr a oedd yn gwisgo ffedogau a hetiau pen-cogyddion i ddysgu'r broses o dorri carcas carw'n ddarnau i'w bwyta.

Mae Ymddiriedolaeth y Tywysog yn un o'r elusennau sy'n rhan o "*Youth United*", sef menter newydd a gafodd ei lansio'r llynedd gan Ei Uchelder Brenhinol gyda'r nod o annog mwy o bobl ifanc i ymuno â grwpiau ar gyfer pobl ifanc fel cymdeithasau'r Cadetiaid a'r Sgowtiaid, ac o annog mwy o oedolion i wirfoddoli i redeg y mudiadau hyn. Un o brif nodau eraill *Youth United* yw annog gwahanol fudiadau ar gyfer pobl ifanc i rannu eu hadnoddau, i gyd-drefnu eu gweithgareddau ac i weithio gyda'i gilydd yn agosach yn gyffredinol. Mae'r heddlu a'r gwasanaethau brys eraill yn cynnig eu cefnogaeth i'r fenter hefyd.

Mae *Youth United* yn gynllun sy'n lledaenu i bob rhan o'r Deyrnas Unedig. Ym mis Mehefin 2009, yn ystod ymweliad i gwrdd â Llu'r Cadetiaid Cyfunol yn Ysgol Gyfun Treorci yn Ne Cymru, cyhoeddodd y Tywysog sefydlu mudiad y "Dreigiau Ifanc".

Ym mis Gorffennaf 2009, aeth y Tywysog i arddwest ym Mhalas Buckingham i gwrdd â rhai o gynrychiolwyr y mudiadau sy'n perthyn i "*You London*". Ac ym mis Chwefror 2010, aeth i ganol dinas Manceinion i lansio cangen gogledd-orllewin Lloegr o *Youth United*.

BUSNES CYFRIFOL

Ers tro byd, bu diddordeb gan Dywysog Cymru mewn materion cymunedol a bu ganddo gysylltiadau agos ag arweinwyr byd busnes. Ar sail hynny, mae Tywysog Cymru mewn safle da i ddefnyddio'i ddylanwad i helpu i ddatblygu mentrau ym maes cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol ledled y Deyrnas Unedig a thramor. Ei gred yw bod y gallu gan y sector preifat i wneud gwahaniaeth sylweddol i lawer o'r sefyllfaoedd a'r problemau mae cymunedau a'r wlad gyfan yn eu hwynebu.

Nid oes dwywaith mai o'r holl broblemau hynny, y newid yn yr hinsawdd yw'r bwysicaf. Mae Ei Uchelder Brenhinol yn parhau i ddefnyddio'i gysylltiadau cadarn â byd busnes i annog corfforaethau i fynd ati i ddiogelu'r amgylchedd.

Ym mis Mai 2000, aeth y Tywysog i'r drydedd uwchgynhadledd Gŵyl Fai ar y newid yn yr hinsawdd i gael ei chynnal ar gyfer arweinwyr byd busnes. Nid dim ond am un diwrnod y flwyddyn y mae'r fenter Gŵyl Fai'n bodoli. Yr elusen BITC (*Business in the Community*) sy'n ei rhedeg, ac erbyn hyn mae rhwydwaith o dros 2,300 o gwmnïau Prydain yn perthyn iddi, sy'n amrywio o gwmnïau mawr rhyngwladol i fusnesau bach yn nwylo un teulu. Cyfle yw'r rhwydwaith i fusnesau rannu'r arferion gorau ac i'r naill ddysgu o'r llall sut mae chwarae rôl ystyrlon yn y gwaith o gwtogi ar allyriadau'r Deyrnas Unedig o garbon.

Un o'r mentrau â'r oes hiraf y mae'r Tywysog wedi'i sefydlu ym maes cynaliadwyedd ym myd busnes yw'r Rhaglen Busnes a'r Amgylchedd (*Business & the Environment Programme* neu BEP). Rhaglen Prifysgol Caergrawnt ar gyfer Arweinyddiaeth mewn Cynaliadwyedd (*University of Cambridge Programme for Sustainability Leadership* neu CPSL) sy'n rhedeg y rhaglen, a'i Uchelder Brenhinol yw ei Noddwr. Mae BEP yn cael ei chydnabod ar hyd a lled y byd oherwydd ei seminarau arweinyddiaeth sy'n rhedeg bob blwyddyn mewn chwe lleoliad ledled y byd ac sy'n denu prif arweinwyr byd busnes sy'n awyddus i ddeall y peryglon a'r cyfleoedd strategol sy'n codi yn sgil y sialensau cymdeithasol ac amgylcheddol mae cymdeithas yn eu hwynebu.

Mae CPSL hefyd yn rhedeg nifer o fentrau eraill ar ran Ei Uchelder Brenhinol, yn cynnwys Grŵp Arweinwyr Corfforaethol y Tywysog ar y Newid yn yr Hinsawdd (*The Prince's Corporate Leaders Group on Climate Change* neu CLGCC), a thri phroject arall yn yr un sector: menter "P8" sy'n annog y sector pensiynau i gydweithio i fynd i'r afael â heriau'r newid yn yr hinsawdd; *ClimateWise*, menter debyg sy'n canolbwyntio ar y sector yswiriant; a Chynghrair y Sector Cyfreithiol (*Legal Sector Alliance* neu LSA) sy'n cynnwys 18 o brif gwmnïau cyfreithiol y wlad, Sefydliad y Cyfreithiau Amgylcheddol a Chymdeithas y Cyfreithwyr.

Ym mis Mehefin 2009, daeth aelodau CLGCC at ei gilydd yn Llundain i gynnal cynhadledd "Copenhagen and Beyond" pan ddiolchodd Ei Uchelder Brenhinol i uwch arweinwyr busnesau am gefnogi Hysbysiad Copenhagen (*Copenhagen Communiqué*) – datganiad ar y cyd gan gymuned byd busnes rhyngwladol a gafodd ei anfon at yr arweinwyr a oedd yng Nghopenhagen ym mis Rhagfyr ar gyfer Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd.

Aeth menter P8 o nerth i nerth y llynedd, gyda nifer yr aelodau'n cynyddu i'r fath raddau fel eu bod nhw bellach fel uned yn rheoli dros $3 triliwn o gyfalaf buddsoddi ar hyd a lled y byd. Mae'r project yn ceisio annog cronfeydd pensiynau i ddefnyddio'u grym fel buddsoddwyr o bwys, yn ogystal â'u safle unigryw yn y sector cyhoeddus, i lywio polisïau rhyngwladol a'r farchnad i wynebu'r heriau a'r peryglon y mae'r newid yn yr hinsawdd yn eu codi.

UWCHBEN
Tywysog Cymru'n cwrdd â disgyblion yn Ysgol Iau Surrey Square yn Llundain ym mis Ionawr 2010 i nodi 25 mlwyddiant ei gyfnod fel llywydd Busnes yn y Gymuned (BITC).

Mae'r Tywysog wedi bod yn pryderu ers tro byd y byddwn ni'n dal i niweidio'r blaned a gorddefnyddio'r cyfalaf naturiol sy'n ein cynnal ni i gyd ac y mae pob un ohonom yn dibynnu arno, oni bai fod systemau ymarferol a chadarn yn cael eu datblygu i alluogi ffactorau ehangach a hirdymor gael sylw mwy effeithiol yn y gwaith o gyfrifyddu a gwneud penderfyniadau. Ers i Broject Cyfrifyddu er Cynaliadwyedd (A4S) gael ei lansio yn 2004, mae'r project wedi bod yn gweithio gydag arweinwyr busnesau, llywodraethau a'r byd academaidd i wneud i gynaliadwyedd ddod yn rhan annatod o waith mudiadau o ddydd i ddydd.

Ym mis Rhagfyr 2009, cyhoeddodd y Tywysog y penderfyniad i sefydlu pwyllgor adrodd integredig rhyngwladol (*International Integrated Reporting Committee* neu IIRC), yn ystod cyfarfod blynyddol ei fforwm A4S. Bydd yr IIRC yn dod â chwmnïau, buddsoddwyr a chyrff sy'n gosod safonau at ei gilydd i gyflwyno un model newydd ac integredig ar gyfer adroddiadau. Bydd hwn yn fodel sy'n gofalu bod adroddiadau ariannol yn cyfleu i ba raddau mae'r corff dan sylw'n dibynnu ar adnoddau naturiol y blaned, ac ar bobl a chymunedau i oroesi ac i ffynnu.

Sylfaen gwaith y pwyllgor yw'r canllawiau ymarferol a ddatblygodd A4S yn ystod 2009 i helpu mudiadau i fynd ati mewn ffordd gysylltiedig neu integredig i greu adroddiadau. Mae mwy a mwy o fudiadau'n mabwysiadu'r dull hwn o weithredu, yn cynnwys Llywodraeth y Deyrnas Unedig a busnesau amlwg fel Aviva, BT, EDF Energy, Hammerson, HSBC a Northern Foods. Mae cyfrif cynaliadwyedd yr Aelwyd, sy'n rhoi'r egwyddorion cysylltiedig hyn ar waith, i'w weld ar dudalennau 50 i 53.

Cymaint oedd llwyddiant A4S y llynedd fel bod 19 o gyrff cyfrifyddu o bob rhan o'r byd wedi cydnabod y rôl hanfodol mae'n rhaid i gyfrifyddu er cynaliadwyedd ei chwarae yn y dasg o roi i'r unigolion sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau, y wybodaeth sy'n angenrheidiol iddyn nhw addysgu cyfrifyddion y dyfodol i roi cynaliadwyedd wrth wraidd eu proffesiwn drwyddo draw.

$3 triliwn

MAE AELODAU O FENTER P8 BELLACH YN RHEOLI DROS $3 TRILIWN O GYFALAF BUDDSODDI AR HYD A LLED Y BYD

25 mlynedd

YN 2010 BYDD BITC YN NODI 25 MLWYDDIANT CYFNOD EI UCHELDER BRENHINOL FEL EI LYWYDD

Yn ystod 2009, datblygodd P8 raglen ranbarthol a oedd ar y dechrau'n canolbwyntio ar Asia, ac mae'n dal i weithio'n agos gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Banc Datblygu Asia a Banc y Byd. Y nod yw datblygu cronfeydd seilwaith i helpu gwledydd i gyflawni eu cynlluniau datblygu isel eu carbon.

Mae Tywysog Cymru wedi bod yn flaenllaw yn y gwaith o annog busnesau i fod yn gyfrifol yn gymdeithasol gyhyd ag unrhyw un arall ym mywyd cyhoeddus Prydain, ac yn ystod 2010 bydd BITC yn nodi 25 mlwyddiant cyfnod Ei Uchelder Brenhinol fel ei lywydd. Am lawer o'r blynyddoedd hynny, aeth ati'n bersonol i arwain dynion busnes blaenllaw ar ymweliadau "*Seeing is Believing*" â'r rhannau o'r Deyrnas Unedig lle mae amddifadedd cymdeithasol ar ei waethaf i ddangos iddyn nhw'r problemau y gallan nhw helpu i'w datrys. Er enghraifft, ym mis Ionawr 2010 aeth â llond bws o arweinwyr busnesau i Ysgol Iau Surrey Square yn ne Llundain i glywed drostyn nhw eu hunain sut yr oedd cwmnïau lleol yn helpu i wneud gwir wahaniaeth yn y gymuned.

Clywodd swyddogion gweithredol cwmnïau fel y cwmni coffi anferth Starbucks a'r cwmni cyflenwi ynni EDF sut mae dewis helaeth o fusnesau lleol a chenedlaethol, yn cynnwys y cyfrifyddion Pricewaterhouse Coopers, yn helpu'r ysgol a gafodd ei dyfarnu'n ddiweddar gan aseswyr fel ysgol "Eithriadol". Ar ôl yr ymweliad â'r ysgol, cynhaliwyd sesiwn waith ym Mhalas St James's ar gyfer prif weithredwyr a arweiniodd ymweliadau "*Seeing is Believing*" blaenorol er mwyn iddyn nhw gael cyfle i ddweud wrth Ei Uchelder Brenhinol am y ffordd y mae eu gwaith yn effeithio ar rai o broblemau cymdeithasol mwyaf dwys y Deyrnas Unedig.

YR AMGYLCHEDD ADEILEDIG

Mae Tywysog Cymru'n credu bod yr amgylchedd adeiledig yn dylanwadu'n fawr ar ansawdd bywydau pobl, a bod modd gwneud llawer mwy i greu cartrefi, swyddfeydd ac adeiladau cyhoeddus sy'n creu synnwyr o gymuned a balchder, ac sydd hefyd yn meithrin lles y rhai sy'n byw yno trwy leddfu problemau cymdeithasol a chyfrannu at hybu cynaliadwyedd cadarnach.

Sefydliad y Tywysog er yr Amgylchedd Adeiledig (*The Prince's Foundation for the Built Environment* neu PFBE) sydd yn bennaf gyfrifol am roi'r syniadau hyn ar waith. Elusen addysgol yw hon a gafodd ei sefydlu gan Ei Uchelder Brenhinol yn 1998 er mwyn adeiladu ar waith ei Athrofa Pensaernïaeth a gafodd ei sefydlu yn 1992. Gwaith y Sefydliad yw addysgu dulliau tragwyddol ac ecolegol o gynllunio, dylunio ac adeiladu, ac i roi'r dulliau hynny ar waith. O'i gartref yn nwyrain Llundain, mae PFBE yn cyfrannu at gyfres o brojectau ar hyd a lled y Deyrnas Unedig a thramor, sy'n amrywio o adfywio ac ymestyn trefi i ddatblygiadau ar hen safleoedd diwydiannol (safleoedd tir llwyd).

Yn ogystal â gweithredu fel ymgynghorydd cynllunio i bartneriaid a chleientiaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, mae PFBE yn addysgu sgiliau datblygu cynaliadwy trwy gynnal seminarau a gweithdai a thrwy ddefnyddio'i rwydwaith byd-eang i gylchredeg gwybodaeth am arferion newydd. Y pwyslais bob amser yw tynnu sylw at bwysigrwydd arloesi ac egwyddorion sydd wedi hen ennill eu plwyf wrth fynd ati i adeiladu cymunedau llwyddiannus.

Pwysleisiodd y Tywysog yr egwyddorion sy'n sail i'r gwaith hwn yn ei araith ym mis Mai 2009 i Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA) i nodi 175 mlwyddiant y mudiad. Yn ystod ei ddarlith 40 munud o hyd tynnodd Ei Uchelder Brenhinol sylw at y problemau sy'n codi ledled y byd wrth i ddinasoedd a threfi ledaenu, gan nodi y byddai 60 y cant o boblogaeth y byd yn byw mewn dinasoedd erbyn 2030. Dywedodd wrth aelodau RIBA: "Y prif ymateb hyd yn hyn i'r twf cyson yma mewn trefi yw ei weld fel sialens yn y tymor byr o ran graddfa, ac i ymateb drwy adeiladu'n fwy ac yn gynt, yn hytrach na gofyn a ddylai'r fath ddatblygu – sydd yn dal wedi'i seilio ar batrwm hen-ffasiwn o gynllunio a dylunio – wir yn gynaliadwy, yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol."

Mae'r Tywysog wedi ymgyrchu am ddegawdau i'r byd fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a dywedodd wrth y gynulleidfa y byddai gofyn dilyn tri cham wrth fynd ati i roi sylw i effeithiau'r broblem hon ar adeiladau a lleoedd: "Y cam cyntaf fyddai edrych yn ofalus ar gynseiliau, gan ddatblygu'r hyn sydd wedi gweithio'n dda yn y gorffennol; yr ail gam fyddai dod i ddeall natur y lle dan sylw – ei geneteg arbennig fel petai, gan ymgorffori gwybodaeth a chyfraniad pobl yr ardal; a'r trydydd cam fyddai ymgorffori'r agweddau gorau ar dechnolegau newydd."

Adeiladu adeiladau is eu carbon oedd un o'r pynciau dan sylw yng nghynhadledd flynyddol PFBE ym Mhalas St James's ym mis Chwefror 2010. Thema'r digwyddiad oedd "Adeiladu: Economi Werdd Newydd". Clywodd y cynadleddwyr gan lawer o arbenigwyr a siaradwyr, a buont yn cymryd rhan mewn trafodaeth dan arweiniad Jonathan Porritt, cyn-gadeirydd y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy. Yn ystod y gynhadledd, soniodd Hank Dittmar, prif weithredwr PFBE, am waith ymchwil newydd yr elusen sy'n dangos sut y gallai technegau adeiladu gwell a mwy 'gwyrdd' greu swyddi a denu arian i economïau ardaloedd, a llwyddo hefyd i gyrraedd targedau'r llywodraeth o ran lleihau carbon.

UWCHBEN
Tywysog Cymru'n areithio yng nghyfarfod 2009 o Ymddiriedolaeth Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA) yn Llundain ym mis Mai 2009.

Ym mis Ionawr 2009, ar anogaeth Tywysog Cymru, dechreuodd ei Sefydliad er yr Amgylchedd Adeiledig ar y gwaith o adeiladu eco-gartref unigryw. Yn syml, enw'r cartref yw'r "Tŷ Naturiol", ac mae wedi'i adeiladu o ddeunyddiau naturiol fel blociau clai, plastr calch a gwlân defaid i'w inswleiddio. Nod y project yw dangos i bobl sy'n adeiladu tai y gallan nhw gyrraedd eu targedau carbon isel mewn cartrefi newydd, gan ymgorffori, ar yr un pryd, y cynlluniau traddodiadol sydd mor boblogaidd yn y farchnad dai.

Ym mis Mai 2009, aeth y Tywysog i barc menter y Sefydliad Ymchwil Adeiladu yn Watford, lle mae'r tŷ'n cael ei adeiladu, i weld sut mae'r project yn dod yn ei flaen. Ar ôl cwblhau'r Tŷ Naturiol yn ystod yr hydref 2010, bydd yn cael ei rannu'n gartref tair llofft i deulu, maisonette a fflat bach i ddangos pa mor hyblyg yw'r cynllun. Mae hyn yn pwysleisio i bobl sy'n adeiladu tai'r manteision sy'n dod yn sgil ffurf ar adeiladu y mae'n bosib ei haddasu'n rhwydd mewn ymateb i ddemograffeg ac anghenion sy'n newid.

Adeiladu adeiladau is eu carbon oedd un o'r pynciau dan sylw yng nghynhadledd flynyddol PFBE ym Mhalas St James's ym mis Chwefror 2010. Thema'r digwyddiad oedd "Adeiladu: Economi Werdd Newydd".

Ym mis Tachwedd 2009, ymunodd PFBE â Busnes yn y Gymuned (BITC) i arwain seminar dan y teitl "*Live/Work Spaces in the 21st Century*" yn Marylebone Village yng nghanol Llundain. Nod y gynhadledd, yr aeth Ei Uchelder Brenhinol iddi, oedd rhoi gwybod i arweinwyr busnesau am y manteision sy'n dod yn sgil datblygu cymunedau trefol sydd wir yn gynaliadwy. Dywedodd rhai o gynrychiolwyr Howard de Walden Estate wrth gynrychiolwyr 36 o brif gwmnïau cynllunio ac adeiladu'r Deyrnas Unedig, cwmnïau manwerthu mawr a buddsoddwyr mewn safleoedd masnachol sut yr oedd rheoli stryd fawr Marylebone wedi adfywio'r ardal a dangos bod gosod cartrefi a safleoedd masnachol ochr yn ochr â'i gilydd, cymdogaethau sy'n annog pobl i gerdded a phensaernïaeth draddodiadol sydd wedi'i haddasu i'w defnyddio yn yr oes fodern wedi helpu i gynnal prisiau eiddo yn yr ardal.

Un arall o'r elusennau sy'n gweithio i wella'r amgylchedd adeiledig yw Ymddiriedolaeth Adfywio'r Tywysog (PRT), ac ym mis Mawrth 2010 cafodd yr elusen ei phenodi i reoli project adfywio Bletchley Park, canolbwynt gwaith datgodio Prydain yn ystod yr Ail Ryfel Byd ac un o'r safleoedd mwyaf arwyddocaol yn hanes milwrol yr 20fed ganrif. Fel rhan o'r project, bydd PRT yn adfer sawl rhan o'r safle, yn cynnwys rhai o'r cytiau lle'r oedd y gwaith datrys codau'n cael ei wneud.

Nid yw'n bosib rhoi bywyd newydd i adeiladau hanesyddol heb grefftwyr sydd â'r sgiliau i'w hadfer a bu'r Tywysog yn pwysleisio ers blynyddoedd lawer fod angen prentisiaethau mewn sgiliau crefft. Ym mis Mawrth 2010, cyflwynodd Ei Uchelder Brenhinol dystysgrifau graddio i brentisiaid o'r Deyrnas Unedig, Unol Daleithiau America a Jamaica a oedd wedi dilyn cwrs mewn sgiliau crefft y mae PFBE yn ei redeg. Bu'r myfyrwyr o America'n cymryd rhan yn y Rhaglen Ailadeiladu Cymunedau sydd â'i chanolbwynt yn 9fed ward isaf New Orleans, ac fe gafodd y myfyrwyr eu hyfforddi mewn amryw o ddisgyblaethau fel gwaith haearn a gwaith seiri meini a seiri coed. Sefydlodd Ei Uchelder Brenhinol y rhaglen yn 2009 i ddod â hyfforddiant a swyddi yr oedd gwir eu hangen i rannau tlotaf New Orleans, ac i adfer adeiladau hanesyddol ac adfywio'r economi yno.

ADDYSG

Mae Tywysog Cymru'n credu'n daer yn yr egwyddorion tragwyddol sy'n sail i addysgu da o bob math, ac yn yr hyn y mae'n ei alw'n "yr edeifion gwerthfawr sydd bob amser wedi cysylltu'r cenedlaethau." Yr egwyddorion bythol hyn, a'r gred y gall y celfyddydau a diwylliant gyfoethogi bywydau pobl, yw sylfaen gwaith elusennau addysgol a chelfyddydol y Tywysog.

Un o'r elusennau mwyaf blaenllaw yw Sefydliad Addysgu'r Tywysog (*The Prince's Teaching Institute* neu PTI), sef elusen addysgol sy'n cynnig cyfleoedd i athrawon ysgolion gwladol gael hyfforddiant trwy gydol y flwyddyn. Roedd yr elusen yn canolbwyntio yn y lle cyntaf ar y pynciau Saesneg, Hanes a Gwyddoniaeth, gan ychwanegu'r pynciau Daearyddiaeth a Mathemateg wedyn. Athroniaeth graidd PTI yw'r gred mai gofynion hanfodol unrhyw addysgu effeithiol yw gwybodaeth drylwyr am y pwnc a'r brwdfrydedd i gyfleu'r wybodaeth honno. Mae hefyd yn credu y dylai addysg fod yn broses o gaffael gwybodaeth a dealltwriaeth yn bennaf, ac nid yn fater syml o ennill sgiliau.

Ym mis Tachwedd 2009, arweiniodd y Tywysog seminar a derbyniad i rai o benaethiaid ac athrawon y 51 o ysgolion ar hyd a lled y Deyrnas Unedig sydd wedi ennill dyfarniad Nod Rhaglen Ysgolion y PTI. Ar ôl cael ei lansio gan y Tywysog ym mis Tachwedd 2007, mae'r rhaglen yn gwobrwyo'r gwaith o ddatblygu syniadau a gweithgareddau gwefreiddiol sy'n gwella addysgu yn y pynciau Saesneg, Hanes a Gwyddoniaeth. Yn ystod y derbyniad, gwrandawodd y gynulleidfa ar gyflwyniadau gan ddisgyblion o rai o'r ysgolion a enillodd ddyfarniadau, yn cynnwys Ysgol Uwchradd Ulverston Victoria yng Nghumbria. Dywedodd Laura Moses, sy'n astudio Lefel A yn Ysgol Ulverston, wrth y gynulleidfa sut yr oedd rôl PTI a phrojectau dan arweiniad Tammy Nicholls, ei hathrawes, wedi ennyn ei brwdfrydedd yn y Saesneg fel pwnc a'i gwneud yn awyddus i fynd yn athrawes Saesneg ei hun. Enillodd Ysgol Ulverston Nod y Rhaglen Ysgolion am ei gwaith a oedd yn cynnwys gŵyl lenyddiaeth, hybu gweithgareddau darllen a hwyluso ymweliadau â theatrau gan yr athrawon. Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd 228 o adrannau o 151 o ysgolion wedi cytuno i gymryd rhan yn y rhaglen yn 2010.

Un arall o elusennau addysgol y Tywysog yw Ysgol Arlunio'r Tywysog (*The Prince's Drawing School)* sy'n canolbwyntio ar addysgu arlunio fel iaith fyw sy'n esblygu y mae'n rhaid ei chael i ddeall a gwerthfawrogi celfyddyd a phensaernïaeth. O'i chartref mewn hen warws ar ei newydd wedd yn Shoreditch yng nghanol cymuned greadigol pen dwyreiniol Llundain, mae'r ysgol yn cynnig dewis helaeth o gyrsiau, yn cynnwys cyrsiau meistr yn ei stiwdios ac mewn amgueddfeydd cenedlaethol a mannau eraill, ac mae'r ysgol hefyd yn rhedeg gweithdai yn ystod y gwyliau a rhaglenni cymunedol.

Elusen sy'n canolbwyntio ar addysgu myfyrwyr iau yw Sefydliad y Tywysog i Blant a'r Celfyddydau (*The Prince's Foundation for Children & The Arts)* sy'n anelu at roi cyfleoedd i blant a phobl ifanc fynd at yr agweddau gorau un ar y celfyddydau. Ym mis Mehefin 2009, aeth Eu Huchelderau Brenhinol i berfformiad mawreddog o "Peter Pan" i godi arian i'r elusen.

UWCHBEN
Duges Cernyw'n darllen i rai o blant Ysgol Gynradd Avondale Park yn Llundain ar Ddiwrnod y Llyfr ym mis Mawrth 2010. Mae awydd Ei Huchelder Brenhinol i gynorthwyo mentrau sy'n hybu llythrennedd yn cynyddu o ddydd i ddydd, ac roedd yr ymweliad yn rhan o'r awydd hwnnw.

IECHYD

Ers cryn amser, bu Tywysog Cymru'n ymwneud â llawer o wahanol fudiadau yn y sector gofal iechyd, yn cynnwys ysbytai a hosbisau y mae'n eu helpu'n bersonol trwy gynnig cefnogaeth a chyllid, a thrwy wneud ymweliadau rheolaidd. Bu ers tro byd o blaid dull integredig o feddwl am ofal iechyd.

Mae hyn yn golygu rhoi pwyslais ar atal problemau iechyd ac ar fynd i'r afael â'r ffactorau cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n achosi afiechydon. Mae hefyd yn golygu cyfuno'r dulliau cyflenwol gorau a'r dulliau confensiynol gorau i greu iechyd, yn hytrach na dim ond trin clefydau.

Ers iddo gael ei sefydlu yn 1993, yr athroniaeth hon ym maes gofal iechyd oedd pwyslais gwaith Sefydliad y Tywysog er Iechyd Integredig (*The Foundation for Integrated Health* neu FIH). Ym mis Mai 2009, soniodd y Tywysog am feddygaeth integredig yng nghynhadledd ddeuddydd FIH ym mhencadlys The King's Fund yn Llundain. Ar ôl agor project ailddatblygu newydd The King's Fund (ar gost o £3 miliwn) a chyflwyno dyfarniadau i fudiadau sydd wedi datblygu ffyrdd arloesol o drin anghenion eu holl ddefnyddwyr, gofynnodd Ei Uchelder Brenhinol i'r cynadleddwyr: "Os yw integreiddio'n beth mor beryglus, pam nad ydw i erioed wedi clywed am unrhyw grwpiau cynrychioli cleifion sy'n ymgyrchu yn ei erbyn, a pham nad ydyn ni'n clywed mwy o feddygon a nyrsys yn gwrthwynebu?" Ar ôl 17 o flynyddoedd yn codi proffil gofal iechyd integredig a chynorthwyo'r gwaith o wella dulliau rheoleiddio therapïau cyflenwol, bydd yr FIH yn cau ym mis Gorffennaf 2010.

Mae'r Tywysog yn gweithredu fel noddwr nifer o'r prif elusennau canser, ac ym mis Chwefror 2010 aeth rhai o gynrychiolwyr yr elusennau gyda'r Tywysog ar ymweliad ag Ysbyty Coleg Prifysgol Llundain (UCLH) i ddysgu am ei wasanaethau therapi ffotodynamig (PDT). Techneg yw PDT sy'n golygu bod cleifion yn cael cyffuriau arbennig sy'n gwneud canserau'n sensitif i olau coch. Mae'n bosib anelu golau o laser yn uniongyrchol at y tiwmor wedyn i ddinistrio'r canser. Mae UCLH wedi gweld bod PDT yn arbennig o werthfawr wrth drin nifer o gelloedd cyn-ganseraidd a chanserau cynnar ar y croen (heblaw am melanomas) oherwydd y canlyniadau cosmetig, ac oherwydd bod posibilrwydd o gwtogi ar y sgil effeithiau.

Mae Duges Cernyw hefyd yn ymwneud â nifer o elusennau iechyd fel eu Noddwr, yn cynnwys Canolfannau Gofal Canser Maggie. Ym mis Chwefror 2010, aeth Ei Huchelder Brenhinol i'r Uchel Lys yn Llundain i fynd i sioe ffasiynau elusennol er budd elusen Maggie. Yn y rhagair i lyfryn y sioe esboniodd ei bod wedi ymddiddori am y tro cyntaf un yng ngwaith yr elusen pan aeth i un o'i chanolfannau yng Nghaeredin yn 2007. Ysgrifennodd y Dduges (yn Saesneg): "Ar yr ymweliad cyntaf hwnnw, gwnaeth y golau a'r lliwiau, y cynhesrwydd a maint y lle argraff ddofn arnaf. Mae pob un o Ganolfannau Maggie'n adeilad sydd wedi'i gynllunio i fod yn hardd, lle mae cyngor hanfodol a chefnogaeth emosiynol ar gael – noddfa mewn byd lle mae popeth wedi cael ei droi wyneb i waered."

Rôl fwyaf amlwg Ei Huchelder Brenhinol yw ei gwaith fel Llywydd y Gymdeithas Osteoporosis Genedlaethol, ac ym mis Hydref 2009 helpodd i ddathlu Diwrnod Osteoporosis Cenedlaethol y Byd trwy ymweld ag Ysgol Gynradd St Clement Danes yn Llundain i longyfarch yr ysgol ar ennill cystadleuaeth i ddangos bod esgyrn pawb yno'n iach. Gwobr y disgyblion oedd gwers ddawnsio dan arweiniad Craig Revel Horwood, un o feirniaid "*Strictly Come Dancing*", rhaglen deledu boblogaidd iawn y BBC. Yn ystod ei hymweliad, rhoddodd y beirniad wers ddifyfyr mewn *cha-cha-cha* i'r Dduges, a rhoddodd sgôr o "10 allan o 10" iddi am ei sgiliau dawnsio.

UWCHBEN
Tywysog Cymru'n sgwrsio â staff yn ystod ei ymweliad ag Ysbyty Coleg Prifysgol Llundain ym mis Chwefror 2010.

Duges Cernyw a Craig Revel Horwood, un o feirniaid "*Strictly Come Dancing*", yn ystod ymweliad ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yn Lloegr St Clement Danes yn Llundain ar Ddiwrnod Osteoporosis Cenedlaethol y Byd ym mis Hydref 2009.

HYBU AC AMDDIFFYN

Yn ogystal â chynorthwyo'r Frenhines wrth iddi gyflawni ei dyletswyddau fel Pennaeth y Wladwriaeth a gweithredu fel entrepreneur elusennol, mae Tywysog Cymru hefyd yn ceisio hybu ac amddiffyn traddodiadau, rhinweddau a rhagoriaeth dragwyddol y wlad. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys tynnu sylw at gyflawniadau neu faterion a allai, heb ei gefnogaeth, gael ychydig iawn o sylw, cynorthwyo cymunedau gwledig Prydain, annog pobl i ffermio'n gynaliadwy, ac annog pobl o wahanol ffydd a chymunedau i fod yn fwy goddefgar a dod i ddeall ei gilydd yn well.

CHWITH
Tywysog Cymru a Duges Cernyw mewn seremoni goffa ar Stryd Fawr Wootton Bassett, Wiltshire ym mis Ionawr 2010.

TYNNU SYLW AT RAI MATERION

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, aeth Tywysog Cymru, gyda chymorth Duges Cernyw, ati unwaith eto i geisio hybu ac amddiffyn yr agweddau gorau ar Brydain a'i phobl. Mae'r gwaith yn aml yn golygu gweld y Tywysog ei hun yn symbylu trwy awgrymu newidiadau, trwy greu proses o gyd-drafod, neu drwy dynnu sylw at faterion sydd heb gael sylw.

Cyflawniadau a gwasanaeth

Mae Eu Huchelderau Brenhinol yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn digwyddiadau sy'n cydnabod gwaith y gwasanaethau brys, ac ym mis Mehefin 2009 aeth y Tywysog i ymweld â chanolfan hyfforddi arbenigol yr Heddlu Metropolitan yn Gravesend, Caint, i weld sut mae'r heddlu'n cael eu hyfforddi i ddelio â therfysgoedd a sefyllfaoedd anodd eraill. Yn ystod ei ymweliad, gwyliodd fomiau petrol, brics a mathau eraill o rwbel yn cael eu taflu at un grŵp o swyddogion mewn efelychiad o derfysg, a grŵp arall yn ymarfer stopio car yr oedd pobl a allai fod yn ddrwgweithredwyr arfog yn ei yrru. Ar ôl yr arddangosiadau, cafodd Ei Uchelder Brenhinol gyfle i gwrdd â'r swyddogion a oedd yn ymarfer, gan ddweud wrthyn nhw eu bod i gyd yn gwneud gwaith ardderchog ar ran y genedl.

Mae gofyn i'r gwasanaethau brys ddefnyddio'u sgiliau mewn gwledydd tramor hefyd, ac ym mis Chwefror 2010 cafodd y Tywysog a'r Dduges gyfle i gwrdd â grŵp o ddiffoddwyr tân o Fanceinion Fawr a oedd newydd ddod yn ôl i'r wlad ar ôl gweithio ymhlith yr adeiladau a chwalwyd mewn daeargryn yn Port-au-Prince yn Haïti. Dywedodd John Hughes o Orsaf Dân Salford wrth Eu Huchelderau Brenhinol am yr adeg yr achubodd y tîm ferch ddwyflwydd oed a oedd wedi'i chaethiwo yn adfail ei meithrinfa. Dywedodd Mr Hughes, sydd wedi bod yn ddiffoddwr tân am 12 mlynedd: "Roedd hi wedi bod yn gaeth yno am dri diwrnod... Roedd ei thynnu hi allan yn deimlad ffantastig."

Ym mis Medi 2009, lansiodd Duges Cernyw gynllun loteri newydd Apêl Ambiwlans Awyr Wiltshire, sy'n codi arian i dalu am wasanaeth brys hanfodol i'r sir lle mae gan Ei Huchelder Brenhinol gartref teuluol. Dywedodd Philip Selwood, cadeirydd yr Apêl, yn ystod y digwyddiad: "Rydyn ni'n hynod o falch fod Duges Cernyw wedi cytuno i gynorthwyo ein helusen. Mae bod â Noddwr sy'n ennyn cymaint o barch ac sydd â chysylltiadau mor gadarn â'r ardal yn gwneud y berthynas hon yn berffeithiach byth."

Mae Eu Huchelderau Brenhinol hefyd yn cymryd rhan mewn ymrwymiadau sy'n tynnu sylw at waith gwirfoddolwyr ar hyd a lled y Deyrnas Unedig, ac ym mis Mawrth 2010 aeth Duges Cernyw i Helston i bencadlys ShelterBox, elusen sy'n trefnu i ddanfon llochesi argyfwng a chyflenwadau o nwyddau achub bywydau i bobl sydd wedi goroesi trychinebau naturiol. Mae ShelterBox yn dibynnu ar wirfoddolwyr i bacio'r nwyddau yn y warysau, ac i'w dosbarthu yn y maes. Cafodd yr ymweliad ei drefnu i gyd-fynd â 10 mlwyddiant ShelterBox ac roedd yn gyfle i'r Dduges, sy'n gweithredu fel llywydd yr elusen, ddiolch i'r staff a'r gwirfoddolwyr am eu gwaith diweddar yn helpu'r bobl a oedd wedi goroesi daeargrynfeydd yn Chile a Haïti.

Cymunedau gwledig, ffermio a bwyd

Fel ffermwr ei hun, mae'r Tywysog yn ymboeni'n ddwys am gefn gwlad Prydain ac am les y rheini sy'n byw ac yn gweithio ynddo. Mae cynnal sector amaethyddol iach yn hanfodol i'r wlad, nid dim ond am fod y dirwedd a'r dull o'i rheoli'n dibynnu ar y wybodaeth mae cymunedau ffermio wedi'i chasglu dros y canrifoedd, ond hefyd am fod natur gymdeithasol cefn gwlad yn dibynnu ar sylfaen ffermio gadarn.

UWCHBEN
Duges Cernyw'n ymweld â'r elusen ShelterBox, sy'n cynorthwyo mewn trychinebau ac y mae hi'n gweithredu fel ei llywydd, yn Helston, Cernyw ym mis Mawrth 2010.

Tywysog Cymru'n cwrdd â swyddogion CO19 yng Nghanolfan Hyfforddi Arbenigol yr Heddlu Metropolitan yn Gravesend, Caint ym mis Mehefin 2009.

Ers blynyddoedd lawer, mae Ei Uchelder Brenhinol wedi bod yn helpu i greu mentrau sy'n cynnig cymorth ymarferol a chefnogaeth foesol i ffermwyr, ac ym mis Ionawr 2010 fe roddodd fenter newydd ar waith dan yr enw Project Gwlân y Tywysog (*The Prince's Wool Project*). Cafodd y project ei sefydlu ar ôl i'r Tywysog, sy'n pryderu am y prisiau isel mae ffermwyr yn eu cael am eu gwlân), alw cynrychiolwyr o gwmnïau cynhyrchu carpedi, manwerthwyr a phobl sy'n tyfu gwlân at ei gilydd i drafod ffyrdd posib o hybu'r gwerthiant o wlân. Canlyniad i'r trafodaethau hyn oedd sefydlu'r Project Gwlân, a'i nod yw gwella'r gwerthiant o wlân o Brydain a'r Gymanwlad drwy dynnu sylw defnyddwyr a phrynwyr at ei fanteision amgylcheddol a chymdeithasol.

Mae'r Tywysog wedi credu ers amser fod diogelu bywyd gwyllt brodorol yn bwysig, ac ym mis Ebrill 2009 lansiodd Ei Uchelder Brenhinol elusen newydd i ddiogelu un o rywogaethau brodorol y wlad sydd dan y bygythiad pennaf. Wrth annerch yn ystod digwyddiad lansio Ymddiriedolaeth y Gwiwerod Cochion (*Red Squirrel Survival Trust*) yn Kendal, Cumbria, rhybuddiodd y Tywysog y gallai'r anifail, sydd dan fygythiad am fod niferoedd gwiwerod llwydion yn cynyddu, ddiflannu o'r Deyrnas Unedig cyn pen 10 mlynedd. "Yr hyn sy'n ein dychryn ni fwyaf yw y gallai'r wiwer goch ddiflannu'n llwyr o'r Deyrnas Unedig cyn pen degawd, heb i ni weithio gyda'n gilydd i godi'r arian sy'n angenrheidiol i ariannu'r gwaith y mae'n rhaid ei wneud."

Ym mis Gorffennaf 2009, arweiniodd Tywysog Cymru dderbyniad yn Clarence House i nodi 10 mlwyddiant Cyngor Stiwardiaeth y Môr (*Marine Stewardship Council*), mudiad sy'n hybu arferion pysgota cynaliadwy ledled y byd. Mewn araith yn ystod y derbyniad, dywedodd Ei Uchelder Brenhinol pe byddai pysgota'n para heb ofalu o gwbl am gynaliadwyedd yn y tymor hir "byddwn ni'n wynebu gostyngiad hunllefus yn niferoedd y pysgod yn fuan iawn, ac mae'n anochel y byddai pobl dlotaf y byd yn newynu."

Ffydd a chymunedau ethnig

Bu annog pobl o wahanol gymunedau a ffydd ym Mhrydain i fod yn fwy goddefgar, a thynnu sylw at y gwaith da y maen nhw'n ei wneud ar hyd a lled y Deyrnas Unedig yn un o nodweddion gwaith y Tywysog ers tro byd.

Ym mis Chwefror 2010, canmolodd Tywysog Cymru ymdrechion rhai o aelodau'r Eglwys yn Lloegr sy'n helpu pobl i chwilio am ddealltwriaeth ysbrydol mewn "byd tameidiog", yn ystod ymweliad â Choleg St Mellitus yn Eglwys St Paul's yn Llundain. Cymerodd Ei Uchelder Brenhinol ran mewn trafodaeth ynglŷn â maddeuant a Christnogaeth gyda chlerigwyr dan hyfforddiant, ac fe gafodd gyfle i gwrdd a rhai o aelodau'r plwyf, gweithwyr ieuenctid a chyn-droseddwyr sy'n gweithio ar brojectau sy'n gysylltiedig â'r eglwys yn Kensington. Mewn araith, dywedodd y Tywysog ei fod yn "falch ac yn ddiolchgar" am y gwaith sy'n cael ei wneud mewn eglwysi ar hyd a lled y wlad. "Yn ein byd modern sy'n dameidiog ac yn ddigyswllt, yr her fwyaf yw sut mae mynd ati i ailgysylltu pobl ag unrhyw beth fel dealltwriaeth ysbrydol."

Yn yr un mis, Ei Uchelder Brenhinol oedd y gŵr gwadd mewn casgliad mawr o aelodau cymuned y Deyrnas Unedig o Fwslimiaid Sufi. Yn ystod y digwyddiad hwn a gafodd ei gynnal yn Old Trafford, stadiwm y tîm pêl-droed Manchester United, cafodd y Tywysog gyfle i gwrdd â chynrychiolwyr Mwslimiaid Sufi o Brydain, Kosovo, Pacistan a Somalia, ac i gael ei ddiddanu gan griw o dderfisiaid chwyrlïol yn dawnsio ac i wrando ar gerddoriaeth a drymiau Arabaidd.

Gohebiaeth a chyfarfodydd

Yn ogystal â thynnu sylw'n gyhoeddus at faterion na fyddai fel arall yn cael sylw efallai, mae Ei Uchelder Brenhinol, fel aelod o'r Cyfrin Gyngor, yn ysgrifennu'n breifat at Weinidogion y Llywodraeth, arweinwyr busnesau a phobl ddylanwadol eraill, ac yn eu cwrdd. Mae pynciau'r llythyrau a'r sgyrsiau'n amrywiol iawn ac yn cynnwys rhai y mae pobl eraill wedi'u codi neu rai sydd o ddiddordeb i'r Tywysog ei hun yn sgil ei holl gyfarfodydd a'i ymweliadau ar hyd a lled y Deyrnas Unedig a thramor. Wrth wneud hyn, mae'r Tywysog bob amser yn gofalu ei fod yn osgoi materion y pleidiau gwleidyddol.

UWCHBEN
Ym mis Ebrill 2009, aeth Tywysog Cymru i ymweld â chwmni sy'n defnyddio gwlân defaid mynydd Prydain i wneud deunydd inswleiddio ar gyfer adeiladau.

Tywysog Cymru'n traddodi araith yn ystod ymweliad â Choleg St Mellitus, Eglwys St Paul's, Llundain, ym mis Chwefror 2010.

INCWM, GWARIANT, STAFF A CHYNALIADWYEDD

Mae'r adran hon yn disgrifio sut y caiff gweithgareddau a swyddfeydd Tywysog Cymru, Duges Cernyw, a Thywysog William a Thywysog Harry eu hariannu, ac mae'n amlinellu cyfrifoldebau eu staff uwch. Mae'r rhan fwyaf o'r costau staff a'r gwariant ar weithgareddau swyddogol a gwaith elusennol yn cael eu talu o incwm preifat Ei Uchelder Brenhinol o Ddugaeth Cernyw. Mae'r adran hon yn manylu hefyd ar berfformiad yr Aelwyd o ran cynaliadwyedd.

CHWITH
Clarence House, cartref swyddogol Tywysog Cymru, Duges Cernyw, Tywysog William a Thywysog Harry yn Llundain.
Mark Mackenzie Photography

CYFRIF INCWM A GWARIANT

Am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth	2010 £000oedd	2009 £000oedd
Incwm ac ariannu		
Dugaeth Cernyw	17,161	16,458
Grantiau Cymorth	1,132	2,212
Adrannau eraill o'r Llywodraeth	532	821
Cyfanswm incwm ac ariannu	**18,825**	**19,491**
Gwariant		
Dyletswyddau swyddogol a gweithgareddau elusennol	9,059	9,480
Grantiau Cymorth:		
Swyddfa Llundain a'r cartref swyddogol	360	422
Teithio swyddogol (awyrennau a threnau)	692	1,710
Cefnogaeth cyfathrebu	80	80
	1,132	**2,212**
Teithiau tramor ac eilwyr milwrol	532	821
Gwariant swyddogol	10,723	12,513
Gweddill ar ôl y Costau Swyddogol	**8,102**	**6,978**
Trethi (yn cynnwys TAW)	3,484	3,093
Gwariant answyddogol	1,694	1,710
Gwarged gweithredu	**2,924**	**2,175**
Gwariant cyfalaf (llai dibrisio), ad-daliadau ar fenthyciadau a throsglwyddo i gronfeydd wrth gefn	2,695	2,018
Gwarged arian net	**229**	**157**

Incwm ac ariannu
(Cyfanswm o £18.825m yn 2010)

- Dugaeth Cernyw
- Grantiau Cymorth
- Adrannau eraill o'r Llywodraeth

Gwariant
(Cyfanswm o £10.723m yn 2010)

- Dyletswyddau swyddogol a gweithgareddau elusennol
- Grantiau Cymorth
- Teithiau tramor ac eilwyr milwrol

INCWM AC ARIANNU

	£miliwn
Dugaeth Cernyw	**17.161**

Dugaeth Cernyw

Daw incwm preifat Tywysog Cymru o Ddugaeth Cernyw, stad o eiddo amaethyddol, masnachol a phreswylio yn Ne-orllewin Lloegr yn bennaf. Mae portffolio o fuddsoddiadau ariannol gan y Ddugaeth hefyd.

Cafodd stad y Ddugaeth ei chreu yn 1337 gan Edward III ar gyfer Tywysog Edward, ei fab. Prif bwrpas y Ddugaeth oedd, ac yw, gweithredu fel incwm i Dywysog Cymru fel Etifedd yr Orsedd. Fel Dug presennol Cernyw, mae Tywysog Cymru'n ymwneud llawer â rhedeg y Ddugaeth, ac mae'n gofalu'n arbennig mai sylfaen gwaith rheoli'r Ddugaeth yw arferion gorau o ran yr amgylchedd ac amaethyddiaeth, datblygu cynaliadwy, a gweithio trwy bartneriaethau gyda thenantiaid a chymunedau lleol.

Ers i Dywysog Cymru ymgymryd â gwaith ei rheoli ar ei ben-blwydd yn 21 oed yn 1969, bu'r twf yng nghyfalaf y Ddugaeth yn sylweddol. Ac ers i brisiannau gael eu cyflwyno, mae'r twf hwnnw wedi cynyddu llawer mwy na'r cynnydd yn incwm Ei Uchelder Brenhinol o'r stad. Er mwyn gofalu bod yr incwm yn parhau i fod ar gael i'w drosglwyddo i'r cenedlaethau nesaf, nid oes hawl gan Ddug Cernyw i ddefnyddio cyfalaf y Ddugaeth. Mae hyn yn golygu nad yw Tywysog Cymru'n cael unrhyw ran o'r elw a ddaw o werthu asedau cyfalaf, ond fod yr elw'n cael ei ail-fuddsoddi yn y Ddugaeth.

Ar ben hynny, er mwyn gofalu bod y gwaith o reoli'r Ddugaeth yn canolbwyntio digon ar amddiffyn a gwella'i hasedau cyfalaf, cafodd deddfau eu cyflwyno yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r Ddugaeth gael ei rhedeg fel menter fasnachol. Byddai'r Trysorlys hefyd yn gweithredu fel math o ymddiriedolwr a fyddai'n amddiffyn buddiannau Dugiaid y dyfodol. Prif ddull y Trysorlys o wneud hyn yw cymeradwyo pob achos o brynu a gwerthu tir ac eiddo sy'n werth £500,000 neu fwy. Mae'r Senedd yn cael gweld cyfrifon y Ddugaeth bob blwyddyn er mwyn gofalu bod y Trysorlys yn cyflawni ei ddyletswyddau yn y cyswllt hwn. Cadarnhaodd y Trysorlys sylfaen y gwaith o reoli'r Ddugaeth unwaith eto yn 2005.

Mae Ei Uchelder Brenhinol yn dewis defnyddio'r rhan fwyaf o'i incwm o'r Ddugaeth i dalu costau ei waith cyhoeddus ac elusennol ef a gwaith Duges Cernyw a Thywysog William a Thywysog Harry.

Mae cyfrifon blynyddol Dugaeth Cernyw i'w cael ar lein yn www.duchyofcornwall.org.

	£miliwn
Grantiau Cymorth	**1.132**

Y Senedd sy'n rhoi'r arian i dalu costau swyddogol y Frenhines fel Pennaeth y Wladwriaeth neu waith i'w chynorthwyo, yn gyfnewid am ildio'r refeniw o Stad y Goron. Daw'r arian hwn mewn tair ffordd: (i) Rhestr Sifil ar gyfer y Frenhines a Blwydd-dal Seneddol ar gyfer Dug Caeredin, (ii) Grantiau Cymorth, a (iii) costau sy'n cael eu talu'n uniongyrchol gan Adrannau'r Llywodraeth. Nid yw Tywysog Cymru a Duges Cernyw a Thywysog William a Thywysog Harry'n cael arian Rhestr Sifil na Blwydd-dal Seneddol, ond mae'r Grantiau Cymorth i Aelwyd y Frenhines yn cael eu defnyddio'n rhannol i gynnal eu gweithgareddau swyddogol.

Mae tri Grant Cymorth: Grant Cymorth Gwasanaethau Eiddo, sy'n talu costau cynnal y cartrefi swyddogol a'r swyddfeydd mae Aelodau o'r Teulu Brenhinol a'u staff yn eu defnyddio; Grant Cymorth y Teithiau Brenhinol mewn Awyrennau a Threnau, sy'n talu costau'r teithiau swyddogol mae Aelodau o'r Teulu Brenhinol a'u staff yn eu gwneud mewn awyrennau a threnau; a'r Grant Cymorth Cyfathrebu a Gwybodaeth Frenhinol, sydd gryn dipyn yn llai na'r ddau arall ac sy'n talu rhai o'r costau cyfathrebu swyddogol ar ran Aelodau o'r Teulu Brenhinol.

Caiff cyfrifon blynyddol eu cyhoeddi ar gyfer y tri Grant Cymorth. Mae copïau i'w cael ar www.royal.gov.uk neu mae'n bosib cael copïau gan Ddirprwy Drysorydd y Frenhines, Palas Buckingham, Llundain SW1A 1AA.

	£miliwn
Adrannau'r Llywodraeth	**0.532**

Mae Adrannau'r Llywodraeth yn talu'r gwariant ar gostau staff sydd wedi'u secondio o'r Gwasanaethau Arfog i weithio i Dywysog Cymru a Duges Cernyw (gwariodd y Weinyddiaeth Amddiffyn £391,404 yn 2009-10) a rhai o gostau ymweliadau tramor swyddogol sy'n cael eu gwneud ar gais y Swyddfa Dramor a Chymanwlad (gwariodd y Swyddfa Dramor a Chymanwlad £140,692 yn 2009-10).

Mae Ei Uchelder Brenhinol yn dewis defnyddio'r rhan fwyaf o'i incwm o'r Ddugaeth i dalu costau ei waith cyhoeddus ac elusennol ef a gwaith Duges Cernyw a Thywysog William a Thywysog Harry.

GWARIANT

	£miliwn
Dyletswyddau swyddogol a gweithgareddau elusennol	**9.059**

Cafodd dros 60 y cant o'r incwm ar ôl treth y mae Tywysog Cymru'n ei gael o Ddugaeth Cernyw, ei wario ar ddyletswyddau swyddogol ac elusennol. O'r cyfanswm o £9.059 miliwn, aeth £6.3 miliwn, neu 69 y cant, i dalu costau'r staff. Mae dadansoddiad o'r gwariant swyddogol ar dudalen 49.

Mae Tywysog Cymru'n cyflogi 149 o staff sy'n cyfateb i amser llawn. O'r rhain, mae 124 yn cynorthwyo'u Huchelderau Brenhinol, yn cynnwys Tywysog William a Thywysog Harry, wrth iddyn nhw ymgymryd â dyletswyddau swyddogol a gweithgareddau elusennol, ac mae 25 yn staff personol neu'n staff garddio a ffermio.

Mae'r tabl ar dudalen 44 yn rhestru'r staff swyddogol yn ôl adran yr Aelwyd. Mae cyfanswm costau'r naill adran a'r llall, yn cynnwys cyflogau a gwariant arall, yn yr un tabl.

	£miliwn
Grantiau Cymorth: y swyddfa a'r cartref swyddogol yn Llundain	**0.360**

Clarence House yw swyddfa a chartref swyddogol Tywysog Cymru a Duges Cernyw yn Llundain, a chartref swyddogol Tywysog William a Thywysog Harry. Mae'n cael ei ddefnyddio ar gyfer ciniawau, derbyniadau a chyfarfodydd swyddogol, ac mae'n gweithredu hefyd fel swyddfeydd ar gyfer staff swyddogol Eu Huchelderau Brenhinol. Mae'r prif ystafelloedd ar lawr gwaelod Clarence House ar agor i'r cyhoedd rhwng mis Awst a diwedd mis Medi bob blwyddyn. Cafodd dros 3,700 o bobl eu croesawu'n swyddogol i Clarence House yn ystod y flwyddyn ac fe dalodd 18,826 o ymwelwyr i fynd i mewn i weld y tŷ. Mae gan yr Aelwyd swyddfeydd hefyd mewn rhannau eraill o Balas St James's, sydd bellach yn gartref hefyd i Aelwyd newydd Tywysog William a Thywysog Harry. Y Grant Cymorth Gwasanaethau Eiddo sy'n talu costau cynnal a chadw Clarence House a chostau'r swyddfeydd eraill ym Mhalas St James's.

	£miliwn
Grantiau Cymorth: Teithio swyddogol mewn awyrennau a threnau	**0.692**

Rhan bwysig o rôl Tywysog Cymru fel Etifedd yr Orsedd yw, gyda Duges Cernyw, dod â phobl at ei gilydd yng ngwahanol rannau'r Deyrnas Unedig, gweithredu fel canolbwynt i fywyd y genedl, a chynrychioli'r wlad mewn gwledydd tramor. Mae hyn yn golygu llawer o deithio y mae angen ei wneud mewn ffordd effeithlon a diogel sy'n ateb y gofynion cyflwyno. Yn 2009-10, teithiodd Eu Huchelderau Brenhinol 42,910 o filltiroedd wrth deithio i gyflawni ymrwymiadau swyddogol yn y Deyrnas Unedig a thramor. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys 27,138 o filltiroedd o deithio mewn gwledydd tramor. Cost y teithiau hyn yn 2009-10, ac eithrio teithio mewn ceir, oedd £692,325, a Grant Cymorth y Teithio Brenhinol mewn Awyrennau a Threnau sy'n talu'r costau.

Mae'r ffigur hwn yn cynnwys dim ond y costau amrywiol ar gyfer teithiau'n defnyddio Sgwadron 32, Hofrennydd Y Frenhines a'r Trên Brenhinol. Gwneir hyn am fod costau awyrennau adenydd sefydlog a threnau'n digwydd p'un a ydyn nhw'n cael eu defnyddio neu beidio, ac nid ydyn nhw'n dod yn sgil unrhyw deithiau penodol. Mae esboniad llawn o hyn yn Adroddiad Blynyddol 2009-10 y Grant Cymorth ar gyfer Teithiau Brenhinol mewn Awyrennau a Threnau (*Grant-in-Aid for Royal Travel by Air and Rail Annual Report 2009-10*) – mae'r adroddiad ar gael ar www.royal.gov.uk.

	£miliwn
Grantiau Cymorth: Cymorth Cyfathrebu	**0.080**

Mae Swyddfa Tywysog Cymru'n mynd i wariant wrth ddatblygu a chyflwyno rhaglen gyfathrebu, cynnal Swyddfa'r Wasg, diweddaru a datblygu ei gwefan, cynnig gwybodaeth gyffredinol ac addysgol i'r wasg a'r cyhoedd, a chynnig Swyddogion y Wasg i helpu'r cyfryngau yn ystod ymrwymiadau ac ymweliadau swyddogol. Tywysog Cymru sy'n talu'r rhan fwyaf o'r costau hyn yn bersonol. Ond y Grant Cymorth Cyfathrebu a Gwybodaeth sydd yn draddodiadol wedi talu rhai o'r costau a ddaw yn sgil helpu'r cyfryngau mewn ymrwymiadau ar hyd a lled y wlad; cymorth cyfathrebu yw'r enw ar y gwaith hwn.

Mae teithiau tramor Eu Huchelderau Brenhinol yn cael eu gwneud ar gais Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

	£miliwn
Eilwyr milwrol a theithiau tramor	**0.532**

Mae tri aelod o Swyddfa'r Gwastrodion a thri o'r pum Swyddog Negesau wedi'u secondio o'r Lluoedd Arfog i helpu Tywysog Cymru a Duges Cernyw i gyflawni eu dyletswyddau swyddogol. Mae esboniad o rôl Swyddfa'r Gwastrodion ar dudalen 47. Y gost i'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn 2009-10 oedd £391,404.

Mae'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn talu costau Ymweliadau Swyddogol Tramor Tywysog Cymru, Duges Cernyw a Thywysog William a Thywysog Harry (ac eithrio'r costau teithio a ddaw o'r Grant Cymorth ar gyfer Teithiau Brenhinol mewn Awyrennau a Threnau). Yn ystod 2009-10, aeth Eu Huchelderau Brenhinol ar deithiau swyddogol i'r Eidal, y Fatican a'r Almaen ym mis Ebrill 2009; Canada ym mis Tachwedd 2009; a Gwlad Pwyl, Hwngari a'r Weriniaeth Tsiec ym mis Mawrth 2010. Aeth y Tywysog ar ei ben ei hun hefyd i Ffrainc, Denmarc, Affganistan, Qatar a Saudi Arabia. Mae'r ymweliadau hyn yn cael eu gwneud i gynorthwyo ac ar gais y Swyddfa Dramor a Chymanwlad, a'u nod yw atgyfnerthu a datblygu'r berthynas dda sydd gan y Deyrnas Unedig â gwledydd ar hyd a lled y byd. Costau'r ymweliadau hyn i'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn 2009-10 oedd £140,692.

	£miliwn
Trethi	**3.484**

Mae Tywysog Cymru'n talu treth incwm yn wirfoddol ar warged Dugaeth Cernyw. Y rheolau treth incwm arferol sy'n berthnasol, ar y raddfa o 40 y cant. Fel unrhyw unigolyn preifat, mae hefyd yn talu treth incwm ar bob incwm arall a threth ar enillion cyfalaf. Mae'r swm o £3.484 miliwn yn cynnwys TAW. O gynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol fel cyflogwr, a'r Dreth Gyngor, mae'r cyfanswm yn codi i £4.0 miliwn.

	£miliwn
Gwariant answyddogol	**1.694**

Yn ogystal â thalu am ddyletswyddau swyddogol Tywysog Cymru a Duges Cernyw, a Thywysog William a Thywysog Harry, ac am rai gweithgareddau elusennol ac atebolrwydd y Tywysog i dalu treth incwm, mae'r incwm o Ddugaeth Cernyw hefyd yn talu costau gwariant answyddogol Tywysog Cymru a'i deulu.

Mae'r gwariant answyddogol yn cynnwys costau cyflogi 8.6 o staff personol sy'n cyfateb i amser llawn, sy'n cynnwys ysgrifenyddion personol, pen-cogyddion, gweision, a staff ar gyfer Tywysog Cymru, Duges Cernyw, Tywysog William a Thywysog Harry. Ar ben y rhain, mae 16.4 o staff sy'n cyfateb i amser llawn yn gweithio ar y stad a'r ffermydd, ac yn y gerddi a'r stablau. Mae'r gwariant personol hefyd yn cynnwys cyfran briodol o gostau Highgrove House a Birkhall, a chostau cynnal stad a gerddi Highgrove. Mae'r ardd yn ased elusennol gwerthfawr, a daeth bron i 34,000 o bobl i'w gweld y llynedd.

Mae costau Home Farm, fferm organig y Tywysog ar Stad Highgrove, wedi'u cynnwys dan y pennawd hwn. Fferm weithio yw hon a gafodd ei sefydlu gan Dywysog Cymru i ddangos y buddion masnachol ac amgylcheddol sy'n deillio o ffermio organig a chynaliadwy. Daeth tua 1,580 o bobl i'w gweld y llynedd.

STAFF

Fel yr oedden nhw ar 31 Mawrth 2010, ac ar gyfer y flwyddyn hyd at yr un dyddiad

	Staff sy'n cyfateb i amser llawn 2010	Costau Swyddogol £000oedd 2010
Prif Ysgrifennydd Preifat a Chynorthwywyr	**3.5**	
Swyddfa'r Ysgrifennydd Preifat		
Yr Ysgrifennydd Preifat	1.0	
Ysgrifenyddion Preifat Eraill	7.1	
Staff Ymchwilio a Gweinyddu	12.5	
Gohebiaeth	3.5	
Swyddfa Tywysog William a Thywysog Harry	3.8	
	31.4	**2,705**
Cyllid, Personél a Gweinyddu		
Trysorydd a Chynorthwywyr	2.3	
Cyllid a Rhestru eiddo	8.0	
Personél	7.6	
Archifau	3.0	
	20.9	**2,010**
Cyfathrebu		
Ysgrifennydd Cyfathrebu a Chynorthwyydd	2.0	
Ysgrifennydd y Wasg	1.0	
Ysgrifenyddion Cynorthwyol y Wasg	2.2	
Swyddogion y Wasg a Golygydd y Wefan	4.0	
	9.2	**781**
Meistr Adran yr Aelwyd		
Meistr yr Aelwyd a Chynorthwywyr	4.4	
Gwastrodion	2.0	
Cydgysylltwyr Rhaglenni a Theithio	4.0	
Bwtleriaid	1.3	
Pen-cogyddion a phorthorion y gegin	4.4	
Swyddogion negesau	5.3	
Derbynfa	1.0	
Gyrwyr	3.0	
Rheolwyr Tŷ a Staff Cadw Tŷ	11.8	
Gweision a Gwisgwyr	2.5	
Garddwyr a Gweithwyr Stad	15.9	
	55.6	**3,563**
Swyddfa Cyfarwyddwr yr Elusennau		
Cyfarwyddwr a Chynorthwywyr	2.7	
Pennaeth Gweithrediadau	1.0	
Pennaeth Datblygu a Golygydd y Wefan	2.0	
Cynghorwr	0.2	
Rheolwr Project	1.0	
	6.9	-
Cyfanswm y staff swyddogol ar 31 Mawrth 2010	**124.0**	**9,059**
Gweithgareddau Elusennol sydd wedi'u lleoli yn Clarence House		
Uned Gynaliadwyedd Rhyngwladol	7.5	
Cyfrifyddu er Cynaliadwyedd	4.0	
Projectau Elusennol eraill	22	
	13.7	

Swyddfeydd

Mae prif swyddfa Tywysog Cymru a Duges Cernyw, lle mae'r rhan fwyaf o'u staff yn gweithio, yn Clarence House ac mewn rhai o ystafelloedd Palas St James's yng nghanol Llundain. Mae swyddfa Tywysog William a Thywysog Harry ym Mhalas St James's hefyd. Y Grant Cymorth Gwasanaethau Eiddo (cyfeiriwch at dudalen 42) sy'n talu costau cynnal adeiladwaith yr adeiladau, yn ogystal â chostau'r gwasanaethau a'r llinellau ffôn sefydlog (ond nid yw'n talu costau eraill Clarence House a swyddfa Llundain). Mae swyddfeydd hefyd ar gyfer staff swyddogol sy'n helpu'r Tywysog gyda'i waith parhaus yn Highgrove a Birkhall, cartrefi preifat Eu Huchelderau Brenhinol. Mae rhai o gostau Highgrove a Birkhall yn cael eu cynnwys, felly, dan y categori gwariant 'Dyletswyddau swyddogol a gweithgareddau elusennol'.

STAFF A THREFN Y SWYDDFA

Y Prif Ysgrifennydd Preifat

Y Prif Ysgrifennydd Preifat yw'r uwch aelod o Aelwyd Tywysog Cymru a Duges Cernyw. Mae'n gyfrifol am bob agwedd ar redeg yr Aelwyd ac am oruchwylio mudiadau elusennol a mudiadau eraill Ei Uchelder Brenhinol.

Swyddfa'r Ysgrifenyddion Preifat

Yr Ysgrifennydd Preifat sy'n gyfrifol o ddydd i ddydd am redeg Swyddfa'r Ysgrifenyddion Preifat. Mae ef a'r Dirprwy a'r Ysgrifenyddion Preifat eraill yn hybu a hwyluso dyletswyddau swyddogol, ymrwymiadau a gweithgareddau elusennol Tywysog Cymru a Duges Cernyw. Maen nhw'n gyfrifol am ddyddiaduron Eu Huchelderau Brenhinol, ac yn trefnu sesiynau briffio, derbyniadau ac achlysuron eraill, yn gweinyddu gohebiaeth, ac yn cydgysylltu ymchwil a gwybodaeth sy'n eu cynorthwyo gyda'u gwaith. Mae pob Ysgrifennydd Preifat yn gyfrifol am feysydd penodol ac am gydweithio â rhai o fudiadau'r Tywysog a'r Dduges. Mae rhestr o'r cyfrifoldebau hyn, a chyfrifoldebau'r staff uwch eraill, yn yr Atodiad (ar dudalennau 54 a 55). Maen nhw hefyd yn gofalu bod Ei Uchelder Brenhinol yn cael gwybod am faterion cyfoes, yn rhoi gwybodaeth gefndirol iddo wrth iddo ysgrifennu llythyrau at Weinidogion y Llywodraeth a phobl ddylanwadol eraill, ac yn paratoi drafftiau o'i areithiau a'i erthyglau. Mae ymchwilwyr, cynorthwywyr personol a staff gweinyddol yn cynorthwyo'r Ysgrifenyddion Preifat gyda'u gwaith, ac maen nhw'n gweithio'n agos gyda'u cydweithwyr yn Swyddfa Ysgrifenyddion Preifat y Frenhines.

Bob blwyddyn, mae Tywysog Cymru, Duges Cernyw, Tywysog William a Thywysog Harry'n cael nifer fawr o lythyrau. Yn ystod 2009-10, er enghraifft, cawsant 24,616 o lythyrau. Mae pobl o bob rhan o'r byd yn ysgrifennu at Eu Huchelderau Brenhinol, er bod y mwyafrif o'r llythyrau'n dod o'r Deyrnas Unedig.

Mae'r llythyrau'n tynnu sylw at amryw o wahanol bynciau, a materion a phynciau trafod cyfoes sy'n eu hysgogi nhw'n aml. Mae Eu Huchelderau Brenhinol yn gweld dewis eang o'r llythyrau, ac yn ateb i lawer ohonyn nhw. Ysgrifennodd y Tywysog ei hun 1,869 o lythyrau yn ystod 2009-10. Ysgrifennodd Duges Cernyw 818 ei hun, ac ysgrifennodd y ddau 22 o lythyrau ar y cyd. Mae Eu Huchelderau Brenhinol yn gofalu bod yr Adran Ohebiaeth yn ateb ar eu rhan y llythyrau nad ydyn nhw eu hunain neu eu Hysgrifenyddion Preifat yn eu hateb. Ar ben hynny, mae'r Tywysog a'r Dduges yn cael nifer o geisiadau gan amryw o wahanol elusennau a mudiadau eraill am roddion neu eitemau i'w harwerthu. Yr Adran Gyllid sy'n delio â cheisiadau am roddion, tra bo'r Adran Ohebiaeth yn delio â cheisiadau am eitemau i'w harwerthu. Er ei bod hi'n amhosib ymateb i bob un o'r llu o geisiadau am eitemau i'w harwerthu, mae Ei Uchelder Brenhinol yn rhoi eitemau fel lithograffau o'i luniau dyfrlliw, llyfrau wedi'u llofnodi a theithiau o gwmpas yr ardd yn Highgrove.

Yn 2009-10, cododd eitemau a roddwyd i'w harwerthu dros £88,000 at elusennau.

Mae prif swyddfa Tywysog Cymru a Duges Cernyw, lle mae'r rhan fwyaf o'u staff yn gweithio, yn Clarence House ac mewn rhai o ystafelloedd Palas St James's yng nghanol Llundain.

Mae Eu Huchelderau Brenhinol yn gweld dewis eang o'r llythyrau, ac ysgrifennodd y Tywysog ei hun 1,869 o lythyrau yn ystod 2009-10.

Aelwyd Tywysog William a Thywysog Harry

Ysgrifennydd Preifat Tywysog William a Thywysog Harry sy'n gyfrifol am redeg eu Haelwyd o ddydd i ddydd, yn cynnwys ymrwymiadau swyddogol a gwaith elusennol. Mae'r swyddfa hefyd yn cynorthwyo, cynllunio a chynghori ynglŷn â gyrfaoedd milwrol y Tywysogion a'u gyrfaoedd yn y tymor hir, ac yn delio â materion gweinyddol.

Swyddfa'r Trysorydd

Swyddfa'r Trysorydd sy'n gyfrifol am Gyllid a'r Rhestr Eiddo, Personél a Gweinyddu, ac am yr Archifau. Y Swyddfa hon hefyd sy'n gyfrifol am systemau gwybodaeth yr Aelwyd gyfan.

Mae'r Isadran Gyllid yn rheoli'r arian drwy gyfuniad o gyllidebau blynyddol, cyfrifon rheoli misol a chyfres o systemau a gweithdrefnau cyfrifyddu, yn arbennig o ran awdurdodi gwariant. Yr isadran sydd hefyd yn gyfrifol am sicrhau'r gwerth gorau am arian, ac mae'n cadw cofnod o anrhegion ac asedau Eu Huchelderau Brenhinol.

Y Trysorydd sydd â chyfrifoldeb ariannol a gweinyddol dros Sefydliad Elusennau'r Tywysog yn y Deyrnas Unedig a Sefydliad Elusennol Unol Daleithiau America. Y hi hefyd sy'n gyfrifol am un o is-gwmnïau masnachu Sefydliad y Deyrnas Unedig, sef A. G. Carrick Limited, sy'n cael yr incwm a ddaw wrth werthu lithograffau o luniau'r Tywysog a'r breindaliadau a ddaw wrth gyhoeddi llyfrau. Ar ben hynny, mae'r Trysorydd yn monitro'r agweddau ariannol ar brif elusennau'r Tywysog ac mae'n gyfrifol am faterion sy'n ymwneud â chyhoeddi, contractau a'r gyfraith. Mae'r Aelwyd yn ceisio cynnig amgylchedd gwaith lle y gall unigolion gyfrannu'n llawn a theimlo mor fodlon â phosib yn eu gwaith. Yr Isadran Bersonél sy'n gofalu am gyflawni'r amcanion hyn, ac mae'r gwaith yn cynnwys recriwtio, cyflogi, hyfforddi a datblygu gyrfaoedd staff, cyfathrebu mewnol a chysylltiadau â staff. Yr Isadran hefyd sy'n trefnu secondiadau, penodiadau cenedlaethol a rhyngwladol a lleoliadau profiad gwaith. Yr Isadran Reoli Systemau Gwybodaeth ym Mhalas Buckingham sy'n trefnu a chynnal y rhan fwyaf o systemau technoleg gwybodaeth yr Aelwyd. Tywysog Cymru sy'n talu costau systemau gwybodaeth yr Aelwyd.

Mae tri Archifydd yn gyfrifol am reoli'r holl bapurau a'r ffeiliau sy'n ymwneud â bywyd cyhoeddus Tywysog Cymru ers diwedd yr 1960au. Yr Uwch Archifydd sydd hefyd yn rheoli ceisiadau i'r Tywysog a'r Dduges weithredu fel noddwr neu lywydd dros fudiad, yn ogystal â'r achosion lle maen nhw eisoes yn gweithredu fel noddwr neu lywydd. Mae dau reolwr rhestri eiddo'n gyfrifol am gofnodi a chadw anrhegion a'r holl asedau y mae Eu Huchelderau Brenhinol yn berchen arnyn nhw.

Cyfathrebu

Fel Etifedd yr Orsedd, mae diddordeb mawr gan y cyhoedd a'r cyfryngau yng ngweithgareddau Tywysog Cymru, yn ogystal ag yn Nuges Cernyw a Thywysog William a Thywysog Harry. Rôl Swyddfa'r Wasg yw rhoi gwybodaeth a helpu cynulleidfa eang i ddod i ddeall gwaith a gweithgareddau Tywysog Cymru. Mae Swyddfa'r Wasg hefyd yn trin a thrafod ymholiadau gan y cyfryngau ynglŷn â Duges Cernyw a'r ddau Dywysog. Mae hefyd yn cydweithio'n agos â chydweithwyr yn Swyddfa'r Wasg Palas Buckingham, o safbwynt agweddau cyffredinol ar y Frenhiniaeth.

Yr Ysgrifennydd Cyfathrebu sy'n gyfrifol am Swyddfa'r Wasg, sydd hefyd yn cynnwys Ysgrifennydd y Wasg, tri Ysgrifennydd Cynorthwyol y Wasg (gydag un o'r rhain yn gyfrifol yn benodol am drin a thrafod ymholiadau o ddydd i ddydd ynglŷn â Thywysog William a Thywysog Harry), dau Swyddog y Wasg, Swyddog Cynorthwyol y Wasg, Golygydd y Wefan a chynorthwyydd personol ar gyfer yr adran gyfan.

Yn ystod 2009-10, denodd www.princeofwales.gov.uk 4.6 miliwn o argraffiadau tudalen. Mae'n ffynhonnell boblogaidd o wybodaeth ar gyfer y cyfryngau, ymchwilwyr a'r cyhoedd o'r Deyrnas Unedig a gwledydd tramor. Yn ogystal â'r newyddion diweddaraf am ymrwymiadau Eu Huchelderau Brenhinol, mae'r safle'n cynnig gwybodaeth am eu gwaith a'u gweithgareddau elusennol, areithiau ac erthyglau diweddar, manylion

Mae tri Archifydd yn gyfrifol am reoli'r holl bapurau a'r ffeiliau sy'n ymwneud â bywyd cyhoeddus Tywysog Cymru ers diwedd yr 1960au.

Yn ystod 2009-10, denodd gwefan swyddogol Eu Huchelderau Brenhinol (www.princeofwales.gov.uk) 4.6 miliwn o argraffiadau tudalen.

Mae'r 185 o fideos ar y Sianel Frenhinol wedi cael eu gwylio dros saith miliwn o weithiau.

9,396
O WESTEION WEDI'U CROESAWU I CLARENCE HOUSE A'R CARTREFI BRENHINOL ERAILL

115
O DDERBYNIADAU, SEMINARAU, CINIAWAU CANOL DYDD A CHINIAWAU HWYR YNG NGHWMNI EU HUCHELDERAU BRENHINOL

hanesyddol, ac oriel o luniau. Mae gwybodaeth a newyddion ar y safle hefyd am Dywysog William a Thywysog Harry. Mae fideos y mae Swyddfa'r Wasg ei hun wedi'u creu ar gael ar y wefan swyddogol ac y Sianel Frenhinol (*The Royal Channel*) ar YouTube, y mae'r Aelwyd a Phalas Buckingham yn ei rheoli ar y cyd. Mae ychydig dros 30,000 o bobl wedi tanysgrifio i'r sianel ac mae'r 185 o fideos wedi cael eu gwylio dros saith miliwn o weithiau.

Swyddfa'r Elusennau sy'n rhedeg gwefan Cymuned Elusennau'r Tywysog (http://princescharities.org), ac mae pob un o elusennau'r Tywysog yn rhoi newyddion a blogiau arni. Mae pobl yn cael eu hannog i ymuno â'r gymuned i gael cylchlythyr misol ac i gystadlu mewn cystadlaethau.

Adran Meistr yr Aelwyd

Meistr yr Aelwyd sy'n gyfrifol am raglen o ymrwymiadau Tywysog Cymru a Duges Cernyw, Swyddfa'r Gwastrawd, cartrefi, swyddfeydd a gerddi Eu Huchelderau Brenhinol, staff personol, derbyniadau a'r holl weithgareddau croesawu, ynghyd â diogelwch a chyfrinachedd. Swyddfa'r Gwastrawd sy'n rheoli dyddiaduron Eu Huchelderau Brenhinol o ddydd i ddydd, gan weithredu hefyd fel rhyngwyneb rhwng staff, yr Heddlu a mudiadau allanol, a chynllunio'r rhaglen yn y tymor hir. Mae Swyddfa'r Gwastrawd hefyd yn rheoli trefniadau logistaidd a threfniadau teithio'r ymweliadau swyddogol gartref a thramor. Fel arfer, mae amryw o deithiau tramor bob blwyddyn. Swyddog milwrol sy'n dal i wasanaethu yn y fyddin yw'r Gwastrawd, wedi'i secondio o'r Lluoedd Arfog i'r Aelwyd am tua dwy flynedd.

Bob blwyddyn, mae'r Tywysog a'r Dduges yn cael miloedd o wahoddiadau o lawer o wahanol gyrff yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Mae Eu Huchelderau Brenhinol a'u staff yn rhoi sylw manwl i bob un. Wrth drefnu'r ymweliadau bob blwyddyn, mae'r Gwastrawd yn cydweithio â'r Ysgrifenyddion Preifat, Swyddfa'r Wasg a chyrff allweddol eraill i ofalu bod y Tywysog a'r Dduges yn cynnwys dewis eang o wahanol ddiddordebau, yn cwrdd â llawer o wahanol bobl ac yn mynd i gymaint o rannau o'r wlad â phosib.

Mae'r Gwastrawd a'r Gwastrawd Cynorthwyol yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer materion milwrol ac amddiffyn. Mae cysylltiadau agos gan Dywysog Cymru â'r Lluoedd Arfog, nid dim ond ym Mhrydain ond yn y Gymanwlad hefyd. Mae'r Tywysog hefyd yn Llyngesydd yn y Llynges Frenhinol, yn Gadfridog yn y Fyddin ac yn Brif Farsial Awyr yn yr Awyrlu Brenhinol.

Mae Tywysog Cymru'n arwain Arwisgiadau ym Mhalas Buckingham bob blwyddyn (bu'n llywyddu dros naw arwisgiad yn ystod 2009-10), ac mae hefyd yn cynrychioli'r Frenhines mewn nifer o achlysuron gwladol. Swyddfa'r Gwastrawd sy'n gyfrifol am drefniadau'r ymrwymiadau hyn.

Mae croesawu swyddogol yn rhan bwysig o rôl Tywysog Cymru a Duges Cernyw. Y llynedd, croesawodd y ddau 9,396 o westeion i Clarence House ac i gartrefi Brenhinol eraill. Mae'r achlysuron hyn yn amrywio o groesawu gwesteion swyddogol a phobl amlwg o wledydd tramor i gynnal ciniawau a chyngherddau i ddiolch i'r rheini sy'n ymwneud ag elusennau'r Tywysog a'r Dduges. Yn 2009-10, arweiniodd Eu Huchelderau Brenhinol 115 o dderbyniadau, seminarau, ciniawau canol dydd a chiniawau yn yr hwyr. Wrth gynnal y derbyniadau a'r ciniawau mwy, rheolwyr digwyddiadau allanol sy'n goruchwylio'r gwaith o'u cynllunio a'r holl drefniadau gweinyddu ac arlwyo.

Mae gofyn i'r rhan fwyaf o'r staff sy'n rheoli ac yn trefnu'r achlysuron hyn fod ar ddyletswydd saith diwrnod yr wythnos, yn cynnwys y rhan fwyaf o'r min nosweithiau. Maen nhw'n dilyn trefn o weithio am wythnos, gydag wythnos o seibiant yn dilyn. Mae costau'r staff sy'n rhoi help personol i'r Tywysog a'r Dduges wedi'u cynnwys dan bennawd gwariant answyddogol. Mae bwtleriaid yn gweithredu 'ym mlaen y tŷ' ar ran Eu Huchelderau Brenhinol, gan gwrdd â gwesteion, trefnu lluniaeth ysgafn a gosod ystafelloedd. Maen nhw'n gweithio'n agos gyda'r rheolwyr tŷ, sy'n goruchwylio'r holl drefniadau domestig a glanhau, a gyda'r pen-cogyddion.

Mae un bwtler ar ddyletswydd bob amser. Mae gan Dywysog Cymru weision a swyddogion teithio sy'n gweithio'n barau am wythnos ar y tro, bob yn ail wythnos. Maen nhw'n helpu'r Tywysog gyda'i ddillad a'i wisgoedd swyddogol, a gyda'r holl ofynion o safbwynt cludiant a theithio. Mae'r un gweision a'r swyddogion yn gwneud yr un math o waith ar ran Tywysog William a Thywysog Harry. Mae gan y Dduges ddau aelod o staff sy'n gwneud yr un math o waith ar ei rhan hi.

Mae Tywysog Cymru a Duges Cernyw'n defnyddio'u cartref yn Highgrove, ac yn arbennig Ystafell y Berllan (*the Orchard Room*) yn ei erddi, i gynnal ymrwymiadau swyddogol ac i groesawu ymwelwyr. Cafodd Ystafell y Berllan ei chynllunio a'i hadeiladu'n bwrpasol gan y Tywysog fel lle i groesawu gwesteion swyddogol. Yn 2009-10, cafodd ei defnyddio ar gyfer 15 o dderbyniadau, seminarau a chyfarfodydd briffio ar gyfer dros 2,000 o westeion, ac mae'r holl ymwelwyr â'r ardd yn cael lluniaeth ysgafn yno. Mae un o'r ddwy siop sydd yn Highgrove yn rhan ohoni hefyd.

Y llynedd, aeth bron i 34,000 o bobl o gwmpas yr ardd yn Highgrove, sy'n golygu cyfanswm o tua 244,000 o ymweliadau ers i'r ardd gael ei hagor i'r cyhoedd yn 1992. Rhyngddyn nhw, mae'r ymwelwyr hyn wedi dewis cyfrannu £315,000 at fudiadau elusennol y Tywysog. Maen nhw'n cael cyfle hefyd i brynu eitemau o siop Highgrove, sy'n rhoi ei holl elw i Sefydliad Elusennau'r Tywysog. Ar ben hynny, mae'r rheini sy'n mynd i dderbyniadau swyddogol yn ystod yr haf yn cael cyfle fel arfer i weld yr ardd. Gan ei fod wedi ymrwymo i warchod treftadaeth naturiol Prydain, mae'r Tywysog yn defnyddio'r ardd fel lle i warchod rhywogaethau o blanhigion, blodau a choed sydd dan fygythiad, a'i obaith yw y bydd ymwelwyr yn mwynhau gweld y manteision sy'n dod yn sgil rheoli tir mewn ffordd naturiol a garddio organig.

Cyflwynwyd tâl mynediad ym mis Mawrth 2010 ar gyfer y teithiau o gwmpas yr ardd yn Highgrove, sy'n gyson â'r polisi ar gyfer y cartrefi Brenhinol eraill sydd ar agor i'r cyhoedd. Mae'r elw o'r holl deithiau hyn yn mynd i Sefydliad Elusennau'r Tywysog. Gall ymwelwyr ddefnyddio cyfleusterau prynu tocynnau'r Casgliad Brenhinol i brynu tocynnau i weld yr ardd.

Mae myfyrwyr ac ymchwilwyr garddwriaeth yn gweithio yn yr ardd drwy gydol y flwyddyn ac mae'r Tywysog yn cyflogi tîm o arddwyr. Gan mai'r cyhoedd sy'n defnyddio'r ardd yn bennaf wrth ymweld, mae'r rhan fwyaf o gostau'r ardd yn dod dan bennawd gwariant swyddogol (er bod incwm preifat Ei Uchelder Brenhinol yn talu'r costau swyddogol a'r costau personol). Caiff y gweddill, sy'n debygol o ymwneud â mwynhad personol y Tywysog a'r Dduges o'r ardd, ei osod dan bennawd gwariant answyddogol.

Mae Adran Meistr yr Aelwyd hefyd yn cynnwys Swyddogion Negesau (sy'n cynnal cyfarpar y swyddfa ac yn gyfrifol am offer swyddfa, deunydd ysgrifennu a cheir swyddfa), a derbynyddion. Yr Adran sy'n gyfrifol hefyd am iechyd a diogelwch. Mae Meistr yr Aelwyd, ar y cyd â'r Heddlu Metropolitan, yn gyfrifol hefyd am ddiogelwch a chyfrinachedd.

Elusennau'r Tywysog

Y Cyfarwyddwr Elusennau, gyda chymorth Dirprwy Gyfarwyddwr rhan amser, sy'n gyfrifol am reoli'r Swyddfa Elusennau. Sefydliad Elusennau'r Tywysog sy'n talu costau'r Swyddfa Elusennau.

Prif gyfrifoldeb y Swyddfa yw cynnig cefnogaeth a chyngor i'r elusennau o ran materion fel llywodraethu corfforaethol, y polisïau wrth dderbyn rhoddion a chodi arian, cynllunio, cyllid a chyfathrebu.

Mae'r Swyddfa Elusennau hefyd yn hyrwyddo cysylltiadau a chydweithio rhwng yr elusennau, yn helpu i benodi Cadeiryddion ac Ymddiriedolwyr, ac yn goruchwylio'r gwaith o ddatblygu syniadau a mentrau newydd. Y Swyddfa Elusennau sydd hefyd yn rheoli Project Cyfrifyddu er Cynaliadwyedd y Tywysog, Project Fforestydd Glaw'r Tywysog ac Uned Gynaliadwyedd Rhyngwladol y Tywysog.

Mae Tywysog Cymru a Duges Cernyw'n defnyddio'u cartref yn Highgrove, ac yn arbennig Ystafell y Berllan yn ei erddi, i gynnal ymrwymiadau swyddogol ac i groesawu ymwelwyr.

YMWELIADAU BLYNYDDOL

Mae'r Tywysog a'r Dduges yn mynd ar nifer o ymweliadau â'r Alban a Chymru bob blwyddyn, ac maen nhw aros ym Mhalas Holyroodhouse yng Nghaeredin ar gyfer wythnos o waith ac yn Llwynywermod, eu cartref yng Nghymru. Roedd cost yr ymweliadau blynyddol hirach hyn, sy'n berthnasol i dderbyniadau a chiniawau'n bennaf, yn dod i £23,761 yn 2009-10, ac mae wedi'i chynnwys dan bennawd gwariant 'croesawu swyddogol'.

DADANSODDIAD O'R COSTAU SWYDDOGOL YN ÔL CATEGORI GWARIANT

Mae'r adrannau blaenorol wedi dadansoddi ac esbonio'r gwariant yn ôl adrannau. Mae'r tabl sy'n dilyn yn dadansoddi'r gwariant ar ddyletswyddau swyddogol a gweithgareddau elusennol yn ôl categori.

Am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth	**£000oedd** 2010	**£000oedd** 2009
Costau staffio	6,303	6,244
Hyfforddiant, recriwtio a lles staff	174	230
Teithio a chynhaliaeth	229	308
Ymgynghori allanol a ffioedd proffesiynol	141	171
Croesawu swyddogol a derbyniadau	252	527
Rhoddion ac anrhegion	78	66
Gwasanaethau	193	182
Cartrefi a swyddfeydd sydd heb eu talu dan Grantiau Cymorth	545	703
Y wasg a gwasanaethau gwybodaeth	116	89
Deunydd ysgrifennu ac offer swyddfa	186	218
Cyfrifiaduron a systemau gwybodaeth	364	347
Cadw tŷ a glanhau swyddfeydd	122	105
Yswiriant	58	45
Gerddi	125	65
Dibrisio	173	180
Cyfanswm	**9,059**	**9,480**

Mae'r Tywysog a'r Dduges yn mynd ar nifer o ymweliadau â'r Alban a Chymru bob blwyddyn, ac maen nhw aros ym Mhalas Holyroodhouse yng Nghaeredin ar gyfer wythnos o waith ac yn Llwynywermod, eu cartref yng Nghymru.

CYFRIF CYNALIADWYEDD

Wrth adrodd am ei pherfformiad o ran cynaliadwyedd, mae'r Aelwyd yn defnyddio'r Fframwaith Adrodd yn Gysylltiedig a gafodd ei ddatblygu gan Broject Cyfrifyddu er Cynaliadwyedd (A4S) y Tywysog. Gan ei fod yn cyfuno gwybodaeth gyllidol, amgylcheddol a chymunedol-gysylltiedig, mae'r fframwaith yn cynnig ffordd fwy cyflawn a chytbwys o gofnodi perfformiad mudiad ac o'i gyflwr.

Daw prif effeithiau'r Aelwyd o ran cynaliadwyedd yn sgil gwaith Eu Huchelderau Brenhinol gyda phobl, cymunedau a mudiadau, camau i gwtogi ar ei hallyriadau o nwyon tŷ gwydr oherwydd teithio, gwresogi a goleuo, a'r gwaith ffermio cynaliadwy yn Highgrove.

Cymunedau

Mae cynorthwyo pobl, cymunedau a mudiadau'n rhan bwysig o weledigaeth a gwaith y Tywysog, a hwn hefyd yw prif bwyslais ei raglen ar ran ei elusennau a'i ymrwymiadau.

Am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth	**2010 £m**	2009 £m	2008 £m	2007 £m
Arian a godwyd i Elusennau'r Tywysog	110	130	122	110
Gwariant ar ddyletswyddau swyddogol a gweithgareddau elusennol	9.1	9.5	8.0	7.3
Cyfanswm y trethi a dalwyd	4.0	3.6	3.9	3.8
Cyfanswm yr ymrwymiadau swyddogol	755	743	671	688

Mae'r arian a godir i Elusennau'r Tywysog a'r gwariant a'r trethi'n amrywio yn ôl amodau economaidd ac ati. Mae cyfanswm yr ymrwymiadau swyddogol yn cynnwys yr holl ymrwymiadau mae Eu Huchelderau Brenhinol yn eu gwneud fel unigolion a gyda'i gilydd yn y Deyrnas Unedig ac mewn gwledydd tramor.

Fel grŵp, Elusennau'r Tywysog yw'r fenter elusennol fwyaf yn y Deyrnas Unedig sy'n cwmpasu amryw o achosion. Mae llawer o waith Elusennau'r Tywysog yn canolbwyntio ar greu, datblygu ac atgyfnerthu cymunedau.

Yn yr un ffordd, bwriad ymrwymiadau Eu Huchelderau Brenhinol yw tynnu sylw at ragoriaeth a chyflawniadau pobl mewn cymunedau o bob sector o'r gymdeithas, dod â phobl at ei gilydd i gynorthwyo mentrau ac ymdrechion cymunedol, hybu ac amddiffyn y traddodiadau mae pobl o bob math yn eu rhannu a'u gwerthfawrogi, a gweithredu fel canolbwynt i undod a chydweithio lleol a chenedlaethol.

Yr amgylchedd

Mae Aelwyd Eu Huchelderau Brenhinol yn ceisio cwtogi ar ei hallyriadau o garbon. Mae'n llwyddo i wneud hyn drwy ddefnyddio llai o ynni a thrwy ddefnyddio mwy o ynni adnewyddadwy.

Allyriadau o nwyon tŷ gwydr

Am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth	**2010**	2009	2008	2007
Allyriadau o garbon deuocsid cyfwerth (CO_2e)	**tunnell fetrig**	tunnell fetrig	tunnell fetrig	tunnell fetrig
Ynni – gwresogi a goleuo	484	530	656	917
Teithio swyddogol yn y DU a mathau eraill o deithio	755	818	1,177	1,579
Allyriadau y gellid eu priodoli i'r Aelwyd	1,239	1,348	1,833	2,496
Allyriadau y gellid eu priodoli i deithio tramor swyddogol	1,479	1,253	962	929
Allyriadau'r Aelwyd o CO_2e	2,718	2,601	2,795	3,425
The Home Farm yn Highgrove	2,044	2,377	2,422	2,322
Cyfanswm yr allyriadau	4,762	4,978	5,217	5,747
Gwariant	**£000oedd**	£000oedd	£000oedd	£000oedd
Gwariant i wrthbwyso carbon	25	25	23	19
Buddsoddi i gwtogi ar allyriadau	17	70	498	154

Mae buddsoddi i gwtogi ar allyriadau'n cynnwys gwariant cyfalaf gan yr Aelwyd ac o'r Grant Cymorth Gwasanaethau Eiddo. Cafodd y niferoedd eu hailgyfrifo i gynnwys llog ar brojectau cyfalaf, lle mae hwnnw'n berthnasol.

Mae llawer o waith Elusennau'r Tywysog yn canolbwyntio ar greu, datblygu ac atgyfnerthu cymunedau.

Cyfanswm yr allyriadau o CO_2e (Tunnelli metrig)
Am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth

- Aelwyd: Ffynonellau dan reolaeth yr Aelwyd
- Aelwyd: Teithio tramor swyddogol
- The Home Farm

Allyriadau o CO_2e (Tunnelli metrig)

Dadansoddiad o'r allyriadau o CO_2e ar gyfer teithio

- Teithiau Eraill
- Teithiau Swyddogol yn y DU (awyrennau a threnau)
- Teithiau tramor swyddogol

Mae'r allyriadau o garbon ar gyfer 2010 wedi'u cyfrifo yn ôl Polisi Adrodd am Garbon yr Aelwyd, ac mae'r ffigurau wedi bod yn destun sicrwydd annibynnol.
Mae mwy o fanylion ar gael ar www.princeofwales.gov.uk

Dadansoddiad o'r allyriadau o CO_2e (mewn tunnelli metrig) ar gyfer teithio.

Defnydd o ynni yn ôl ffynhonnell (MWh)

- Gwresogi – ffynonellau adnewyddadwy
- Trydan – ffynonellau adnewyddadwy
- Gwresogi – nwy ac olew
- Trydan – o danwyddau ffosil

Roedd gostyngiad eleni yng nghyfanswm yr allyriadau o nwyon tŷ gwydr o'r Aelwyd a Home Farm. Mae'r adrannau sy'n dilyn yn esbonio'r prif resymau dros weld y newid. Roedd gostyngiad o wyth y cant yn yr allyriadau o'r ffynonellau sydd dan reolaeth yr Aelwyd. Cafodd hyn ei orbwyso mewn cynnydd yn allyriadau'r teithiau tramor swyddogol a gafodd eu gwneud ar ran y Llywodraeth, sydd y tu hwnt i reolaeth yr Aelwyd. Roedd hyn yn golygu mai dim ond pedwar y cant o ostyngiad oedd yng nghyfanswm yr allyriadau.

Yn 2007, gosodwyd targed i gwtogi 25 y cant erbyn 2012 ar yr allyriadau, ac eithrio'r rhai o Home Farm yn Highgrove. Llwyddwyd i sicrhau gostyngiad o 21 y cant erbyn 2010. Cafodd Home Farm ei eithrio gan nad oedd ffigurau ar gael yn 2007 ar ei chyfer.

Teithio

Am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth	**2010**	2009	2008	2007
Allyriadau o CO_2e	**tunnell fetrig**	tunnell fetrig	tunnell fetrig	tunnell fetrig
Teithiau tramor swyddogol	**1,479**	1,253	962	929
Teithiau swyddogol yn y DU (awyrennau a threnau)	**287**	405	466	565
Cyfanswm y teithiau swyddogol	**1,766**	1,658	1,428	1,494
Teithiau eraill	**468**	413	711	1,014
Cyfanswm yr allyriadau CO_2e o deithio	**2,234**	2,071	2,139	2,508
	£000oedd	£000oedd	£000oedd	£000oedd
Gwariant ar deithiau swyddogol	**692**	1,710	1,157	1,485

Mae mwy o fanylion am y teithiau swyddogol ar dudalen 42. Mae'r categori "Teithiau eraill" yn cynnwys teithiau staff, staff yn cymudo a theithiau preifat Eu Huchelderau Brenhinol.

Mae'r rhan fwyaf o'r allyriadau o garbon oherwydd teithio'n digwydd yn sgil teithiau tramor y mae Eu Huchelderau Brenhinol yn eu gwneud ar gais y Swyddfa Dramor a Chymanwlad. Roedd cynnydd o 18 y cant yn yr allyriadau eleni yn sgil nifer o ymweliadau â gwledydd yn Ewrop (yn cynnwys Denmarc, Ffrainc, yr Almaen, yr Eidal, Gwlad Pwyl, y Weriniaeth Tsiec a Hwngari) a dwy daith i wledydd pell (Canada ac Affganistan).

Roedd gostyngiad o 29 y cant yn yr allyriadau o deithiau swyddogol mewn awyrennau a threnau yn y Deyrnas Unedig, sydd dan reolaeth uniongyrchol yr Aelwyd. Y rheswm am hyn yw defnyddio awyrennau sy'n defnyddio tanwydd yn fwy effeithlon, ac am fod y Trên Brenhinol wedi cael ei drosi i ddefnyddio biodiesel wedi'i wneud o hen olew coginio.

I helpu i gwtogi ar effaith teithiau eraill yr Aelwyd, mae ceir y Tywysog yn rhedeg ar fiodanwyddau sydd wedi'u gwneud o hen olew coginio neu win sydd dros ben. Mae staff yn cael eu hannog i ddefnyddio cludiant cyhoeddus lle bynnag y mae hynny'n bosib, ac mae cyfleusterau ar gael i staff sy'n beicio neu'n cerdded i'w gwaith.

Gwresogi a goleuo

Am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth	**2010**	2009	2008	2007
Y defnydd o ynni	**MWh**	MWh	MWh	MWh
Trydan – o danwyddau ffosil	**267**	272	386	788
Gwresogi – nwy ac olew	**1,740**	1,910	2,100	2,125
Cyfanswm sy'n dod o danwyddau ffosil	**2,007**	2,182	2,486	2,913
Trydan – ffynonellau adnewyddadwy	**527**	504	383	29
Gwresogi – ffynonellau adnewyddadwy	**1,008**	825	79	-
Cyfanswm sy'n dod o danwyddau adnewyddadwy	**1,535**	1,329	462	-
Cyfanswm y defnydd o danwydd	**3,542**	3,511	2,948	-
	tunnell fetrig	tunnell fetrig	tunnell fetrig	tunnell fetrig
Allyriadau o CO_2e o wresogi a goleuo	**484**	530	656	917
	£000oedd	£000oedd	£000oedd	£000oedd
Gwariant ar danwydd	**196**	187	150	153

Mae'r defnydd o wres adnewyddadwy'n cael ei amcangyfrif gan ddefnyddio cyfuniad o ddarlleniadau mesuryddion, y defnydd o danwydd a chyfrifiadau gwresogi mannau.

Mae'r Aelwyd yn ceisio cwtogi ar ei hallyriadau o garbon wrth ddefnyddio tanwyddau drwy geisio defnyddio ynni'n fwy effeithlon, a thrwy ddefnyddio mwy o ynni o ffynonellau adnewyddadwy. Yn 2009-10, daeth amcangyfrif o 43 y cant (o gymharu â 38 y cant yn 2008) o'r ynni ar gyfer gwresogi a goleuo o ffynonellau adnewyddadwy. Yn eu plith yr oedd naddion coed, trydan o ffynonellau adnewyddadwy a defnyddio pympiau gwresogi sy'n tynnu gwres o'r awyr neu'n ei godi o'r ddaear.

Mae'r Aelwyd hefyd wedi helpu ei staff i gwtogi ar eu heffaith eu hunain trwy osod pympiau sy'n codi gwres o'r ddaear ym mythynnod y staff ar Stad Highgrove a drwy gynnig cyngor i staff drwy'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn ystod Wythnos Arbed Ynni.

Mae'r Aelwyd yn bwriadu gwneud mwy yn ystod 2010-11 i gwtogi ar ei dibyniaeth ar danwyddau ffosil trwy ddefnyddio mwy o bympiau tynnu gwres o'r awyr neu'r ddaear, a drwy osod paneli solar ffotofoltäig.

Adnoddau naturiol

Nod yr Aelwyd yw defnyddio adnoddau naturiol fel dŵr ffres a deunyddiau crai mewn ffordd gynaliadwy, ac i greu cyn lleied â phosib o wastraff a llygredd.

Gwastraff

Dechreuodd yr Aelwyd gasglu gwastraff bwyd ar wahân eleni er mwyn cwtogi ar y bwyd gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi. Mae menter gymdeithasol leol yn casglu croen llysiau, esgyrn anifeiliaid a'r rhan fwyaf o'r sbarion bwyd eraill, ac yn eu troi'n gompost ar gyfer grwpiau cymunedol ac i'w ddefnyddio ar lotments yn ne Llundain i hybu dulliau lleol a chynaliadwy o gynhyrchu bwyd.

Mae dewis helaeth o wahanol ddeunyddiau'n cael eu casglu o bob un o'r cartrefi i'w hailgylchu, sy'n golygu bod llai o wastraff yn mynd i safleoedd tirlenwi.

Dŵr

Am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth	**2010**	2009	2008	2007
Y defnydd o ddŵr	**m^3**	m^3	m^3	m^3
Cyfanswm y mesur o'r dŵr a ddefnyddiwyd	**5,926**	4,773	8,113	7,548
	£000oedd	£000oedd	£000oedd	£000oedd
Gwariant ar ddŵr	**16**	13	15	13

Mae'r cyfanswm ar gyfer defnyddio dŵr yn uwch eleni gan ei fod bellach yn cynnwys y dŵr a ddefnyddir yn Llwynwermod.

Mae nifer o gamau i gwtogi ar y defnydd o ddŵr o'r brif ffynhonnell wedi cael eu gosod. Yn eu plith y mae casglu dŵr glaw ac ailgylchu dŵr llwyd yn Highgrove a Birkhall. Mae dŵr tap wedi'i hidlo wedi cymryd lle dŵr potel mewn cyfarfodydd. Mae cynhyrchion glanhau bioddiraddadwy nad ydyn nhw'n niweidio'r amgylchedd yn cael eu defnyddio er mwyn cwtogi ar lygru dŵr.

Defnyddio papur

Am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth	**2010**	2009	2008	2007
Y defnydd o bapur	**kg**	kg	kg	kg
Y defnydd o bapur i bob aelod o staff (sy'n cyfateb i amser llawn)	**35**	46	44	56

Y defnydd o ddŵr (m^3)
Y mesur o'r dŵr a ddefnyddiwyd, m^3 ('000oedd o litrau)

Y defnydd o bapur i bob aelod o staff (kg)

2007 2008 2009 2010

Home Farm

Mae pridd iach, byw yn rhan hanfodol o gyfalaf naturiol y Ddaear. Rhaid rheoli tir yn ofalus er mwyn i fwyd gael ei dyfu yn y tymor hir ac i'r pridd barhau fel ffordd bwysig o storio carbon. Cymysgedd o fwynau a gweddillion planhigion ac anifeiliaid yw prif yn bennaf. Mae pridd iach sy'n cael ei gadw mewn cyflwr da'n galluogi planhigion i dyfu'n dda heb orfod defnyddio cynnyrch sy'n seiliedig ar danwyddau ffosil.

Mae arferion ffermio traddodiadol a chynaliadwy, fel y drefn o gylchdroi cnydau sydd wedi bod ar waith yn Home Farm am dros 25 o flynyddoedd, yn hybu pridd iach. A, drwy weithio gyda byd natur, mae'n helpu i amddiffyn a gwella'r cyfalaf naturiol.

Mae anifeiliaid fel gwartheg eidion yn rhan bwysig o'r broses o gylchdroi cnydau. Mae'r caeau'n defnyddio egni'r haul i drosi carbon deuocsid a dŵr yn ynni ar ffurf glaswellt, meillion a phlanhigion porthi eraill. Y rhain yw diet naturiol gwartheg, sy'n treulio tua hanner y flwyddyn yn yr awyr agored. Nid yn unig y mae'r ffordd hon o fyw'n well i'r gwartheg, ond mae eu tail, ar y cyd â meillion sy'n rhyddhau nitrogen i'r pridd, yn ei wneud yn ddigon maethlon i dyfu cnydau cylchdro fel gwenith a cheirch.

Trwy ymgorffori tail gwartheg a thoriadau planhigion i'r pridd ar ôl y gwella ffrwythlondeb, mae'r pridd yn gallu storio llawer iawn o garbon, gan gwtogi ar yr allyriadau net o nwyon tŷ gwydr. Mae'n bosib cwtogi mwy fyth ar yr allyriadau net drwy beidio â defnyddio gwrtaith a phlaladdwyr artiffisial sy'n drwm ar danwyddau ffosil.

Mae arferion rheoli ffermydd fel y rhai sydd ar waith yn Home Farm yn tueddu i ychwanegu'r lefel fwyaf o garbon yn ystod y degawdau cyntaf. Bu Home Farm yn cael ei rhedeg fel fferm organig am ddegawdau erbyn hyn, a'r farn yw bod y rhan helaethaf o'r broses o storio carbon yn y pridd wedi digwydd yn barod, a bod yr arferion ffermio'n dal i helpu i gadw'r carbon yn y pridd. Mae cynnal gwrychoedd ac ymylon caeau hefyd yn cynyddu faint o garbon sydd wedi'i storio yn y pridd ac yn y planhigion sy'n tyfu ynddo. Mae amcangyfrif yn y tabl sy'n dilyn o'r defnydd o ynni a'r allyriadau o nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â Home Farn, cyn caniatáu ar gyfer y storio ychwanegol hwn. Mae amcangyfrif a chreu adroddiadau am allyriadau ffermydd fel hyn yn feysydd sy'n esblygu.

Am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth	2010	2009	2008	2007
Allyriadau o CO_2e	tunnell fetrig	tunnell fetrig	tunnell fetrig	tunnell fetrig
Y defnydd o ynni	309	335	324	310
Da byw a thail	1,808	2,043	2,083	1,941
Cnydau a ffynonellau eraill	76	148	164	220
CO_2 wedi'i storio mewn coetiroedd	(149)	(149)	(149)	(149)
Cyfanswm yr allyriadau o CO_2e	2,044	2,377	2,422	2,322
Ynni	MWh	MWh	MWh	MWh
Y defnydd o ynni	1,053	1,100	1,078	994
Adnoddau naturiol eraill	m^3	m^3	m^3	m^3
Y defnydd o ddŵr, 000oedd o litrau	13,873	15,936	15,692	19,570

Mae'r ffigurau ar gyfer 2007 hyd 2009 wedi cael eu hailgyfrifo i fod yn gyson â pholisïau cyfrifyddu, i gywirio ffactorau trosi a ddefnyddiwyd ar gyfer diesel a thrydan, ac i ddiweddaru'r amcangyfrifon ar gyfer y defnyddio o ynni.

Cyfran arwyddocaol o'r ynni a ddefnyddir yw'r diesel mae'r tractorau'n ei ddefnyddio wrth aredig y tir, a bydd hwn yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn oherwydd effeithiau'r tywydd (p'un a yw'r pridd yn wlyb neu'n sych) ac yn ôl gwahanol gamau'r broses o gylchdroi cnydau. Cafodd aradr "bras-drin" ei rhoi ar waith eleni ac mae disgwyl i'r drefn hon gwtogi ar y defnydd o ddiesel gan fod yr aradr yn troi llai o bridd wrth aredig. Mae unedau cyfnewid gwres a dulliau gwresogi solar thermal sy'n defnyddio ynni'n effeithlon yn helpu i gwtogi ar faint o drydan mae'r llaethdy'n ei ddefnyddio.

Yn Home Farm, mae'r allyriadau wedi gostwng oherwydd bod nifer y gwartheg godro'n amrywio, a bod faint o galch sy'n cael ei daenu ar y caeau'n amrywio. Mae hybu bioamrywiaeth yn allweddol i ffermio organig. Mae gwrychoedd ac ymylon caeau'n gweithredu fel cynefinoedd i ysglyfaethwyr naturiol sy'n helpu i reoli plâu, ac maen nhw'n cynnig lloches i fywyd gwyllt. Nid yw plaladdwyr artiffisial, sy'n gallu amharu ar fywyd gwyllt yn ogystal â'r plâu, yn cael eu defnyddio.

CO_2e The Home Farm (Tunnelli metrig)

Dadansoddiad o allyriadau (a storio) CO_2e mewn tunnelli metrig yn ôl ei brif ffynhonnell/man storio.

- Y defnydd o ynni
- Da byw a thail
- Cnydau a ffynonellau eraill
- CO_2 wedi'i storio mewn coetiroedd

ATODIAD

PORTFFOLIOS YR UWCH REOLWYR

Syr Michael Peat
Prif Ysgrifennydd Preifat
– Cyfrifoldeb cyffredinol dros yr Aelwyd a'r Swyddfa
– Materion cyfansoddiadol, Gwladwriaethol a seremonïol
– Yr Eglwys (yn cynnwys yr Eglwys Gatholig)
– Cadeirydd Sefydliad Elusennau'r Tywysog
– Dugaeth Cernyw
– Duchy Originals Limited
– Y Stadau Preifat
– Uned Gynaliadwyedd Rhyngwladol y Tywysog
– Cadeirydd, The Great Steward of Scotland's Dumfries House Trust

Mark Leishman
Ysgrifennydd Preifat
– Rheoli'r Swyddfa Breifat
– Polisïau rhaglenni a goruchwylio ymrwymiadau
– Yr Alban
– Iechyd
– Addysg

Asgell-gomander Richard Pattle
Meistr yr Aelwyd
– Goruchwylio cyffredinol dros y rhaglen a logisteg
– Swyddfa'r Gwastrodion
– Goruchwylio cyffredinol dros dderbyniadau a chroesawu
– Staff personol a domestig
– Pob cartref a gardd
– Diogelwch a chyfrinachedd
– Cyfrifoldeb cymdeithasol

Leslie Ferrar
Trysorydd, gyda chymorth Clara Pearce, Trysorydd Cynorthwyol a Rheolwr Ariannol,
Polly McGivern, Trysorydd Cynorthwyol (Materion Cyfreithiol a Masnachol),
Mimi Watts, Pennaeth Personél a Gweinyddu, a
David Hutson, Trysorydd Cynorthwyol a Rheolwr Cofnodion
– Cyfrifoldeb cyffredinol dros faterion ariannol, cyfrifyddiaeth a buddsoddi
– Personél
– Technoleg gwybodaeth
– Rhestr eiddo
– Archifau a rheoli cofnodion
– Materion yn ymwneud â chyhoeddi, masnachu, contractau a'r gyfraith
– A.G. Carrick Limited
– Cyfarwyddwr Duchy Originals a Traditional Arts Ltd
– Goruchwylio'r holl agweddau ariannol ar Elusennau'r Tywysog, gyda Chyfarwyddwr Elusennau'r Tywysog
– Sefydliad Elusennol UDA
– The Home Farm

Paddy Harverson
Ysgrifennydd Cyfathrebu, gyda chymorth Patrick Harrison,
Ysgrifennydd y Wasg
– Pob agwedd ar y cyfryngau ar gyfer Tywysog Cymru, Duges Cernyw, Tywysog William a Thywysog Harry a Dugaeth Cernyw

Clive Alderton
Ysgrifennydd Preifat dros Faterion Tramor a'r Gymanwlad
– Materion tramor a'r Gymanwlad, yn cynnwys teithiau tramor
– Datblygu rhyngwladol
– Cymunedau lleiafrifol, ethnig a ffydd
– Yr Heddlu
– Ysgol y Tywysog er y Celfyddydau Traddodiadol
– Busnes Ieuenctid Rhyngwladol y Tywysog
– Yr Ymddiriedolaeth Brydeinig Asiaidd
– Sefydliad y Mynydd Gwyrddlas, Affganistan

Manon Williams

Ysgrifennydd Preifat dros Gymru
– Cymru, yn cynnwys mudiadau Cymreig Tywysog Cymru
– Yr amgylchedd adeiledig, yn cynnwys Sefydliad y Tywysog er yr Amgylchedd Adeiledig
– Treftadaeth, yn cynnwys Ymddiriedolaeth Adfywio'r Tywysog
– Ysgol Arlunio'r Tywysog
– Y Celfyddydau, yn cynnwys Celfyddyd a Busnes a Sefydliad y Tywysog er Plant a'r Celfyddydau
– PRIME-Cymru

Benet Northcote
Dirprwy Ysgrifennydd Preifat
– Busnes cyfrifol, yn cynnwys Busnes yn y Gymuned, Rhaglen Busnes a'r Amgylchedd y Tywysog, *In Kind Direct* a Grŵp yr Arweinwyr Corfforaethol ar y Newid yn yr Hinsawdd
– Amaethyddiaeth a materion gwledig
– Yr amgylchedd naturiol a physgota

Amanda MacManus
Ysgrifennydd Preifat Cynorthwyol (rhan amser)
– Trefnu a chydlynu ymrwymiadau, gwaith elusennol a dyddiadur Duges Cernyw

Joy Camm
Ysgrifennydd Preifat Cynorthwyol (rhan amser)
– Trefnu a chydlynu ymrwymiadau, gwaith elusennol a dyddiadur Duges Cernyw

Sophie Densham
Ysgrifennydd Preifat Cynorthwyol
– Trefnu a chydlynu ymrwymiadau, gwaith elusennol a dyddiadur Duges Cernyw

Jonathan Hellewell
Ysgrifennydd Preifat Cynorthwyol
– Ymddiriedolaeth y Tywysog
– Gogledd Iwerddon
– Yr oedrannus, yn cynnwys PRIME
– Adran Ohebiaeth, dan reolaeth Claudia Holloway, Pennaeth Gohebiaeth

Sarah Kennedy-Good
Ysgrifennydd Preifat Cynorthwyol
– Y Gymanwlad
– Cymunedau lleiafrifol, ethnig a ffydd

Chantelle Naidoo
Ysgrifennydd Preifat Cynorthwyol
– Y Gymanwlad
– Cymunedau lleiafrifol, ethnig a ffydd

Uwchgapten Will Mackinlay
Gwastrawd
– Y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr
– Rhaglen, dyddiadur, teithio a logisteg
– Arwisgiadau
– Y Gwasanaethau Brys
– Chwaraeon, fforwyr ac anturiaethwyr

Virginia Carington
Meistr Cynorthwyol yr Aelwyd
– Y Casgliad Brenhinol
– Llythyrau personol ac ymrwymiadau preifat

AELWYD TYWYSOG WILLIAM A THYWYSOG HARRY

Jamie Lowther-Pinkerton
Ysgrifennydd Preifat i Dywysog William a Thywysog Harry
– Cynghori'r Tywysogion ynglŷn â'u gyrfaoedd, gweithredu fel noddwyr elusennol a materion eraill, a threfnu ymrwymiadau swyddogol

ELUSENNAU'R TYWYSOG

Sir Tom Shebbeare

Cyfarwyddwr, Elusennau'r Tywysog
– Strategaeth a chyd-drefnu cyffredinol ar gyfer Elusennau'r Tywysog, yn cynnwys yn benodol codi arian a llywodraethu
– Rheolwr-gyfarwyddwr Sefydliad Elusennau'r Tywysog

Justin Mundy
Cyfarwyddwr, Uned Gynaliadwyedd Rhyngwladol y Tywysog
– Rhaglenni a phrojectau ym maes cynaliadwyedd, yn cynnwys Project Fforestydd Glaw'r Tywysog a Phroject Cyfrifyddu er Cynaliadwyedd
– Goruchwylio a chydlynu gwaith rhyngwladol Elusennau'r Tywysog, yn cynnwys y rheini sydd ar waith yn Tsieina, India, Romania ac Affganistan

ELUSENNAU'R TYWYSOG

Grŵp o fudiadau 'ddim er elw' yw 'Elusennau'r Tywysog', ac mae Tywysog Cymru'n gweithredu fel ei Lywydd. Sefydlodd y Tywysog ei hun 18 o'r 20 elusen.

Y grŵp hwn yw'r fenter elusennol fwyaf yn y Deyrnas Unedig sy'n cwmpasu nifer o achosion, ac mae'n codi dros £100 miliwn y flwyddyn. Mae'r mudiadau'n gweithio mewn amryw o wahanol feysydd yn cynnwys cyfle a menter, yr amgylchedd adeiledig, busnes cyfrifol, addysg ac iechyd. Ar ben hynny, mae cyfraniad chwe menter gymdeithasol yn sylweddol gan eu bod yn rhoi eu holl elw i elusennau.

Mae'r elusennau'n ffordd o gyfleu safbwynt arloesol Tywysog Cymru yn y tymor hir, ac maen nhw'n ceisio rhoi sylw i feysydd lle mae angen sydd heb ei ddiwallu.

I ddysgu mwy, ewch i: http://princescharities.org

CYFLE A MENTER

The Prince's Trust
www.princes-trust.org.uk Ffôn: +44 (0) 20 7543 1234
Rhadffon 0800 842 842
The Prince's Scottish Youth Business Trust
www.psybt.org.uk Ffôn: +44 (0) 141 248 4999
The Prince's Youth Business International
www.youthbusiness.org Ffôn: +44 (0) 3326 2060
PRIME
www.primeinitiative.org.uk
www.primebusinessclub.com
Ffôn: +44 (0) 20 8765 7833
PRIME-Cymru
www.prime-cymru.co.uk Ffôn: +44 (0) 1550 721 813
The British Asian Trust
www.britishasiantrust.org
Ffôn: +44 (0) 20 7024 5646 neu +44 (0) 20 7024 5739

ADDYSG

The Prince's Drawing School
www.princesdrawingschool.org Ffôn: +44 (0) 20 7613 8568
The Prince's School of Traditional Arts
www.psta.org.uk Ffôn: +44 (0) 20 7613 8532
The Prince's Teaching Institute
www.princes-ti.org.uk Ffôn: +44 (0) 20 3174 3106
The Prince's Foundation for Children & the Arts
www.childrenandarts.org.uk Ffôn: +44 (0) 20 3326 2230

YR AMGYLCHEDD ADEILEDIG

The Prince's Foundation for the Built Environment
www.princes-foundation.org Ffôn: +44 (0) 20 7613 8500
The Prince's Regeneration Trust
www.princes-regeneration.org Ffôn: +44 (0) 20 7462 6440
Turquoise Mountain
www.turquoisemountain.org Ffôn: +44 (0) 1764 650 888
The Great Steward of Scotland's Dumfries House Trust
www.dumfries-house.org.uk Ffôn: +44 (0) 1290 425959

BUSNES CYFRIFOL

Business in the Community
www.bitc.org.uk Ffôn: +44 (0) 20 7566 8650
The University of Cambridge Programme for Sustainability Leadership
www.cpsl.cam.ac.uk Ffôn: +44 (0) 1223 768850
Scottish Business in the Community
www.sbcscot.com Ffôn: +44 (0) 131 451 1100
In Kind Direct
www.inkinddirect.org Ffôn: +44 (0) 20 7398 5510
Arts & Business
www.artsandbusiness.org.uk Ffôn: +44 (0) 20 7378 8143

IECHYD

The Prince's Foundation for Integrated Health
www.fih.org.uk Ffôn: +44 (0) 20 7766 0002
E-bost: contactus@fih.org.uk
(I'w gau ym mis Gorffennaf 2010)

MENTER GYMDEITHASOL

Duchy Originals
www.duchyoriginals.com
North Highland Initiative
www.mey-selections.com (cynnyrch)
www.northhighlandsscotland.com (twristiaeth)
Highgrove Enterprises
www.highgroveshop.com Ffôn: +44 (0) 845 521 4331
Traditional Arts Ltd
www.traditionalarts.co.uk Ffôn: +44 (0) 20 7033 4950
Turquoise Mountain Arts
www.turquoisemountainarts.af Ffôn: +93 (0) 797 968 218
E-bost: contact@turquoisemountainarts.af

www.princeofwales.gov.uk

Manylion yr argraffu, y papur a'r cyhoeddi:
Dyluniwyd a chynhyrchwyd gan Addison www.addison.co.uk
Argraffwyd gan Beacon Press gan ddefnyddio technoleg argraffu amgylcheddol **pureprint**.

Data amgylcheddol ar gyfer cynhyrchu'r ddogfen hon:

Ffibrau'r papur:	100% wedi'i adennill o wastraff defnyddwyr a gynhyrchwyd i safon ISO14001, ac yn ardystiedig gan FSC
Allyriadau CO_2:	955kg a gwrthbwyso 100%
Inc:	100% o olew llysiau
Toddyddion argraffu:	95% wedi'u glanhau a'u hailddefnyddio
Gwastraff sych:	99% wedi'i ailgylchu
IPA a ddefnyddiwyd:	0%

Mae'r holl systemau cynhyrchu wedi'u cofrestru i safonau ISO 14001:2004, ISO 9001: 2000 ac EMAS. Mae argraffdy Beacon Press yn argraffydd niwtral o ran carbon (CarbonNeutral®) sy'n gweithredu rhaglen cwtogi ar garbon cyn gwrthbwyso, ac mae wedi ennill Dyfarniad y Frenhines am Fenter: Datblygu Cynaliadwy.